# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Dogfen Ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol 5
    Cynnwys 7
    Pyramid Hierarchaeth Datblygu 37
    Atodiadau Cymraeg 107
    Atodiad 1 -  Datganiad Ysgrifenedig Cynllunio Cadarnhaol 130
    Atodiad 2 - Bwletin WLGA am Faterion Cynllunio 132
    Atodiad 3 - Ffurflen Ymateb i'r ymgynghoriad 143
5 - Cytundeb Rhyng awdurdod- Gwastraff Gweddilliol 158

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**SPECIAL MEETING OF THE COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00PM, DYDD GWENER, 7 CHWEFROR, 2014**

**2.00PM, FRIDAY, 7 FEBRUARY, 2014**

Nodwch amser cychwyn y cyfarfod ogydd / Please note the meeting start time

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES, CAERNARFON**

Noder y man cyfarfod ogydd / Please note the venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Ioan Hughes (01286 679780)**

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd 31-01-2014

**Aelodaeth/Membership (18)**

**<u>Plaid Cymru (9)</u>**
Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ab Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**
Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**<u>Llais Gwynedd (3)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Louise Hughes | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**<u>Llafur/Labour (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**<u>Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)</u>**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen.

**RHAGLEN**

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **Y BIL CYNLLUNIO (CYMRU) DRAFFT A CHYNLLUNIO CADARNHAOL: CYNIGION I DDIWYGIO'R SYSTEM GYNLLUNIO YNG NGHYMRU.**

Ceir cyflwyniad gan y Pennaeth Rheoleiddio a'r Aelod Cabinet - Cynllunio
(papurau cefndir a chopi o'r ddogfen ymgynghorol ynghlwm)

5. **CYTUNDEB GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL**

**Ail Gytundeb Rhwng y Pum Cyngor**

Craffu'r egwyddorion fydd yn cael eu cynnwys yn yr ail gytundeb y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei arwyddo er mwyn symud ymlaen gyda'r cynllun ar y cyd.

(Adroddiad yr Aelod Cabinet i ddilyn)

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 ac 18 A, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymwneud a chanlyniadau proses gaffel a phenodi ymgymerwr o ganlyniad. Ymdrinnir â materion masnachol sensitif yn yr adroddiad megis prisiau ac amodau yn deillio o broses gystadleuol. Mae gwybodaeth o'r fath a gyflwynwyd yn y broses ynglŷn â busnes yr ymgeiswyr ac yn fasnachol sensitif. Mae hefyd yn ddarostyngedig i ymrwymiadau ynglŷn â chyfrinacholdeb.

Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth ynglŷn â materion gwariant cyhoeddus a chytundebau mewn meysydd megis rheoli gwastraff mae angen cloriannu hyn yn erbyn diddordeb cyhoeddus yr awdurdod wrth sicrhau hyder ymgeiswyr i ymgeisio am gytundebau heb bryderu y bydd gwybodaeth fasnachol sensitif all fod o fudd uniongyrchol i gystadleuwyr eraill yn y farchnad wastraff yn cael ei gyhoeddi. Gall methu a darparu y fath sicrwydd danseilio hyder ymgymerwyr sydd am geisio am waith ac felly lleihau cystadleuaeth. Mae hefyd yn berthnasol nad yw'r broses benodi yn sgil yr ymarfer caffel wedi ei gwblhau. Oherwydd hyn gorwedd y budd cyhoeddus o blaid eithrio'r wasg a'r cyhoedd.

7. **CYTUNDEB GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL**
**Dewis Ymgymerwr i Gyflawni'r Gwasanaeth**

Craffu argymhelliad gan y Cyd Bwyllgor Gogledd Cymru a sefydlwyd i redeg y prosiect ynglŷn â'r cwmni y dylid ei ddewis i gyflawni'r prosiect.

(Adroddiad i ddilyn).

Rhif: **WG20088**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynllunio Cadarnhaol

Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **4 Rhagfyr 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **26 Chwefror 2014**

## Trosolwg

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys ein cynigion ar gyfer newid y system gynllunio yng Nghymru. Mae hyn yn golygu newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth ac i bolisi a chanllawiau. Yn bwysicaf oll, mae'r papur ymgynghori yn cadarnhau'r angen i newid diwylliant ac i newid agweddau, gan ganolbwyntio ar annog a chefnogi datblygu yn hytrach nag ar reoleiddio datblygu.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 4 Rhagfyr 2013 ac yn dod i ben ar 26 Chwefror 2014.

## Sut i ymateb

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau.

Mae'r papur ymgynghori yn cynnwys cwestiynau penodol a hoffai Llywodraeth Cymru dderbyn eich ymateb iddynt.

Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb fydd 26 Chwefror 2014.

Gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Llenwch y ffurflen ymateb a'i hanfon i: planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk

(Rhowch 'Cynllunio Cadarnhaol – WG20088' fel y pwnc).

Post: Llenwch y ffurflen ymateb a'i hanfon i'r cyfeiriad a nodir yn yr adran 'Manylion Cysylltu'.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

Tîm y Bil Cynllunio
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Ebost:** planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk

**Ffôn:** 0300 060 3300 or 0845 010 3300

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2013

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog Tai ac Adfywio

1. Cynllunio Cadarnhaol 1

2. Y Dystiolaeth o Blaid Newid 7

3. Cefnogi Newid mewn Diwylliant 11
   - Y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio
   - Fframwaith Cymwyseddau Cynllunio

4. Stiwardiaeth Weithredol 17
   - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
   - Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol
   - Yr Hierarchaeth Rheoli Datblygu
   - Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd
   - Apelau Cynllunio
   - Hawliau Apelio Trydydd Partïon

5. Gwella Cydweithrediad 43
   - Cydweithio Agosach Rhwng Gwasanaethau Cynllunio Lleol Cyfagos
   - Cydweithredu Gwell Rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol
   - Cynlluniau Datblygu Strategol

6. Gwella'r Ddarpariaeth Leol 55
   - Elfennau Gwasanaeth Cynllunio Lleol Da
   - Ceisiadau Cynllunio Uniongyrchol i Weinidogion Cymru
   - Gwella'r Broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol
     - Mireinio Cynlluniau Datblygu Lleol
     - Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd
     - Hysbysu Ymlaen Llaw Pan Gaiff CDLl ei Dynnu'n Ôl
     - Y Dyddiad y mae CDLl yn dod i ben
     - Ymgysylltu â'r Gymuned

- Gwella'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu

  - Rhoi'r Cynllun ar Waith
  - Cyngor Cyn Ymgeisio
  - Ymgysylltu Cyn Ymgeisio
  - Gofynion o ran Gwybodaeth
  - Datganiadau Dylunio a Mynediad
  - Ymgyngoreion Statudol
  - Pwyllgorau Cynllunio, Dirprwyo a Rôl Aelodau
  - Hysbysiadau o Benderfyniadau
  - Hysbysu am Ddatblygiadau
  - Diwygio Caniatâd Cynllunio
  - Adnewyddu Caniatâd Cynllunio
  - Meysydd Trefol a Phentrefol
  - Gorfodi

- Ffioedd ac Adnoddau
- Ffioedd Ceisiadau Cynllunio

7. Effeithiau Ariannol 93

# Rhagair gan y Gweinidog Tai ac Adfywio

Mae teitl yr ymgynghoriad hwn – Cynllunio Cadarnhaol – yn disgrifio i'r dim y dyheadau sydd gennyf ar gyfer y system gynllunio. Rwyf am i'r system gynllunio alluogi datblygiadau priodol sy'n cefnogi amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol – boed o ran seilwaith, cartrefi newydd neu ddatblygiadau sy'n helpu busnesau i dyfu ac sy’n cefnogi swyddi.

Wrth ddatblygu'r cynigion, bûm mewn sefyllfa i ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth o blaid newid. Nid oes prinder gwybodaeth na safbwyntiau am y system gynllunio a'r ffordd y mae'n gweithredu ar hyn o bryd. Ar ôl i mi ystyried yr wybodaeth honno, yr hyn sydd o ddiddordeb i mi yw'r newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i’r gyfraith, i bolisïau, ac o ran diwylliant, er mwyn i'r system gynllunio ddod yn alluogwr.

Rwyf am i Lywodraeth Cymru bennu fframwaith deddfwriaethol a pholisi priodol sy'n rhoi eglurder i awdurdodau cynllunio, i’r rheini sy’n cyflwyno ceisiadau cynllunio ac i'r cyhoedd. Rwyf hefyd am i'r system, sy'n un hynod gymhleth ar hyn o bryd, gael ei symleiddio, a hoffwn weld mwy o gydweithredu wrth roi'r system gynllunio ar waith. Credaf y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r rheini a nodwyd yn y Bil drafft cynllunio (Cymru), yn ein tywys i'r cyfeiriad hwnnw.

Mae'n bwysig bod deddfwriaeth gynllunio yn cysylltu'n effeithiol â deddfwriaeth arall yn ein rhaglen ac rwy'n gweithio'n agos â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet sy'n gyfrifol am Filiau'r Amgylchedd, Treftadaeth a Chenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan bwysig o drafodaeth barhaus am y system gynllunio – rwyf yn awyddus i chi ddweud eich dweud, ac i ddatgan a ydych o’r farn y bydd ein cynigion yn helpu i gyflawni'r amcan o greu system gynllunio alluogol. Byddai diddordeb gennyf glywed oddi wrthych hefyd os ydych yn credu bod rhagor y gallem ei wneud er mwyn cyrraedd y nod hwnnw.

Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

# Pennod 1 - Cynllunio Cadarnhaol

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r cynigion sydd gennym i newid y system gynllunio. Mae'n cydnabod y rhan bwysig y mae'n rhaid i'r system gynllunio ei chwarae wrth lywio dyfodol Cymru drwy helpu i sicrhau'r twf, y swyddi, y cartrefi a'r seilwaith y mae eu hangen arnom, gan warchod ein hadnoddau naturiol pwysicaf ar yr un pryd. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gynllunio fod yn fwy na gweithgarwch rheoleiddiol. Dim ond canlyniadau negyddol fydd yn deillio o system gwbl reoleiddiol. Rhaid ailystyried, a defnyddio cynllunio fel adnodd i reoli newid, a hynny er budd y cyhoedd ac er mwyn cefnogi datblygiad drwy dywys gwaith datblygu i leoliadau priodol.

1.2 Rydym yn cynnig pecyn o newidiadau a fydd yn diwygio'r system yn sylweddol. Bydd gofyn newid deddfwriaeth sylfaenol, a nodir y newidiadau hynny yn fersiwn ddrafft Bil Cynllunio (Cymru) sy'n ategu'r ymgynghoriad. Bydd angen is-ddeddfwriaeth hefyd, ynghyd â pholisïau a chanllawiau. Yn anad dim, mae'r ymgynghoriad yn cadarnhau'r angen i newid diwylliant, gan newid agwedd a symud o reoleiddio datblygiadau tuag at annog a chefnogi datblygiadau. Nid ar chwarae bach yn bydd gwneud hynny; bydd angen cynnwys pawb sy'n gysylltiedig â'r system gynllunio, gan gynnwys y llywodraeth, awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau), ymgeiswyr, ymgyngoreion statudol a dinasyddion. Dyma'r unig ffordd y bydd y system gynllunio yn gallu helpu i wireddu ein dyheadau ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

1.3 Mae pawb yn derbyn bod angen system gynllunio, ond cytunir yn gyffredinol y gallai'r system honno ein gwasanaethu'n well. Mae angen newid mawr, a hynny ar fyrder. Nid yw 'parhau i weithredu fel arfer' yn opsiwn. Yn ôl y dystiolaeth, mae'r rheini sy'n defnyddio'r system gynllunio yn teimlo ei bod wedi mynd yn rhy rheoleiddiol ei natur, a'i bod yn anodd ei rhagweld ac yn anhyblyg, yn enwedig felly yng nghyd-destun amgylchiadau economaidd cyfnewidiol[1]. Mae dinasyddion wedi mynegi pryderon nad yw'r system gynllunio yn dryloyw ac nad yw'n adlewyrchu anghenion na dyheadau cymunedau[2].

1.4 Er bod cryn gynnydd wedi ei wneud o ran mynd i'r afael â'r pryderon hyn, mae cryn le i wella o hyd. Yr her sy'n ein hwynebu yw sefydlu strwythurau cyflawni, prosesau a gweithdrefnau a fydd yn cael eu hategu gan sancsiynau, er mwyn darparu system gynllunio i Gymru sy'n addas ar gyfer yr 21[ain] Ganrif. Y neges glir yw bod angen i bob ACLl ddarparu gwasanaeth o ansawdd mewn ffordd gyson.

### Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

1.5 ***Ein gweledigaeth yw system gynllunio sy'n ein helpu i gyflawni amcanion cenedlaethol, lleol a chymunedol drwy gefnogi datblygiadau priodol***. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen system gynllunio arnom sy'n gweithredu mewn modd cadarnhaol ac sy'n hwyluso datblygiadau priodol yn hytrach na'u rhwystro. Rydym am greu system gynllunio sy'n gaffaeliad, drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o'r difidend datganoli. Bydd hynny'n ein helpu i

[1] Y Grŵp Cynghori Annibynnol – Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol
[2] Agweddau'r Cyhoedd tuag at y System Gynllunio yng Nghymru

wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Ymhlith yr heriau hynny y mae adfer yr economi ar ôl y dirwasgiad gwaethaf ers cyn cof, yr angen i fynd ati ar fyrder i adnewyddu ein seilwaith, a'r angen i ddarparu cartrefi o ansawdd da i bawb. Er ein bod wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaeth i'n rhan yn sgil y setliad datganoli, byddwn yn parhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y DU am ragor o ddatganoli mewn meysydd megis caniatáu prosiectau ynni dros 50mw; a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Mae ein cynigion yn gydnaws â'r cynigion i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn ategu'r cynigion hynny hefyd.

1.6 Dyma'r tro cyntaf i Gymru allu rheoli deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni newid. Mae ein cynigion yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr sy'n cael ei disgrifio'n gryno yn y bennod nesaf. Mae'n cynnwys adroddiad arbenigol helaeth a baratowyd gan Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) a wahoddwyd gennym i gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r system gynllunio. Cafodd y grŵp hwnnw dros 100 o ymatebion i'w gais am dystiolaeth a chynhaliodd rhaglen eang o drafodaethau gyda rhanddeiliaid. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y drafodaeth am gyfeiriad y system gynllunio yng Nghymru yn y dyfodol ac yn croesawu'r ffaith bod cymaint o bobl yn cytuno bod angen newid. Daethpwyd i'r casgliad na ddylid diddymu'r system gynllunio bresennol yn llwyr ond nodwyd bod angen ei hailwampio'n sylweddol er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben. Rydym yn bwrw ymlaen â llawer o'r cynigion a gyflwynwyd gan yr GCA. Maent yn cael eu hegluro yn y papur ymgynghori hwn ac, os bydd angen deddfwriaeth sylfaenol, byddant yn cael eu cynnwys yn ein Bil drafft. Mewn sawl achos, mae angen gwneud dewisiadau pellach cyn y gallwn gwblhau ein cynigion deddfwriaethol. Rydym wedi nodi'r dewisiadau hynny ac rydym yn gofyn i chi fynegi barn arnynt fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Caiff unrhyw gynigion deddfwriaethol ychwanegol a fydd yn deillio o hyn eu cynnwys yn y Bil a gaiff ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2014.

**Ein cynigion**

1.7 Yn y penodau nesaf o'r ymgynghoriad, rydym yn disgrifio'r casgliadau allweddol sy'n deillio o'r sylfaen dystiolaeth ac yn manylu ar y cynigion sydd gennym ar gyfer diwygio'r system gynllunio yng Nghymru.

1.8 Mae ein cynigion yn cyflwyno newid sy'n:

- Cefnogi newid mewn diwylliant, gan helpu i sicrhau bod cynllunio yn weithgaredd cadarnhaol sy'n rheoli ac yn cefnogi datblygiadau priodol
- Cadarnhau rôl Llywodraeth Cymru fel stiward gweithredol ar y system gynllunio
- Hyrwyddo cydweithredu effeithiol rhwng ACLlau
- Gwella darpariaeth leol drwy atgyfnerthu'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynlluniau a hyrwyddo gweithdrefnau rheoli datblygu effeithlon
- Gwella lefelau ymgysylltu drwy ei gwneud hi'n haws i ddinasyddion ddylanwadu ar ddyfodol eu cymunedau.

1.9 Rydym wedi trefnu ein cynigion yn ôl pedair thema:

- Cefnogi newid mewn diwylliant;
- Stiwardiaeth weithredol;
- Gwella cydweithrediad;
- Gwella'r ddarpariaeth leol.

1.10 Er mwyn ***cefnogi newid mewn diwylliant***, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu gwasanaeth cynghori a gwella cynllunio cenedlaethol o dan adain Llywodraeth Cymru (paragraff 3.18).
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio ac aelodau etholedig, a fydd yn disgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r mathau o ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio (paragraff 3.24).

1.11 Er mwyn bod yn ***stiwardiaid gweithredol*** ar y system gynllunio, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol, sef y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru (paragraff 4.7).
- Cyflwyno categori newydd o ddatblygiad ar gyfer ceisiadau cynllunio sy’n gysylltiedig â’r seilwaith mwyaf (datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd) lle mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau cynllunio (paragraff 4.54).

1.12 Er mwyn ***gwella cydweithrediad***, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Diweddaru'r fframwaith cyfreithiol a fyddai'n caniatáu i ACLlau gael eu huno i greu byrddau ar y cyd a fyddai'n cwmpasu ardaloedd mwy o faint (paragraff 5.6).
- Sefydlu system o Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) i ymdrin â materion o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol, megis y cyflenwad tir ar gyfer tai (paragraff 5.21).

1.13 Er mwyn ***gwella'r ddarpariaeth leol*** o ran gwasanaethau cynllunio, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol wedi'u safoni ar gyfer ACLlau. Os bydd perfformiad yn gyson wael, bydd opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio diffiniedig i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r ACLl (paragraff 6.10).
- Mireinio'r system Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), ac annog ACLlau a chynghorau tref a chymuned i gydweithredu wrth lunio Cynlluniau Lleoedd (paragraff 6.20).
- Gwella effeithiolrwydd y system rheoli datblygu, gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol er mwyn mynd ati, yn achos y ceisiadau

cynllunio mwyaf, i roi cyngor effeithiol ac ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau cyn y cam ymgeisio (paragraff 6.50).

1.14 Ni fydd ein deddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys polisïau cynllunio ar bynciau penodol megis tai neu'r economi. Ymdrinnir yn helaeth â materion polisi eisoes drwy Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Byddai cynnwys polisïau cynllunio mewn deddfwriaeth yn gam yn ôl, gan leihau hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn gyflym i amgylchiadau cyfnewidiol. Byddai angen deddfwriaeth newydd bob tro y cynigid unrhyw newidiadau polisi.

## Cysylltiadau â deddfwriaeth arall Llywodraeth Cymru

1.15 Mae'r Bil drafft yn rhan o gyfres o gynigion deddfwriaethol a pholisi sy'n ategu ei gilydd ac sydd â'r nod o sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r prif egwyddor drefniadol sydd wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'r system gynllunio yn adnodd pwysig er mwyn cyflawni'r amcanion sydd i'w gweld mewn nifer o Filiau cysylltiedig.

1.16 Bydd **Bil Cenedlaethau'r Dyfodol** yn nodi'r amcanion hirdymor y dylai'r sector cyhoeddus gydweithio i'w cyflawni. Bydd y system gynllunio yn helpu i ddehongli a gwireddu'r amcanion hynny.

1.17 Mae'r amcanion allweddol ar gyfer ein **Bil Tai** yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o dai, darparu mwy o dai fforddiadwy a gwella ansawdd y stoc tai[3]. Bydd ein cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yn helpu i gyflawni hynny drwy wneud gwelliannau parhaus i'r system cynlluniau datblygu a gwella gweithdrefnau rheoli datblygu, gan ei gwneud yn haws cael caniatâd cynllunio ar gyfer y cartrefi y mae arnom eu hangen.

1.18 Mae'r ymgynghoriad ar **Fil yr Amgylchedd** yn cynnig dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru drwy sicrhau bod ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am y defnydd a wneir ohonynt yn y dyfodol[4]. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod gennym sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu. Bydd hefyd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i roi cyngor amserol a chyson ar gynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio.

1.19 Nod yr ymgynghoriad ar y **Bil Treftadaeth** yw rheoli unrhyw newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd sensitif a chynaliadwy[5]. Mae gan y system gynllunio rôl greiddiol i'w chwarae o ran gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol unigryw Cymru. Datblygwyd cynigion y Bil Treftadaeth ar y cyd â'r diwygiadau yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno ym maes cynllunio.

---

[3] Cartrefi i Gymru – y Bil Tai
[4] Ymgynghoriad ar Fil yr Amgylchedd
[5] Ymgynghoriad ar y Bil Treftadaeth

**Y camau nesaf**

1.20 Ym mhenodau 3 i 6, amlinellwn y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i wella'r system gynllunio yng Nghymru. Yn eu plith y mae amrywiaeth o ymyriadau polisi, gwelliannau i bolisïau a chanllawiau, a chynigion deddfwriaethol (gan gynnwys diwygio is-ddeddfwriaeth).

1.21 Ar ôl dyddiad cau’r ymgynghoriad hwn (26 Chwefror 2014), caiff yr holl ymatebion eu dadansoddi a'u hystyried er mwyn mireinio cynnwys y Bil y bwriedir ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2014.

1.22. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol sy’n ymdrin â chynllunio, a’r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig fel y’i cyflwynir gan y Bil, yn dibynnu'n drwm ar is-ddeddfwriaeth i'w gweithredu. Er mwyn sicrhau bod modd mynd ati’n gyflym i gyflwyno'r cynigion deddfwriaethol sydd yn y Bil drafft, mae'n bosibl y byddwn, cyn i’r ddeddf gael ei chyflwyno, yn cynnal ymgynghoriad ar weithredu is-ddeddfwriaeth a rheoliadau mewn meysydd megis:

- Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
- Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd;
- Cynlluniau Datblygu Strategol;
- Cynlluniau Datblygu Lleol;
- Ceisiadau cynllunio uniongyrchol i Weinidogion Cymru;
- Apelau;
- Hysbysu am Ddatblygiadau;
- Trafodaeth cyn ymgeisio;
- Pwyllgorau Cynllunio;
- Gorchymyn Gweithdrefnau Rheoli Datblygu Cymru;
- Ffioedd ceisiadau cynllunio.

**Dyheadau ar gyfer y dyfodol**

1.23 Nid Bil drafft Cynllunio (Cymru) yw’r unig ddyhead sydd gennym o ran deddfwriaeth. Rydym yn bwriadu ailddatgan ein cyfraith cynllunio yn helaeth yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi cyflwyno cynnig i Gomisiwn y Gyfraith, sydd ag arbenigedd heb ei ail yn y maes hwn, fel rhan o'r ymgynghoriad ar ei 12fed Rhaglen Diwygio'r Gyfraith.

1.24 Yn sgil datganoli, mae'r gyfraith cynllunio sy'n weithredol yng Nghymru yn gwahaniawethu fwyfwy oddi wrth y gyfraith gynllunio sydd ar waith yn Lloegr. Mae'r amcanion deddfwriaethol a nodir yn y Bil drafft yn cadarnhau ein dull unigryw o weithredu yn hyn o beth, ond cynigir yr amcanion hynny yng nghyd-destun y gyfraith sy'n bodoli eisoes ar gyfer y ddwy wlad. Yn wahanol i Loegr, mae'r amryfal haenau o lywodraeth yma yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn lleol, yn nes o lawer at ei gilydd ac at gymunedau lleol. Rydym o'r farn y dylid manteisio i'r eithaf ar y difidend datganoli drwy ddiweddaru strwythurau cyfreithiol ac ailddatgan y gyfraith cynllunio er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n gwbl ymatebol i anghenion ein gwlad. Mae'n dull gweithredu arfaethedig o weithredu yn hyn o beth wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad Cenedlaethol a hefyd gan randdeiliaid ym maes cynllunio[6].

[6] Cyfeiriad at Ymchwiliad Cynllunio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Pennod 2 - Yr hyn a ddywed y dystiolaeth wrthym

2.1 Casglwyd corff cynhwysfawr o dystiolaeth er mwyn llywio ein cynigion. Yn gyffredinol, daw'r dystiolaeth i'r casgliad bod sail gysyniadol gadarn i'r system gynllunio bresennol a'i bod wedi llwyddo i ddal ei thir dros amser. Gallai gormod o newid greu ansicrwydd ac atal buddsoddiad. Dylid achub ar y cyfle i drwsio system a fu o dan bwysau cynyddol ers 1947 ac yr ystyrir bellach ei bod yn anghyson, yn rhy reoleiddiol ac yn gweithredu mewn modd negyddol.

2.2 Llywiwyd ein dyheadau gan gyfres o dystiolaeth sy'n cynnwys:

- Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gynllunio yng Nghymru
- Adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol – Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru
- Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru
- Agweddau'r Cyhoedd tuag at y System Gynllunio yng Nghymru
- Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol yng Nghymru
- Gwerthuso Cydsyniadau ar gyfer Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru
- Astudiaeth i'r Ffordd y mae Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru yn Gweithio
- Ymchwil i'r Adolygiad o'r System Gorfodi
- Ymchwil i Werthuso'r Broses Caniatâd Cynllunio ar gyfer Tai

2.3 Noda'r dystiolaeth gyfres o welliannau y gellid eu gwneud i'r system gynllunio yng Nghymru. Eir ati yn yr ymgynghoriad hwn ac ym Mil drafft Cynllunio (Cymru) i nodi’r cynigion yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith. Yn y bennod hon, cyflwynwn grynodeb o’r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt ar sail y dystiolaeth fel y maent yn berthnasol i'r materion a ganlyn:

- Datblygu polisi a llunio cynlluniau;
- Rheoli datblygu;
- Cyfranogiad y cyhoedd.

2.4 Mae'r adroddiadau tystiolaeth ar gael ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol: http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/?lang=cy

**Datblygu Polisi a Llunio Cynlluniau**

2.5 Y farn gyffredinol yw bod y system Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) yn briodol ac mai ei mireinio sydd ei hangen yn hytrach na'i diwygio'n llwyr. Roedd y dystiolaeth yn adlewyrchu’r angen i symleiddio a gwella'r broses CDLlau drwy ddysgu oddi wrth arfer da. Mae wedi hoelio sylw hefyd ar amryfal feysydd y mae angen eu gwella, nad oes angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Canfu'r dystiolaeth fod angen arweinyddiaeth

gadarn oddi wrth Lywodraeth Cymru, ynghyd â chosbau, er mwyn sicrhau system CDLLau fwy effeithlon ac iddi ffocws mwy penodol.

2.6 Dangosodd y dystiolaeth y byddai mwy o weithio trawsffiniol o fudd i'r system CDLlau, a hynny fel y bo modd mynd i'r afael â materion megis oedi wrth baratoi cynlluniau, a dyblygu gwaith, a hefyd fel y bo modd cynllunio ar y lefel fwyaf priodol mewn cysylltiad â materion megis y cyflenwad tai. Mae cydweithredu yn hanfodol er mwyn sicrhau system gynllunio effeithiol yng Nghymru. Mae hynny'n cydnabod y ffaith nad yw ffiniau gweinyddol yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw. Er bod enghreifftiau ar hyn o bryd o drefniadau gweithio rhanbarthol llwyddiannus yng Nghymru, megis cynllunio mwynau a gwastraff, yn gyffredinol, nid yw ACLlau yn gallu mynd i'r afael yn ddigonol â materion sydd o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol. O'r herwydd, dylid gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio trawsffiniol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

**Rheoli Datblygu**

2.7 Mae'r dystiolaeth yn nodi y dylai'r system gynllunio gael ei gweithredu ar lefel leol gan amlaf, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd ac fel y bo modd ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'n nodi y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan weithredol o ran sicrhau bod polisïau cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith ac yr eir i'r afael ag oedi wrth ddarparu.

2.8 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod system reoleddiol ei natur yn gymhleth ac yn un lle mae diffyg cysondeb wrth roi prosesau ar waith. Mae'r cynigion ymchwil yn anelu at fynd i'r afael â materion fel cysondeb a thryloywder yn y broses rheoli datblygu drwy symleiddio'r broses a lleihau'r gofynion o ran gwybodaeth. Pwysleisiwyd mewn mwy nag un astudiaeth fod trafodaethau cyn ymgeisio yn ffordd bwysig o atal achosion o oedi wrth benderfynu ar geisiadau.

2.9 Daw'r dystiolaeth i'r casgliad bod y system apelau yn gweithio'n dda yng Nghymru ond bod modd gwneud newidiadau pellach er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt ac er mwyn lleihau costau. Nid oedd unrhyw ddadleuon argyhoeddiadol o blaid sefydlu Arolygiaeth Gynllunio gwbl annibynnol i Gymru na chyflwyno hawliau apelio trydydd partïon.

2.10 Ystyrir bod y broses orfodi yn addas at y diben ond y dylai ACLlau weithredu mewn ffordd fwy rhagweithiol wrth wneud penderfyniadau ar achosion gorfodi, gyda phrosesau gorfodi mwy cadarn er mwyn sicrhau na all partïon gymryd mantais o'r system.

2.11 Roedd y dystiolaeth hefyd yn nodi bod diffyg sgiliau arbenigol, a'r ffaith mai timau cynllunio bach sydd yn yr ACLlau, yn cyfrannu at broblemau wrth brosesu ceisiadau o fewn y cyfnodau statudol. Roedd hyn yn arwain at ddiffyg hyder yn y system ac yn effeithio ar fuddsoddi. Mae'r cymhlethdod hwn ac achosion o oedi i'w gweld yn benodol mewn perthynas â chynlluniau ynni adnewyddadwy oherwydd diffyg sgiliau ac adnoddau.

2.12 Roedd y dystiolaeth yn nodi hefyd fod angen hyfforddi aelodau a swyddogion er mwyn osgoi anghysondeb wrth roi'r broses ar waith ac er mwyn sicrhau bod dull rheoli datblygu yn ennill ei blwyf. Cynigiwyd y dylid cyflwyno cynllun

dirprwyo cenedlaethol, cod ymddygiad, a hyfforddiant, ac y dylid hefyd gyfyngu ar y nifer sy'n eistedd ar bwyllgorau cynllunio a llunio gweithdrefn arferion gorau.

2.13 Nodwyd bod angen prosesau monitro a chydymffurfio ffurfiol a bod angen cyfres o gymhellion a chosbau er mwyn dylanwadu ar ymddygiad ac er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn cael ei rhoi ar waith mewn ffordd gadarnhaol yng Nghymru. Nodwyd bod angen safoni ffurf yr adroddiadau perfformiad blynyddol a gyflwynir gan ACLlau ac ymgyngoreion statudol.

**Y rhan y mae'r cyhoedd yn ei chwarae yn y system gynllunio**

2.14 Yn ôl y dystiolaeth, mae'r rhan fwyaf o ddinasyddion yn fodlon ar y system gynllunio ond maent o'r farn nad ydynt yn cael digon o gyfle i ddweud eu dweud yn ystod y broses a'i bod yn anodd bod yn rhan ohoni. Cydnabyddir ei bod yn hanfodol bod y cyhoedd yn cael chwarae rhan yn y broses, yn enwedig yn ystod y cam CDLlau, a bod yn rhaid hefyd i'r rheini y mae cynigion datblygu yn effeithio arnynt gael eu cynnwys yn gynnar yn y broses.

# Pennod 3 - Cefnogi newid mewn diwylliant

## Cefndir

3.1 Rydym am sicrhau bod y system gynllunio yn broses alluogol, sy'n ystyried safbwyntiau ac anghenion cymunedau wrth baratoi cynlluniau datblygu, sy'n defnyddio'r cynlluniau hynny i gyfeirio datblygiadau priodol i'r lleoliadau cywir, ac sy'n gwneud penderfyniadau ar gynigion datblygu er budd ehangach y cyhoedd. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r system gynllunio fod yn broses sy'n gwella ansawdd bywyd, yn rhoi safon uwch o fyw a gwell amgylchedd.

3.2 Er ein bod yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng canfyddiad pobl o'r gwasanaeth cynllunio a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn gwirionedd gan ymarferwyr cynllunio ymhob sector, mae hygrededd y system gynllunio gyfan yn seiliedig ar yr egwyddor mai hanfod cynllunio yw sicrhau bod y datblygiadau cywir yn y lleoliadau cywir, a bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn ffordd deg, agored ac effeithlon.

3.3 Canfu Beaufort Research[7], a gomisiynwyd gennym yn 2012 i gynnal adolygiad o ganfyddiadau'r cyhoedd o'r modd y mae'r system gynllunio yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru, fod safbwyntiau cymysg am y system gynllunio. Er bod boddhad cyffredinol gyda'r ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithio, roedd canfyddiadau y gallai'r system fod yn gymhleth, yn fiwrocrataidd ac yn adweithiol. Roedd pryderon hefyd nad oedd bob amser yn gweithredu mewn ffordd deg ac agored.

3.4 Derbyniwn fod adrannau cynllunio, fel unrhyw gangen arall o lywodraeth leol, wedi wynebu pwysau wrth weithredu o fewn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Mae llai o geisiadau, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy o faint, wedi arwain at ostyngiad mewn incwm sy'n deillio o ffioedd ceisiadau cynllunio. Mae effaith dyraniadau is mewn cyllidebau, ynghyd ag effaith ychwanegol y gostyngiad mewn incwm ffioedd, wedi arwain at sefyllfa lle mae llai o adnoddau i helpu i ddarparu gwasanaethau cynllunio. Mae hynny wedi effeithio ar rai adrannau cynllunio wrth iddynt ganolbwyntio ar ofynion statudol a newid arferion, er enghraifft, drwy beidio â chynnig gwasanaethau cyngor cyn ymgeisio neu godi tâl amdanynt.

3.5 Cyflwynwyd is-ddeddfwriaeth eisoes i alluogi dull rhagweithiol o ddatblygu, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau pellach. Gwnaed hynny er mwyn sicrhau gwasanaeth cynllunio galluogol a fydd yn:

- Rhoi dull cadarnhaol o weithredu ar waith mewn perthynas â datblygu, a fydd hefyd yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig;
- Mynd ati'n gynnar ac mewn modd cadarnhaol i ymgysylltu â chymunedau a datblygwyr ynghylch proses y cynllun datblygu a'r broses ceisiadau cynllunio;
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu a phenderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored a hawdd ymwneud â hi.

[7] Agweddau'r Cyhoedd tuag at y System Gynllunio yng Nghymru

3.6 Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r system gynllunio weithredu mewn ffordd mor agored a chynhwysol â phosibl, a rhaid iddi wella'n barhaus drwy rannu'r hyn a ddysgir a thrwy groesawu arferion gorau.

3.7 Rydym wedi gweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau gwelliannau wrth ddarparu'r gwasanaeth cynllunio a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus. Mae rhai awdurdodau wedi mynd ati'n barhaus i wella agweddau ar eu gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn rhoi profiad cadarnhaol i randdeiliaid a chwsmeriaid. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i hyrwyddo diwylliant o fynd ati i rannu a mabwysiadu arferion gorau.

3.8 Mae gan aelodau etholedig a swyddogion o fewn awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) gyfrifoldebau allweddol o ran sicrhau bod y system gynllunio yn chwarae rôl allweddol a hanfodol yn nhwf a datblygiad parhaus y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Dylai'r arweinyddiaeth a ddarperir ganddynt i'r gwasanaeth cynllunio a'r adnoddau a ddyrennir ganddynt adlewyrchu hynny.

**Ein dull gweithredu**

3.9 Nid yw'n bosibl deddfu ar gyfer newid diwylliant. Mae a wnelo newid diwylliant â sicrhau bod y system gynllunio gyfan yn cael ei defnyddio mewn ffordd ragweithiol. Mae a wnelo â newid o ddull negyddol amddiffynnol o weithredu i ddull cadarnhaol. Dylai'r cynllun datblygu fod yn fframwaith cadarnhaol ar gyfer datblygu cynaliadwy o ansawdd uchel, gan alluogi darpariaeth o ran tai, a buddsoddiad economaidd. Dylai hefyd ddiogelu holl elfennau gorau amgylcheddau lleol. Rhaid i ACLlau sicrhau bod eu swyddogaethau o ran cynlluniau datblygu ac o ran rheoli datblygu yn cael eu hintegreiddio'n llawn. Mae hynny'n golygu y bydd gofyn lleoli timau gyda'i gilydd a chwalu unrhyw rwystrau proffesiynol sydd wedi dod i'r amlwg. Bydd hynny'n helpu i ddarparu gwasanaeth cynllunio ymatebol a thryloyw sy'n annog ymgeiswyr i gyflwyno prosiectau datblygu newydd a gwell.

3.10 Nododd y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA), ynghyd ag astudiaethau eraill, bod hanfodion y system gynllunio yn parhau'n addas at y diben. Nodwyd bod sgiliau a phrofiad ymarferwyr yn allweddol o ran datgloi gwelliannau yn y gwasanaeth cynllunio. Bydd nodi a chadw arferion gorau yr un mor bwysig, wrth i ACLlau geisio dysgu oddi wrth yr enghreifftiau gorau ledled Cymru ac mewn mannau eraill. Cydnabu astudiaeth Arup ei bod yn anodd newid diwylliant a bod angen cryn dipyn o amser i roi newidiadau o'r fath ar waith[8]. Fodd bynnag, nododd safbwyntiau rhanddeiliaid fod newid diwylliant yr un mor bwysig ag unrhyw newid deddfwriaethol wrth roi system gynllunio effeithiol ar waith.

3.11 Os ydym am newid diwylliant mewn system sy'n seiliedig ar gynlluniau, mae'n hanfodol bod gan ACLlau Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig sy'n gyfredol, a hynny oherwydd bod y cynlluniau hynny'n:

- Darparu'r fframwaith cynllunio lleol ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- Rhoi sicrwydd i ddatblygwyr ac i gymunedau;

[8] Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru

- Sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl ar gyfer cartrefi, busnesau a chymunedau;
- Helpu i wneud penderfyniadau effeithiol ar geisiadau cynllunio.

3.12 O ran cynllunio datblygu, eir ati ym mhenodau 4, 5 a 6 i nodi cynigion ar gyfer darparu'r gwasanaeth cynllunio. Mae'r cynigion hynny'n cynnwys paratoi cynlluniau, a'u rhoi ar waith, ac yn ymdrin yn benodol â'r angen am Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i Gymru, yr angen i gyflwyno dulliau cynllunio strategol a darpariaethau i sicrhau mwy o gydweithredu. Bydd y rhain yn gofyn am ffyrdd newydd a gwell o gydweithio ymhlith ACLlau, datblygwyr, ymgyngoreion ac eraill sydd â buddiant yn y system gynllunio, a bydd angen hefyd fynd ati i ymgysylltu'n well â chymunedau lleol.

3.13 Ym mhennod 6, rydym wedi amlinellu mesurau i wella'r broses ceisiadau cynllunio, gan gynnwys annog pobl i ddefnyddio trafodaethau cyn ymgeisio. Dim ond os bydd ACLlau ac ymgeiswyr yn deall ac yn croesawu'r dull gweithredu hwn y byddwn yn gweld y manteision a ddaw yn sgil ceisiadau o ansawdd gwell – sef prosesu cyflymach a datblygiadau a fydd wedi'u dylunio'n dda. Ni fydd y newid deddfwriaethol arfaethedig yn gweithio ar ei ben ei hun. Felly rydym yn cydnabod yr angen am fframwaith cymwyseddau cynllunio newydd a rhaglen hyfforddi gysylltiedig er mwyn cyflawni'r newid gofynnol o ran diwylliant, gan wrthdroi sawl blwyddyn o arfer sydd wedi hen ennill ei blwyf, megis negodi er mwyn gwella cynigion datblygu ar ôl i gais gael ei gyflwyno.

3.14 Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn unig yw sicrhau newid o ran diwylliant. Er mwyn newid diwylliant, rhaid cynnwys pawb sydd â buddiant yn y system gynllunio. Gan yr ACLlau y mae'r rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio yn lleol, ond mae gan sefydliadau eraill hefyd ran i'w chwarae drwy ategu'r gwelliannau hynny. Mae angen i ddatblygwyr chwarae rhan weithredol yn y broses cynlluniau datblygu, cymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio ac ymgysylltu â'r gymuned a chyflwyno ceisiadau cynllunio o ansawdd uchel. Mae angen i ymgyngoreion gyflwyno sylwadau perthnasol ac ystyrlon sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hynny mewn da bryd, wrth i'r broses o lunio cynlluniau datblygu fynd rhagddi ac mae angen iddynt hefyd weithredu yn yr un modd yn achos ceisiadau datblygu unigol. Mae angen i sefydliadau addysgol a chyrff proffesiynol gydnabod a chefnogi'n llawn yr agenda diwygio cynllunio yng Nghymru drwy gyrsiau a chyfleoedd addysg a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio ar y system gynllunio yng Nghymru. Mae angen i unigolion sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol a mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at newid.

3.15 Rydym yn cydnabod, er hynny, bod angen rôl gydgysylltu er mwyn targedu'r defnydd a wneir o'r adnoddau prin sydd ar gael. Rydym yn ymateb isod i argymhelliad yr GCA i sefydlu gwasanaeth cynghori a gwella cynllunio. Bydd gennym ddiddordeb mawr mewn gweld a fydd y newidiadau a gynigir i'r system gynllunio yn effeithiol – a fydd y diwylliant yn newid mewn gwirionedd. Byddai hefyd o fudd i bob ACLl fonitro ei berfformiad ei hun a monitro'r canlyniadau datblygu sy'n deillio o'i weithgareddau cynllunio. Ar y cyd â'r ACLLau, byddwn yn parhau i ddatblygu fframwaith perfformiad a system adroddiadau blynyddol a

fydd yn dangos nodweddion ACLl da. Rydym wedi amlinellu ein cynigion cychwynnol ym mhennod 6 ac yn Atodiad A.

3.16 Mae a wnelo rhan o'r broses o newid diwylliant hefyd â rheoli disgwyliadau o ran yr hyn y gall y system gynllunio ei gyflawni: yn aml ystyrir mai'r system gynllunio yw'r ateb er mwyn cyflawni mewn llawer o feysydd gwasanaeth eraill – rhywbeth a elwir yn 'gynllunio a mwy'. Mae ein hagenda diwygio cynllunio yn anelu at leihau cymhlethdod y broses gynllunio, sy'n gofyn am lefel gynyddol o wybodaeth ategol, er mwyn i'r system gynllunio allu canolbwyntio ar yr hanfodion cynllunio sy'n rhan o'r broses. Dyna yw sail allweddol yr agenda sydd gennym mewn perthynas â deddfwriaeth gynllunio. Mae angen i ni atgoffa ein hunain fod a wnelo cynllunio â rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu.

3.17 Er y gall cynllunio alluogi datblygu, rhaid iddo sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y man cywir mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid dim ond mesurau meintiol sy'n berthnasol i'r gwasanaeth cynllunio; mae'n ymwneud ag ansawdd hefyd. Mae'n ymwneud â bod yn ymatebol, yn dryloyw ac yn deg i bob defnyddiwr ac i'n cymunedau. Mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo datblygiadau o ansawdd, a hynny drwy'r broses Adolygu Dylunio a gweithgareddau allgymorth.

## Y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio

### Yr achos dros newid

3.18 Er bod ACLlau yn symud tuag at ddull o weithredu sy'n seiliedig ar reoli datblygu, rydym yn cydnabod bod ceisiadau cynllunio yn fwyfwy cymhleth, ac yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion technegol. Mewn rhai achosion, nid oes gan ACLlau y sgiliau na'r wybodaeth fewnol i ymdrin â'r materion hyn; mae hyn yn cael effaith andwyol ar y broses o wneud penderfyniadau ac ar y gallu i wneud penderfyniadau rheoli datblygu deallus.

3.19 Noda adroddiad yr GCA fod angen cymorth ychwanegol ar ACLlau er mwyn symbylu newid mewn diwylliant, gan symud oddi wrth broses ceisiadau cynllunio sy'n seiliedig ar "arfer rheolaeth" ar ddatblygiadau ('rheolaeth ar ddatblygu') at broses sy'n "galluogi" datblygiadau ('rheoli datblygu'). Cydnabu'r GCA hefyd y gall fod angen cymorth uniongyrchol ar ACLlau i ymdrin â cheisiadau cynllunio technegol, arbennig o gymhleth, a bod angen dybryd am hyfforddiant ychwanegol er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth. Argymhellodd yr GCA y dylid sefydlu corff cynghori a gwella cynllunio cenedlaethol er mwyn ymdrin â'r materion hyn.

### Ein cynigion

3.20 Rydym yn cynnig y dylid sefydlu gwasanaeth cynghori a gwella cynllunio cenedlaethol (PAIS) o dan adain Llywodraeth Cymru. Rydym o'r farn bod gwasanaeth o'r fath, a fydd yn cael ei lywio gan grŵp cynghori allanol, yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i addasu mewn ymateb i newidiadau posibl yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol. Mae hefyd yn lleihau'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chreu sefydliad newydd.

3.21 Rydym o'r farn y byddai cylch gwaith cyffredinol PAIS yn cynnwys y canlynol:

- Nodi a lledaenu arfer da a safonau, helpu i rannu arbenigedd ac adnoddau rhwng ACLlau;
- Nodi, hyrwyddo a thargedu gofynion hyfforddi ar gyfer ymarferwyr cynllunio ac aelodau (gan weithio gyda rhanddeiliaid);
- Rhoi cyngor arbenigol wedi'i dargedu a darparu gwasanaeth mentora;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i fentrau cynllunio Llywodraeth Cymru, megis newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau rheoli datblygu, eu lledaenu ac addysgu pobl amdanynt.

3.22 Rydym o'r farn mai rôl gydgysylltu fyddai prif rôl PAIS, drwy hwyluso'r broses o rannu arbenigedd a gwybodaeth rhwng ACLlau a rhanddeiliaid eraill, gan wneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddai gan y gwasanaeth rôl gaffael hefyd er mwyn ymdrin, er enghraifft, â materion technegol penodol neu anghenion hyfforddi. Rhagwelir y bydd adolygiadau rheolaidd o sgiliau yn cael eu cynnal, ynghyd â phroses o nodi diffygion o ran sgiliau. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan y grŵp cynghori allanol a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd y broses o sefydlu'r gwasanaeth, gan gynnwys y grŵp llywio ar ei gyfer, yn destun ymgynghoriad arall ar wahân.

3.23 Ochr yn ochr â sefydlu'r gwasanaeth newydd hwn, byddwn yn adolygu ein trefniadau cymorth presennol ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru gyda'r nod o leihau achosion o ddyblygu, a chynyddu effeithlonrwydd.

**C1. A ydych yn cytuno y bydd cylch gwaith arfaethedig y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn helpu ACLlau a rhanddeiliaid i wella perfformiad?**

**C2. A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru?**

### Fframwaith cymwyseddau cynllunio

### Yr achos dros newid

3.24 Rydym eisoes wedi nodi y bydd llwyddiant ein diwygiadau cynllunio yn dibynnu mwy ar sgiliau a phrofiad pawb sy'n rhan o'r system gynllunio nag ar unrhyw beth arall. Mae dau grŵp yn bwysig iawn, sef yr ymarferwyr cynllunio sy'n rhoi cyngor ar y broses, a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, sef cynrychiolwyr etholedig fel arfer.

3.25 Ar hyn o bryd, mae cryn amrywiaeth o ran sgiliau, gwybodaeth a mathau o ymddygiad, a gallai hynny lesteirio ein diwygiadau cynllunio. Rydym am oresgyn y llesgedd hwn a rhoi newid ar waith er mwyn sicrhau bod y system gynllunio yn gallu ailddarganfod ei photensial fel adnodd a fydd yn sicrhau newid cadarnhaol.

### Ein cynigion

3.26 Rydym o'r farn y byddai'n fuddiol iawn datblygu fframwaith cymwyseddau cynllunio i Gymru i gyd-fynd â'n diwygiadau. Byddai dwy ran ategol i'r fframwaith cymwyseddau, a fyddai'n ymdrin ag ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig. Byddai'r fframwaith cymwyseddau yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod cynllunio yn dod yn weithgaredd galluogol cadarnhaol. Bydd gan grŵp llywio PAIS, ynghyd â chynrychiolwyr cyrff proffesiynol, llywodraeth leol a sefydliadau addysgol, ran arweiniol i'w chwarae wrth ddatblygu'r fframwaith.

**C3. A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio?**

# Pennod 4 - Stiwardiaeth Weithredol

### Cefndir

4.1 Dyfeisiwyd y system gynllunio yn wreiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr, ac mae'r system yng Nghymru wedi ein gwasanaethu'n dda gan wahaniaethu fwyfwy oddi wrth y system yn Lloegr ers datganoli. Rydym wedi ceisio manteisio ar y difidend datganoli drwy sicrhau bod ein dull cyffredinol o weithredu ym maes cynllunio yn briodol i'n hanghenion. Gwlad fach yw Cymru ag ychydig dros dair miliwn o bobl[9], gyda 25 o awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) yn gyfrifol ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaethau cynllunio yn lleol.  Mae hyn yn golygu bod yr amryfal haenau o lywodraeth yn llawer agosach at ei gilydd ac at gymunedau lleol nag mewn mannau eraill yn y DU.

4.2 Yn draddodiadol, un oddefol oedd rôl y llywodraeth i raddau helaeth, gan bennu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu'r system gynllunio drwy greu deddfwriaeth a thrwy ddarparu polisïau cenedlaethol, canllawiau a chymorth arall.  Rydym wedi gweithio'n gyson â'n partneriaid i ddiweddaru'r system gynllunio yng Nghymru a'i gwella. Yn 2002, ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i lunio ffynhonnell gyfunol o bolisïau cynllunio cenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru, a gafodd ei diweddaru'n rheolaidd gennym ers hynny.  Mae gan Gymru hefyd system cynlluniau datblygu ddatganoledig. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y llywodraeth yn ymyrryd mewn trefniadau lleol i ddarparu gwasanaethau cynllunio, yn bennaf drwy ddyfarnu ar apelau yn erbyn penderfyniad lleol i wrthod caniatâd cynllunio, drwy alw ceisiadau cynllunio i mewn er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt pan fydd y goblygiadau o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol, neu pan fydd anawsterau wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

4.3 Ers datganoli, bu disgwyliad cynyddol ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd i’r dull gweithredu goddefol hwn newid ac y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio yn uniongyrchol drwy fabwysiadu rôl **stiwardiaeth weithredol** – gan fanteisio ymhellach ar y difidend datganoli. Llywiwyd hyn gan awydd i weld polisïau cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith yn lleol a chan rwystredigaeth am achosion o oedi wrth baratoi CDLlau ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio pwysig. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal ymchwiliadau sydd wedi nodi diffygion yn y trefniadau lleol ar gyfer gweithredu polisïau cynllunio lleol.  Bu hyn yn arbennig o amlwg o ran tai fforddiadwy[10] ac ynni[11].

4.4 Mae'r sail dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer Bil drafft Cynllunio (Cymru) ac a grynhoir ym mhennod 2 wedi dangos bod gan randdeiliaid awydd clir i weld

---

[9] Ffynhonnell: Data Cyfrifiad 2011. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd o gefn gwlad. (Chwefror 2004).

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Adroddiad Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru. (Mehefin 2012).

Lywodraeth Cymru yn ymgymryd â rôl stiwardiaeth weithredol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio, a hynny er mwyn lleihau achosion o ddyblygu, sicrhau mwy o gysondeb a gwella perfformiad. Noda'r dystiolaeth mai dyma'r adeg briodol i ddatblygu'r fframwaith presennol, gan groesawu'r argymhellion sy'n deillio o'r astudiaethau er mwyn darparu system gynllunio fwy effeithiol ac effeithlon o fewn y terfynau a bennwyd gan y setliad datganoli presennol. Nododd y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) fwy o rôl i gymhellion a sancsiynau wrth gyflawni hyn. Roedd hefyd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â rhai o'r swyddogaethau cynllunio a gyflawnir ar hyn o bryd gan yr ACLlau. Roedd y swyddogaethau hynny'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio mawr, technegol gymhleth, sydd â buddiannau ac effeithiau mwy arwyddocaol na rhai lleol yn unig.

### Ein dull gweithredu

4.5 Rydym o'r farn ei bod yn bryd rhoi dull gweithredu newydd ar waith, gan newid y broses o ddarparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru yn sylweddol. Mae'r dull y byddwn yn ei fabwysiadu yn seiliedig ar yr egwyddor fod yn rhaid i wasanaethau cynllunio gael eu darparu gan y lefel o lywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i asesu buddiannau ac effeithiau'r datblygiad. Gan amlaf, bydd ACLlau, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, yn parhau i gyflawni'r rôl hon. Fodd bynnag, bydd gan Lywodraeth Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned ran fwy i'w chwarae o dan amgylchiadau a gaiff eu diffinio'n glir.

4.6 Bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu rôl stiwardiaeth weithredol drwy ddulliau gweithredu newydd a fydd yn cynnwys:

- Paratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), a fydd yn nodi cynigion cenedlaethol eu harwyddocâd gan gynnwys seilwaith. Bydd gan yr FfDC statws cynllun datblygu;
- Adolygu ac ailddatgan polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu sail glir a chyson ar gyfer penderfyniadau cynllunio;
- Sefydlu hierarchaeth ddatblygu er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur ar y lefel fwyaf priodol o lywodraeth, ar sail effeithiau a buddiannau tebygol y datblygiad;
- Gwelliannau i weithdrefnau apelau cynllunio er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau penderfyniadau mwy amserol.

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

### Yr achos dros newid

4.7 Cyhoeddwyd ein cynllun defnydd tir cenedlaethol cyntaf, Cynllun Gofodol Cymru, yn 2004 a'i ddiweddaru'n sylweddol yn 2008. Er bod diben statudol Cynllun Gofodol Cymru yn glir, sef nodi polisïau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru, yn ymarferol gwanhawyd y diben hwn a phrin fu'r effaith ar CDLlau.

4.8 Ystyriodd yr GCA effeithiolrwydd Cynllun Gofodol Cymru. Un o'r canfyddiadau allweddol oedd nad oedd yn rhoi digon o arweiniad, ar raddfa ddigonol, i ddylanwadu'n uniongyrchol ar CDLlau. Ac eithrio nodi rhai lleoliadau cyffredinol ar gyfer datblygu, nid oedd y raddfa, y cyd-destun na'r goblygiadau defnydd tir yn cael eu nodi'n glir, gan olygu ei bod yn anodd cysoni blaenoriaethau cenedlaethol a strategol. Digon tebyg oedd casgliadau Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol i Bolisi Cynllunio[12].

4.9 Mae cefnogaeth gyffredinol o hyd i gynllun defnydd tir cenedlaethol. Rydym yn cytuno bod angen cynllun defnydd tir cenedlaethol cryno a phenodol ac rydym yn bwriadu adeiladu ar brofiad Cynllun Gofodol Cymru a chreu FfDC newydd.

**Ein cynigion**

4.10 Byddwn yn cyflwyno gofyniad statudol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a'i' ddiweddaru'n rheolaidd. Disgwyliwn i'n FfDC gyflawni'r prif rolau a ganlyn:

- Nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran defnydd tir drwy nodi lleoliadau allweddol ar gyfer cyflawni newid a buddsoddi mewn seilwaith;
- Darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a CDLlau (trafodir y cynigion ar gyfer CDSau ym mharagraffau: 5.21-5.41);
- Cydgysylltu a manteisio i'r eithaf ar y buddiannau posibl a fydd yn deillio o ffrydiau ariannu, gan gynnwys Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith, cymorth gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a buddsoddiad gan y sector preifat;
- Darparu cyd-destun, ar ffurf cynllun datblygu, a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd (trafodir y cynigion ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn adrannau diweddarach y bennod hon).

4.11 Bydd yr FfDC yn canolbwyntio ar y materion defnydd tir cenedlaethol eu harwyddocâd y gall y system gynllunio ddylanwadu arnynt a'u cyflawni. Bydd yn adnodd cadarn ar gyfer rhoi polisïau a rhaglenni cenedlaethol ar waith drwy ddarparu cyfeiriad cadarnhaol i drefniadau datblygu a buddsoddi yng Nghymru, gan gyfleu'n glir yr hyn a ddisgwylir gan rannau eraill o'r system cynlluniau datblygu. Bydd yr FfDC yn nodi sut y dylem fynd ati i groesawu newidiadau er budd y genedl dros gyfnod o 20 mlynedd o leiaf.

4.12 Mae adnewyddu seilwaith a chynyddu ei gapasiti yn hanfodol i'n lles a'n ffyniant yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da drwy Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sy'n nodi ein blaenoriaethau byrdymor a thymor canolig ar gyfer seilwaith. Bydd yr FfDC yn ategu Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, gan ganolbwyntio ar oblygiadau defnydd tir y blaenoriaethau buddsoddi sydd eu hangen i ategu ein datblygiad hirdymor. Byddwn yn nodi'r prosiectau

[12] Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol i Bolisi Cynllunio.

trawsnewidiol hynny y bydd eu hangen yn ystod yr 20 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni ein nodau cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r UE i sicrhau bod yr FfDC yn cyflawni ei botensial o ran sicrhau buddsoddiad.

4.13 Nid ydym am i'r FfDC fod yn gynllun sector cyhoeddus yn unig; bydd yn nodi ardaloedd twf a newid cenedlaethol eu harwyddocâd a fydd yn rhoi'r sicrwydd y mae ei angen ar y sector preifat er mwyn iddo fedru gwneud penderfyniadau buddsoddi pwysig. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o baratoi ac adolygu'r FfDC yn rhoi cyfleoedd i fusnesau gyflwyno prosiectau cenedlaethol eu harwyddocâd y byddent yn hoffi eu rhoi ar waith a'u hariannu yng Nghymru yn ystod cyfnod 20 mlynedd y cynllun. Bydd yr FfDC yn rhoi mwy o bwyslais ar weithredu na Chynllun Gofodol Cymru.

4.14 Rydym yn cynnig cydberthynas uniongyrchol rhwng yr FfDC a haenau eraill o'r cynllun datblygu yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi 'statws cynllun datblygu' i'r FfDC. Bydd y gwersi a ddysgwyd o Gynllun Gofodol Cymru o fudd i'r FfDC oherwydd bydd yn canolbwyntio ar faterion cenedlaethol eu harwyddocâd. Bydd yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer cynllunio datblygiadau ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer paratoi'r CDSau a'r CDLlau arfaethedig. Bydd hefyd yn nodi canlyniadau allweddol i'w cyflawni a'r goblygiadau gofodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau polisi cenedlaethol. Bydd yr FfDC yn datblygu ac yn integreiddio polisïau ar gyfer ardaloedd neu leoliadau penodol sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol, er enghraifft, Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer ffermydd gwynt mawr.

4.15 Byddwn yn ceisio sicrhau cysondeb â'r FfDC drwy'r broses o archwilio'r CDSau a'r CDLlau, a dim ond lle y bydd angen gwneud hynny y byddwn yn defnyddio ein pwerau ymyrryd. Bydd yn rhaid i bob cynllun gydymffurfio â'r FfDC. Y cynllun datblygu, a fydd yn cynnwys yr FfDC, yr CDLl a lle y bo'n briodol yr CDS, fydd y man cychwyn wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd hefyd yn adnodd ar gyfer cyflawni amcanion o ran cynllunio adnoddau naturiol os bydd unrhyw oblygiadau o ran cynllunio defnydd tir.

4.16 Er bod newidiadau ar waith ledled Cymru gyfan, dim ond yr agweddau cenedlaethol eu harwyddocâd y dylid ymdrin â hwy drwy'r FfDC, gan gynnwys y materion hynny y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae hyn yn golygu na fydd gan yr FfDC rywbeth i'w ddweud am bobman yng Nghymru, dim ond yr ardaloedd hynny lle mae angen ymdrin â materion cenedlaethol eu harwyddocâd. Nid yw hyn yn golygu y bydd rhai mannau 'ar eu colled', ond yn hytrach y dylid ymdrin â'u materion mwy lleol hwy drwy broses yr CDSau neu'r CDLlau.

4.17 Ni fydd yr FfDC yn pennu targed tai cenedlaethol na thargedau tai ar gyfer ardal pob CDS. Rydym yn rhagweld y bydd y panel cynllunio strategol a fydd yn gyfrifol am baratoi'r CDS yn pennu lefel o ddarpariaeth o ran tai ar gyfer pob CDLl y bydd yn rhaid i'r cynlluniau hynny wedyn gydymffurfio â hi. Lle na cheir CDS, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau, felly bydd CDLl yn defnyddio ein hamcanestyniadau diweddaraf i lywio ei ddarpariaeth o ran tai. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod gan wleidyddion a gaiff eu hethol yn lleol ddylanwad ar y broses.

4.18 Caiff yr FfDC ei baratoi gan Lywodraeth Cymru yn unol ag amserlen benodedig. Bydd y fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd cyfiawnhad clir dros unrhyw bolisïau neu gynigion, a fydd yn cael eu hategu gan Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Byddwn yn mabwysiadu dull integredig o asesu tystiolaeth amgylcheddol, a hynny ar sail ein Polisi Cenedlaethol Adnoddau Naturiol. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ystod cyfnod ymgynghori statudol o 12 wythnos. Gan fod yr FfDC yn cyfleu polisi Llywodraeth Cymru, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol craffu ar y cynllun drwy broses archwilio draddodiadol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen craffu er mwyn sicrhau tryloywder a hygrededd y fframwaith. Yn lle hynny, rydym yn cynnig y dylid craffu ar yr FfDC drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn adolygu'r FfDC yn rheolaidd. Bydd unrhyw FfDC diwygiedig hefyd yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4.19 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig rôl newydd i Weinidogion Cymru. Nhw fydd yn gyfrifol bellach am benderfynu ar y ceisiadau cynllunio datganoledig mwyaf o ran maint a’r rhai mwyaf technegol gymhleth a fydd â buddiannau ac effeithiau cenedlaethol eu harwyddocâd. Yr FfDC fydd y man cychwyn ar gyfer y penderfyniadau cynllunio hyn. Bydd Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol hefyd yn ystyriaethau arwyddocaol iawn. Ceir manylion pellach am ein dull arfaethedig o weithredu yn hyn o beth ym mharagraffau 4.56 - 4.76.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

4.20 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru eu cynnwys yn Adran 2 o’r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 2 yn disodli adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (a oedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru) ac yn cyflwyno sail statudol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi polisïau cenedlaethol ar ddatblygu ac ar defnyddio tir yng Nghymru, gan adlewyrchu blaenoriaethau’r Llywodraeth. Bydd hefyd yn dynodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan wneud hynny ar sail tystiolaeth gadarn a fydd yn cyfiawnhau pam y bydd y datblygiadau hynny wedi eu cynnwys a’u dynodi. Bydd gofyn cynnal arfarniad cynaliadwyedd o’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a’i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion craffu. Mae adran 60B yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rheolaidd ac yn eu galluogi i’w ddiwygio. Os na chaiff ffurf ddiwygiedig o’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei chyhoeddi neu ei gosod gerbron y Cynulliad ar ffurf ddrafft o fewn cyfnod penodedig, bydd rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi a ydynt o’r farn y dylid diwygio’r Fframwaith, gan roi rhesymau; dylent wneud hynny bob pum mlynedd ar ôl i’r Fframwaith neu Fframwaith diwygiedig gael eu cyhoeddi.

Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r ddyletswydd i adolygu Cynllun Datblygu Lleol eu cynnwys yn Adrannau 6 a 7 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae adran 6 yn diwygio adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ac ag unrhyw Gynllun Datblygu Strategol lle bo ardal gynllunio strategol yn cynnwys ardal gyfan yr awdurdod cynllunio lleol, neu ran o'r ardal honno.

- Mae adran 7 yn mewnosod adran 68A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys darpariaethau i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol, unwaith y cyhoeddir neu y diwygir Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru; neu unwaith y cyhoeddir neu y diwygir Cynllun Datblygu Strategol, ystyried a ddylid cynnal adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol ai peidio.

- Mae adran 7 hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys darpariaethau i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol, unwaith y cyhoeddir neu y diwygir Fframwaith Datbygu Cenedlaethol Cymru, neu unwaith y cyhoeddir neu y diwygir Cynllun Datblygu Strategol, ystyried a ddylid cynnal adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol ai peidio, gan wneud hynny hefyd ar unrhyw adeg arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru.

Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r diffiniad o gynllun datblygu yng Nghymru eu cynnwys yn Adran 8 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae adran 8 yn diwygio adran 38(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel mai Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol fydd y cynllun datblygu ar gyfer ardal o Gymru. O dan adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, rhaid i awdurdod cynllunio lleol, wrth iddo ymdrin â cheisiadau cynllunio, roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu, i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r cais ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn darparu, lle y bo'n rhaid rhoi sylw i gynllun datblygu, bod yn rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall. Os oes gwrthdaro rhwng cynlluniau datblygu, mae adran 38(5) yn darparu mai'r ddogfen ddiweddaraf y dylid ei defnyddio.

**C4. A ydych yn cytuno y bydd yr FfDC yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni?**

## Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol

### Yr achos dros newid

4.21 Mae Cymru ar flaen y gad o ran polisi a chanllawiau cynllunio. Dim ond lle bo angen y cafodd Polisi Cynllunio Cymru ei ategu gan fanylion ychwanegol ar ffurf nifer o Nodiadau Cyngor Technegol. Mae ein dull o baratoi polisi a chanllawiau yn seiliedig ar dystiolaeth, mae'n gynhwysol am fod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses, ac mae'n ymarferol – wedi'i gynllunio i ddiwallu'r anghenion ac i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Rydym yn sicrhau bod ein polisi a'n canllawiau yn gyfredol ac yn berthnasol drwy eu hadolygu'n rheolaidd.

4.22 Bu'r broses a ddefnyddir gennym i baratoi ein polisi a'n canllawiau cynllunio yn destun adolygiad annibynnol.[13] Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod pobl yn gyffredinol o blaid Polisi Cynllunio Cymru a'r fframwaith Nodiadau Cyngor Technegol ac y dylid eu cadw. Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y dylid ailystyried y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a ddefnyddir yng Nghymru yn llwyr.

4.23 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal sawl ymchwiliad i rôl polisi cynllunio cenedlaethol wrth roi polisïau allweddol y Llywodraeth ar waith. Er bod yr adroddiadau, yn gyffredinol, o blaid dull gweithredu sy'n seiliedig ar bolisi cenedlaethol, un o'r themâu cyson ynddynt oedd pryder ynghylch sut y caiff y polisi ei droi'n gamau gweithredu lleol, drwy ei gynnwys o fewn CDLlau a thrwy ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau lleol ar geisiadau cynllunio.

### Ein cynigion

4.24 Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros wneud newidiadau radical i'n dull cyffredinol o baratoi polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, ond rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy, yn enwedig o ran gweithredu'n lleol. Mae ein cynigion yn adeiladu ar gryfderau presennol dogfen polisi cynllunio gyfunol a nifer gyfyngedig o Nodiadau Cyngor Technegol.

4.25 Rydym yn bwriadu:

- Parhau i adolygu Polisi Cynllunio Cymru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas at y diben ac yn ategu ein diwygiadau cynllunio, gan gynnwys darparu'r fframwaith polisi i ategu penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd;
- Lleihau'r ddibyniaeth ar bolisi cynllunio cenedlaethol lle mae adnoddau mwy priodol ar gael;
- Ailasesu nifer a chwmpas ein Nodiadau Cyngor Technegol, gan gynnwys cyfuno Nodiadau Cyngor Technegol a dileu'r rheini nad oes eu hangen mwyach;
- Ystyried, ar y cyd â llywodraeth leol y cyfleoedd i baratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu y gellir eu rhoi ar waith mewn modd cyson ledled Cymru.

[13] Gwerthusiad o'r Prosesau a ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio Cenedlaethol yng Nghymru

### *Adolygu Polisi Cynllunio Cymru*

4.26 Ers i ni gyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru gyntaf yn 2002, fe'i diweddarwyd bump gwaith. Er mwyn helpu i sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol, caiff bellach ei gynhyrchu fel dogfen ar-lein. Prif ddiben Polisi Cynllunio Cymru yw helpu ACLlau drwy lywio cynnwys eu cynlluniau datblygu a nodi polisïau cenedlaethol y mae angen eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

4.27 Mae gan ein diwygiadau cynllunio arfaethedig oblygiadau i'n polisïau a'n canllawiau cynllunio. Drwy gyflwyno'r FfDC, gallwn gynnwys ein polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer lleoliadau penodol mewn un ddogfen. Bydd hynny'n golygu y bydd modd diwygio Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol sy'n cynnwys polisïau ar gyfer lleoliadau penodol, megis TAN 8 Ynni Adnewyddadwy. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr FfDC, Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol, gyda'i gilydd, yn darparu fframwaith cadarn y gall Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio wrth iddynt benderfynu ar Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd.

4.28 Byddwn yn lleihau nifer y polisïau cynllunio drwy gyfuno 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' â Pholisi Cynllunio Cymru i greu un ddogfen a fydd yn cynnwys ein holl bolisïau cynllunio ar gyfer defnydd tir a chynllunio mwynau. Cyflwynwyd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru cyn Polisi Cynllunio Cymru ac ni chafodd ei ddiweddaru mor aml. Ar hyn o bryd, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith bod y system CDLlau wedi'i chyflwyno. Drwy gyfuno'r ddwy ddogfen, caiff ein polisi cynllunio ei integreiddio, bydd yn hawdd ei ddefnyddio ac ni fydd unrhyw feysydd yn cael eu dyblygu.

4.29 Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio polisi a chanllawiau cynllunio i gyflawni nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru lle nad oedd adnoddau mwy priodol ar gael i ni eu defnyddio. Dau o'r meysydd hynny yw effeithlonrwydd ynni a mynediad i'r anabl i adeiladau newydd. Mae cyfrifoldeb dros Reoliadau Adeiladu bellach wedi'i ddatganoli, felly mae gennym gyfle i roi ein hagenda symleiddio ar waith drwy ailystyried ein dull gweithredu. Yn dilyn ein hadolygiad o Ran L (Arbed tanwydd ac ynni) o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010, rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bwriad i adolygu ein polisi cynllunio ar adeiladu cynaliadwy. Rydym hefyd wedi cwblhau gwaith ymchwil i werthuso sut y cafodd proses y Datganiad Dylunio a Mynediad ei rhoi ar waith yn lleol. Eglurir ein dull gweithredu arfaethedig ym mharagraffau 6.85 - 6.87.

**C5. A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un ddogfen?**

### *Lleihau nifer y Nodiadau Cyngor Technegol*

4.30 Ar hyn o bryd, mae gennym 22 o Nodiadau Cyngor Technegol a dau Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau sy'n ategu trefniadau lleol ar gyfer rhoi ein polisi cynllunio ar waith. Mae ein Nodiadau Cyngor Technegol craidd oll yn gyfredol, a dim ond lle yr oedd gwir angen y cyflwynwyd nodiadau newydd.

4.31 Wrth gyflwyno'r FfDC, byddwn yn symud ein canllawiau ar gyfer lleoliadau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Nodiadau Cyngor Technegol ar hyn o bryd. Lle y bo'n briodol, byddwn yn diwygio ac yn cyfuno Nodiadau Cyngor Technegol sy’n bodoli eisoes er mwyn rhoi'r darlun cyflawn o ran arweiniad mewn meysydd penodol. Credwn yn y dyfodol y dylid cyflwyno Nodyn Cyngor Technegol unigol ar gyfer tai a mabwysiadu dull tebyg ar gyfer llifogydd a materion arfordirol. Yn dilyn datganoli, gwnaethom etifeddu nifer o Nodiadau Cyngor Technegol nad ydynt wedi cael eu diwygio ac nad oes eu hangen, o bosibl. Rydym yn bwriadu cynnal asesiad manwl ohonynt er mwyn gweld a ddylid eu cadw ai peidio.

***Paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol.***

4.32 Yn 2006, i ategu'r broses o gyflwyno'r system CDLlau y flwyddyn flaenorol, gwnaethom baratoi canllaw ategol i Bolisi Cynllunio Cymru. Diben y canllaw ategol oedd nodi polisïau cynllunio cenedlaethol nad oes angen eu hailadrodd mewn CDLlau unigol. Gwnaethom hynny er mwyn helpu i gwtogi CDLlau, ei gwneud yn llai cymhleth a hefyd er mwyn cyflymu’r broses o'u paratoi. Wrth i ni fonitro CDLlau mabwysiedig ac arfaethedig, gwelwyd nad yw pob un ohonynt wedi dilyn y dull gweithredu a ffefrir gennym.

4.33 Rydym yn awyddus i sicrhau bod CDLlau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n gyflym yn y dyfodol. Byddai paratoi a chytuno ar gyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer y canllawiau dylunio preswyl a’r canllawiau ar gyfer deiliaid tai a baratowyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW), er mwyn paratoi cyfres o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol y gallai pob ACLl ei defnyddio. Rydym o'r farn y byddai'r dull gweithredu hwn yn arwain at fuddiannau gwirioneddol, gan gynnwys:

- Lleihau hyd, cymhlethdod a chost CDLlau;
- Mwy o gysondeb ac eglurder o ran polisi a fydd o fudd i ymgeiswyr a chymunedau.

4.34 Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol, pan fydd tystiolaeth leol yn cyfiawnhau hynny, y dylai ACLlau wyro oddi wrth y gyfres graidd o bolisïau cenedlaethol ar reoli datblygu. Bydd hyn yn caniatáu i CDLlau ganolbwyntio ar faterion lleol megis nodi safleoedd i'w datblygu ac ardaloedd i'w diogelu a'u gwella.

**C6. A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol?**

## Hierarchaeth rheoli datblygu newydd

### Yr achos dros newid

4.35 Rydym yn disgwyl i'r system gynllunio gyflawni nifer o amcanion, gan gynnwys hybu ffyniant economaidd, hyrwyddo datblygu cynaliadwy, mynd i’r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â’r newid yn yr hinsawdd ac angen sylfaenol pobl i gael cartref o ansawdd da ac amgylchedd o ansawdd. Rydym o'r farn bod y system gynllunio wedi ei chael yn anodd ymateb i'r heriau hyn mewn ffordd ddeallus. Yn rhy aml, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy’n cynnig yr un ateb i bob problem, heb ystyried manteision ac effeithiau tebygol unrhyw ddatblygiad.

4.36 Ein hymateb i'r her hon yw cyflwyno hierarchaeth gynllunio glir sy'n golygu y gellir ymdrin â gwahanol fathau o geisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur, gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol. Mae crynodeb o'n dull gweithredu cyffredinol i’w weld yn y diagram isod.

4.37 Rydym o'r farn y bydd gan y dull gweithredu newydd hwn fanteision sylweddol:

- I ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, bydd yn golygu y byddant yn glir o'r cychwyn cyntaf am lefel yr wybodaeth y mae angen ei chyflwyno gyda'r cais cynllunio a sut a phryd y gwneir penderfyniad, gan ei gwneud hi'n haws iddynt ymdrin â'r system gynllunio;
- I ACLlau ac ymgyngoreion statudol, bydd yn golygu y gellir blaenoriaethu adnoddau a’u cyfeirio at y ceisiadau â'r manteision a'r effeithiau mwyaf posibl;
- I gymunedau, mae'n golygu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan, gan sicrhau bod datblygiadau yn adlewyrchu anghenion cenedlaethau’r presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

### Ein cynigion

4.38 Mae ein cynigion yn golygu y bydd y ffordd y caiff ceisiadau cynllunio eu prosesu, a’r ffordd y creffir ar geisiadau cynllunio, yn y dyfodol yn dibynnu ar p'un ai a fydd y manteision a’r effeithiau posibl a fydd yn gysylltiedig â hwy yn rhai cenedlaethol, sylweddol neu leol eu harwyddocâd. Disgrifir ein categorïau arfaethedig o geisiadau yn Atodiad B. Nid ydynt yn cynnwys ceisiadau o dan y drefn gorchmynion caniatâd datblygu ar gyfer prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd, sy’n cael caniatâd gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd.

4.39 Bob blwyddyn, penderfynir ar oddeutu 23,000 o geisiadau cynllunio yng Nghymru a chaiff tua 40% ohonynt eu cyflwyno'n electronig drwy'r Porth Cynllunio. Byddai'r rhan fwyaf o'r ceisiadau yn cael eu dosbarthu’n geisiadau "lleol" o dan ein cynigion newydd. Byddai tua 500 o geisiadau yn cael eu dosbarthu naill ai’n "ddatblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd", neu’n ddatblygiadau "sylweddol".


**C7. A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur, gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol?**

**Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd**

- **Ceisiadau –** penderfyniad gan Weinidogion Cymru;
- **Fframwaith penderfynu –** y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Pholisi Cynllunio Cymru;
- **Proses ymgeisio –** ymgynghori'n orfodol cyn ymgeisio (gan gynnwys ymgynghori â'r gymuned);
- **Targed ar gyfer gwneud penderfyniad –** yn dibynnu ar y weithdrefn a ddilynir – rhagdybir bod sylwadau ysgrifenedig;
- **Herio –** Adolygiad barnwrol yn unig.

**Datblygiad Sylweddol**

- **Ceisiadau –** penderfyniad gan awdurdodau cynllunio lleol;
- **Fframwaith penderfynu –** yr FfDC, Cynllun Datblygu Strategol (lle y bo'n berthnasol) a'r Cynllun Datblygu Lleol;
- **Proses ymgeisio –** opsiwn i fanteisio ar y gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio ac ymgynghori'n orfodol cyn ymgeisio (gan gynnwys ymgynghori â'r gymuned);
- **Targed ar gyfer gwneud penderfyniad –** ymhen 8 wythnos o gael cais dilys (16 wythnos lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol);
- **Llwybr apelio –** penderfyniad gan PINS.




**Datblygiad Lleol**

- **Ceisiadau –** penderfyniad gan awdurdodau cynllunio lleol;
- **Fframwaith penderfynu –** yr CDLl yn bennaf
- **Proses ymgeisio –** newidiadau er mwyn gwella effeithlonrwydd;
- **Targed ar gyfer penderfyniadau –** ymhen 8 wythnos o gael cais dilys (16 wythnos lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol);
- **Llwybr apelio –** penderfyniad gan PINS. Fel arfer, sylwadau ysgrifenedig neu'r gwasanaeth apelau gan ddeiliaid tai/y gwasanaeth apelau masnachol.

**Datblygiad a Ganiateir**

- Nid oes angen cais cynllunio;
- Gweinidogion Cymru sy'n pennu categorïau datblygu a ganiateir (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir).

### *Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd*

4.40 Mae'r rhain yn ddatblygiadau na cheir llawer ohonynt o ran eu nifer ond sy'n bwysig iawn i Gymru oherwydd eu manteision a'u heffeithiau posibl. Gall materion technegol cymhleth fod yn gysylltiedig â hwy, na fydd gan ACLlau, o reidrwydd, y sgiliau angenrheidiol i'w hasesu. Yn y pen draw, mae llawer o'r ceisiadau hyn eisoes yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt, naill ai drwy gael eu galw i mewn, neu, fel rhan o apêl ar ôl i'r ACLl eu gwrthod – mae'n gwbl mlwg bod y dull hwn yn un aneffeithlon. Credwn ei bod yn briodol i'r ceisiadau hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru yn y dyfodol, ac mai Gweinidogion Cymru ddylai benderfynu arnynt.

4.41 Gall y datblygiadau hyn gynnwys prosiectau a nodwyd gan ddatganiadau polisi cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, megis Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, y Cynllun Trafnidiaeth, yr FfDC neu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Caiff unrhyw brosiectau cenedlaethol eu harwyddocâd nas rhagwelwyd eu nodi drwy gyfrwng y trothwyon a'r meini prawf a nodir yn Atodiad B.  Mae'r prosiectau sy'n debygol o gael eu cynnwys o fewn y diffiniad o gais Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd yn cynnwys cyfleusterau mawr i storio a thrin dŵr, gweithfeydd rheoli gwastraff, prosiectau ynni ar raddfa strategol (fel y'u diffinnir gan Bolisi Cynllunio Cymru ffig 12.3) a chanolfannau storio Nwy Naturiol Hylifedig.

4.42 Disgrifir y broses arfaethedig ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn ym mharagraffau 4.54 - 4.75.

**C8.  A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd fel y'u nodir yn Atodiad B?**

### *Datblygiadau Sylweddol*

4.43 Datblygiadau mawr yw'r rhain lle mae'r manteision a'r effeithiau posibl yn sylweddol, er nad ydynt o bwysigrwydd cenedlaethol. Yr ACLlau fydd yn ymdrin â hwy o hyd ac maent yn cynnwys llawer o'r datblygiadau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau ein ffyniant economaidd. Rhaid i ACLlau ac ymgyngoreion statudol roi blaenoriaeth iddynt.

4.44 Ar hyn o bryd, mae'r diffiniadau o ddatblygiad 'sylweddol' a geir mewn is-ddeddfwriaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cloddio am fwynau;
- Datblygiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff;
- Anhedd-dai o 10 uned neu fwy neu arwynebedd safle o 0.5 ha neu fwy;
- Adeiladau ag arwynebedd llawr arfaethedig o 1,000 o fetrau sgwâr neu fwy; neu
- Ddatblygiad ar safle o 1 hectar neu fwy.

4.45 Caiff ceisiadau eu hystyried yn unol â'r CDLl ac mewn rhai achosion, yr CDS. Rydym yn disgwyl i benderfyniadau gael eu gwneud ar 80% o geisiadau am ddatblygiadau sylweddol o fewn 8 wythnos (16 wythnos lle mae angen Asesiad

o'r Effaith Amgylcheddol). Ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth, byddwn yn annog y defnydd o gytundebau perfformiad cynllunio er mwyn pennu amserlenni ar gyfer prosesu'r cais. Bydd hynny’n helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau mewn modd amserol ac effeithlon, gan leihau ansicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau.

4.46 Os bydd yr ACLlau yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, bydd ymgeiswyr yn gallu apelio i Weinidogion Cymru yn yr un modd ag ar hyn o bryd. Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) fydd yn gweinyddu'r system apelio ar ran Gweinidogion Cymru ac yn penderfynu ar y rhan fwyaf ohonynt. Rydym yn awyddus i sicrhau bod yn system apelio yn un fwy hyblyg ac effeithlon ac yn bwriadu caniatáu i'r arolygydd benderfynu ar y broses fwyaf priodol ar gyfer cynnal yr apêl. Gallai hynny fod drwy ymchwiliad, gwrandawiad, sylwadau ysgrifenedig neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o apelau ddilyn y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig. Eglurir ein diwygiadau arfaethedig i’r system apelau cynllunio ym mharagraffau 4.76 - 4.89.

**C9. A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B?**

### *Datblygiadau Lleol*

4.47 Caiff y rhan fwyaf o geisiadau eu categoreiddio’n 'ddatblygiadau lleol' a dyma yw rhan helaeth o lwyth gwaith yr ACLlau. Maent yn cynnwys cynlluniau tai llai, datblygiadau masnachol a rhai enghreifftiau o welliannau gan ddeiliaid tai. Mae manteision ac effeithiau'r datblygiadau hyn yn debygol o fod yn lleol eu natur, ac yn aml, ni fyddant yn ymestyn y tu hwnt i'r ardal gyfagos.

4.48 Rydym am weld dull mwy clyfar, sy’n seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau lleol. Gan amlaf, gellir asesu datblygiadau lleol drwy gyfeirio at gynllun datblygu cyfredol a baratowyd gyda chyfranogiad llawn y gymuned a chynrychiolwyr etholedig. Rydym yn disgwyl i benderfyniadau gael eu gwneud ar o leiaf 80% o geisiadau lleol o fewn 8 wythnos (16 wythnos lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). Ni ddylai fod angen i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau lleol gael eu hystyried gan bwyllgor cynllunio.

4.49 Mae gan bob ACLl gynlluniau dirprwyo ar hyn o bryd sy'n golygu bod swyddogion yn gallu penderfynu ar geisiadau syml. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai pob awdurdod allu cyrraedd cyfraddau dirprwyo o dros 90%. Cafodd yr GCA dystiolaeth sylweddol a oedd yn dangos bod llawer o geisiadau a ddirprwywyd i swyddogion yn y lle cyntaf yn cael eu cyfeirio mewn gwirionedd at bwyllgor cynllunio i wneud penderfyniad, yn aml drwy ddefnyddio proses o alw aelodau lleol i mewn. Mae anghysondeb o ran arferion rhwng yr amryfal awdurdodau yn cael effaith andwyol ar dryloywder, ar sicrwydd, ac ar gyflymder ac ansawdd y broses gwneud penderfyniadau. Er mwyn mynd i’r afael â’r feirniadaeth hon, rydym yn bwriadu cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol er mwyn sicrhau bod yr un math o gais yn cael ei ystyried yn yr un ffordd ledled Cymru. Bydd y cynllun cenedlaethol yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir cyfeirio cais dirprwyedig i bwyllgor cynllunio er mwyn iddo ef wneud penderfyniad. Nodir ein cynigion ym mharagraffau 6.99 - 6.108.

4.50 Rydym hefyd am sicrhau bod y broses apelio ar gyfer datblygiadau lleol yn un gymesur. Caiff y rhan fwyaf o apelau eu hystyried gan PINS, naill ai gan ddefnyddio’r Gwasanaeth Apelau gan Ddeiliaid Tai neu'r Gwasanaeth Apelau Masnachol y bwriedir eu cyflwyno. Bydd gan yr Arolygiaeth y disgresiwn i fabwysiadu dulliau apelio eraill ar gyfer achosion mwy cymhleth. Mae ein cynigion i’w gweld ym mharagraffau 4.76 - 4.89.

***Datblygiadau a Ganiateir***

4.51 Mae hawliau datblygu a ganiateir yn rhoi caniatâd cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygiadau penodedig, gan ddileu'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio. Yn ddiweddar, ailwampiwyd y system hawliau datblygu a ganiateir yn sylweddol, a hynny er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i ddeiliaid tai wella ac ehangu eu cartrefi heb fod angen iddynt wneud cais am ganiatâd cynllunio. Rydym hefyd wedi ehangu cwmpas hawliau datblygu a ganiateir i gynnwys prosiectau ynni adnewyddadwy domestig a masnachol bach, a byddwn yn cwblhau ein cynigion terfynol ar gyfer ehangu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd busnes a seilwaith band eang.

4.52 Wrth ystyried a ddylid ehangu hawliau datblygu a ganiateir, gwnaethom hynny ar sail unrhyw effaith debygol y tu hwnt i'r eiddo dan sylw. Diddymwyd rheolaethau diangen ar berchenogion cartrefi a busnesau, ond cadwyd camau diogelu priodol er mwyn diogelu ansawdd amgylcheddol ac amwynderau lleol. Nid ydym yn cynnig newidiadau sylweddol pellach i hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â deiliaid tai a safleoedd masnachol ar hyn o bryd, gan fod angen amser ar y newidiadau diweddar i ymsefydlu. Rydym hefyd o'r farn y gallai unrhyw newidiadau pellach gael effaith andwyol ar amwynderau a chymunedau lleol.

4.53 Rydym hefyd yn bwriadu ystyried y newidiadau a ganiateir rhwng dosbarthiadau defnydd drwy gynnal adolygiad o'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd. Bydd yr adolygiad yn ystyried y ffordd y caiff dosbarthiadau manwerthu eu hisrannu, gan adeiladu ar ein gwaith ymchwil ar ganol trefi. Bydd hefyd yn edrych ar faterion sy'n gysylltiedig â defnydd preswyl, megis troi adeiladau a ddefnyddir at ddibenion eraill yn dai, ac ar dai amlfeddiannaeth. Bydd y defnydd o adeiladau amaethyddol hefyd yn rhan o'r adolygiad, a bwriedir ystyried a oes gan hawliau datblygu a ganiateir ran i'w chwarae wrth gefnogi cynlluniau arallgyfeirio. Rydym yn bwriadu cynnal nifer o brosiectau ymchwil yn ystod 2014 er mwyn ategu'r adolygiad.

## Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd

### Yr achos dros newid

4.54 Rydym eisoes wedi disgrifio ein bwriad i gyflwyno categori newydd o ddatblygiadau, sef datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd. Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am brosesu'r categori hwn o gais cynllunio ac am benderfynu ar geisiadau o'r fath.

4.55 Cymeradwyodd yr GCA gynnig i sefydlu gweithdrefn ymgeisio ar wahân ar gyfer cynlluniau datblygu cenedlaethol eu harwyddocâd, ac eithrio'r rheini nad ydynt wedi'u datganoli ar hyn o bryd. Mae'n argymell y dylid cyflwyno

gweithdrefn er mwyn caniatáu i un awdurdod wneud penderfyniad ar geisiadau o'r fath, ynghyd â chaniatadau datblygu a chaniatadau ategol cysylltiedig. Roedd o'r farn y byddai proses o'r fath yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn brydlon ac y byddai'n arwain at fwy o sicrwydd a chadernid yn y broses gwneud penderfyniadau.

4.56 Cododd y prosiect ymchwil "Gwerthuso Cydsyniadau ar gyfer Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru" (Ionawr 2013)[14] hefyd nifer o bryderon o ran gallu'r system gynllunio bresennol i genfogi'r broses o roi datblygiadau ynni adnewyddadwy ar waith o fewn amserlen dderbyniol. Roedd y gwaith ymchwil yn awgrymu bod prosiectau o'r fath, oherwydd eu cymhlethdod a'r ffaith eu bod, yn am,l yn rhai dadleuol, yn rhai o'r agweddau mwyaf heriol a phroffil uchel ar y system gynllunio.

4.57 Nododd y gellir priodoli'r cyfnod hirfaith a gymerir i benderfynu ar geisiadau i gyfuniad o ffactorau, nad yw pob un ohonynt o fewn rheolaeth yr ACLlau, gan gynnwys: cyfraddau ymateb gwael gan ymgyngoreion statudol, diwygiadau i'r cynllun gan yr ymgeisydd, penderfyniadau'n cael eu gohirio tra bo gwaith yn mynd rhagddo i ystyried a ddylid galw cais i mewn ai peidio, ac oedi wrth gytuno ar gytundebau cyfreithiol Adran 106. Cynigiwyd nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys sefydlu system newydd ar gyfer caniatáu prosiectau ynni adnewyddadwy sylweddol.

4.58 Cyfeiriodd yr GCA hefyd at y rhan y mae awdurdodau yng Nghymru yn ei chwarae o fewn system ganiatadau Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd. Awgrymodd, yn achos Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn y DU, y dylai Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau cydgysylltiedig ar ganiatadau ategol a datblygiadau cysylltiedig ar y cyd â Gweinidog y DU.

### Ein cynigion

4.59 Rydym yn cynnig mai Gweinidogion Cymru neu berson (au) a benodir ganddynt ddylai benderfynu yn y dyfodol ar geisiadau ar gyfer y categori datblygiadau datganoledig a ddiffinnir fel datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd. Bydd unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru yn derfynol, yn yr un modd ag ar hyn o bryd ar gyfer rhai penderfyniadau penodol eraill o dan y Deddfau Cynllunio.

4.60 Cynigir tri phrif gam i'r broses gynllunio:

- Cyn ymgeisio
- Prosesu;
- Ar ôl y penderfyniad

[14] Gwerthuso Cydsyniadau ar gyfer Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru

4.61 Eglurir camau'r broses isod:

**Cyn ymgeisio**

4.62 Wrth baratoi cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd, rhaid i'r datblygwr yn gyntaf hysbysu Gweinidogion Cymru o'r bwriad i gyflwyno cais. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys digon o wybodaeth iddynt fedru cadarnhau a yw'r datblygiad a gynigir yn Ddatblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ai peidio ac a oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a/neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

4.63 Ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno, bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru, a/neu'r person(au) a benodir ganddynt, ynghyd â'r ACLl, i ddarparu cyngor cyn ymgeisio os gwneir cais i'r perwyl hwnnw. Bydd y cyngor hwnnw ar ffurf cyfnewid gwybodaeth, a chaiff yr wybodaeth y dylid ei chynnwys ei rhagnodi gan Weinidogion Cymru. Diben hynny fydd sicrhau bod y datblygwr yn ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol ac yn nodi'r cyrff neu'r bobl berthnasol y dylid ymgynghori â hwy. Ni fydd yn darparu asesiad o rinweddau'r cynnig.

4.64 Gan ystyried y cyngor cyn ymgeisio a roddir, bydd y datblygwr yn cyflwyno fersiwn ragarweiniol o'r cais cynllunio i ymgyngoreion statudol. Bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno sylwadau ynghylch a yw'r wybodaeth yn ddigonol ai peidio, yn ogystal â sylwadau am rinweddau cynllunio'r cynnig, gan wneud hynny o fewn amserlen ddiffiniedig. Bydd gofyn cyflwyno adroddiad am ganlyniad yr ymgynghoriad, a hynny ar ffurf Datganiad am yr Ymgynghori Cyn Ymgeisio. Caiff gwybodaeth ei darparu hefyd i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arni, a hynny yn unol â gofynion statudol sylfaenol i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru. Bydd y Datganiad am yr Ymgynghori Cyn Ymgeisio yn nodi p'un a fydd y safbwyntiau a fynegir yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi llywio'r cynllun terfynol ai peidio, ac ym mha fodd y byddant wedi gwneud hynny.

**Harwyddocâd fod yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio gorfodol?**

**C11. A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau arfaethedig am Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd?**

**Prosesu**

4.65 Caiff ceisiadau eu cyflwyno'n ffurfiol i Weinidogion Cymru a'u dilysu ganddynt. Rhaid i'r cais a gyflwynir fodloni'r gofynion statudol sylfaenol, a nodir mewn is-ddeddfwriaeth. Bryd hynny, caiff y cais a ddilyswyd ac unrhyw geisiadau annilys eu nodi ar gofrestr cynllunio'r ACLl.

4.66 Er mwyn lleihau nifer y ceisiadau ar wahân y mae angen eu cyflwyno er mwyn i brosiect fynd rhagddo ac er mwyn rhoi mwy o eglurder i bob parti, bydd gan ddatblygwr yr opsiwn o gyflwyno ceisiadau cysylltiedig penodol i'w hystyried gan Weinidogion Cymru ar yr un pryd, a chan ddilyn yr un broses â'r prif gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Bydd yn rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru neu'r person(au) penodedig ystyried y ceisiadau hyn fel

rhan o un broses archwilio gan yr un awdurdod archwilio, yn hytrach na chan nifer o awdurdodau, er enghraifft yr ACLl a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y mathau o geisiadau a gaiff eu cynnwys mewn cynllun o'r fath. Rydym yn gobeithio cynnwys, man lleiaf, geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig megis isorsafoedd trydan, caniatadau tir comin, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd henebion rhestredig a chaniatâd sylweddau peryglus.

4.67 Rydym hefyd yn bwriadu diwygio ein polisi a'n gweithdrefn galw i mewn hefyd er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru alw mathau penodol o geisiadau i mewn os bernir eu bod yn gysylltiedig â chais am Ddatblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ac os nad yw'r datblygwr eisoes wedi cyflwyno'r mater hwnnw fel cais sy'n gysylltiedig â'r prif Ddatblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd.

4.68 Ar ôl i gais gael ei gofrestru a'i ddilysu, byddai partïon â diddordeb yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig. Bydd yr hysbysiad hwnnw'n manylu ar y trefniadau ar gyfer ymgyngoriadau cyhoeddus a statudol ffurfiol am y cais. Bydd yn ofynnol i'r ACLl lunio Adroddiad Effaith Leol yn nodi effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal leol ac yn awgrymu amodau drafft a gofynion cyfreithiol y gallai fod eu hangen er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol.

4.69 Caiff yr ACLl a'i aelodau hefyd gyflwyno sylwadau ar wahân am rinweddau cynnig yn ychwanegol at broses yr Adroddiad Effaith Leol yn yr un modd â'r cyhoedd a chyrff eraill. Gall y cylch ymgynghori hwn arwain at fân ddiwygiadau i'r cynllun a gyflwynwyd. Bydd gan Weinidogion Cymru y disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad ychwanegol ar y diwygiadau hynny sy'n angenrheidiol, yn eu barn hwy. Bydd un cyfle i wneud mân ddiwygiadau i gynllun unwaith y bydd cais ffurfiol wedi'i gofrestru, gan fod y broses cyn ymgeisio yn rhoi cyfleoedd i nodi a mynd i'r afael â materion pwysig yn ystod y cam hwnnw. Gan ddibynnu ar faint o ddiwygiadau o'r fath a wneir, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal ail gylch ymgynghori.

4.70 Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, caiff y cynnig ei ystyried gan Weinidogion Cymru a/neu eu person(au) penodedig. Bydd gan Weinidogion Cymru y disgresiwn i bennu'r dull mwyaf priodol o ystyried y cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Lle y bo modd, bydd yn gwneud hynny drwy sylwadau ysgrifenedig er ei bod yn bosibl y bydd angen ystyried rhai materion penodol, oherwydd eu cymhlethdod, drwy wrandawiad neu weithdrefn ymchwilio fwy ffurfiol. Y bwriad yw bod y modd yr ystyrir y cais yn dilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer apelau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn (paragraffau 4.76 - 4.89).

4.71 Unwaith y bydd y broses o ystyried y cais wedi'i chwblhau, cynigir y bydd y person(au) penodedig yn llunio adroddiad i'w ystyried gan Weinidogion Cymru, a fydd yn penderfynu ar y cais.

**C12. A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd?**

**C13. A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol?**

**C14. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig?**

**C15. A ydych yn cytuno y dylai'r broses ar gyfer ystyried y cais ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apelau?**

### Ar ôl y penderfyniad

4.72 Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad ar unrhyw geisiadau adnewyddu dilynol lle bydd gofyn ailystyried yr egwyddor o ddatblygu.

4.73 Yr ACLl fydd yn parhau'n gyfrifol am benderfyniadau eraill ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, gan gynnwys amrywio neu ddiddymu amod, cyflawni amodau a chymryd camau gorfodi pan dorrir rheolaethau cynllunio. Bydd hefyd yn parhau'n gyfrifol am ystyried cynigion ar gyfer mân ddiwygiadau sylweddol ac ansylweddol.

4.74 Bydd llawer o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn gofyn am gytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 rhwng yr ACLl a'r datblygwr er mwyn sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Yn aml, bydd angen gwaith ychwanegol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud er mwyn sicrhau bod modd gorfodi'r cytundeb yn gyfreithiol. Gall gymryd cryn amser i gytuno ar ymgymeriadau a gall y broses arwain at gryn oedi wrth gyflawni prosiectau. Rydym am ystyried ffyrdd o leihau unrhyw oedi. Byddwn hefyd yn adennill y costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru, pan fyddant yn penderfynu cymeradwyo cais, wrth hwyluso cytundebau o'r fath a sicrhau bod modd eu gorfodi'n gyfreithiol.

**C16 A ydych yn cytuno â'r modd y bwriedir rhannu cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud?**

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

4.75 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd eu cynnwys yn Adrannau 16 a 17; 19 i 23; ac yn Atodlenni 2 a 3 i'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae adran 16 o'r Bil drafft yn mewnosod Adrannau 62D a 62E i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- Mae adran 62D yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd gael eu cyflwyno i

Weinidogion Cymru. Mae'n caniatáu rhoi statws "datblygiad cenedlaethol ei arwyddocâd" i ddatblygiad naill ai am ei fod yn bodloni meini prawf penodol a ragnodir mewn rheoliadau; neu am ei fod yn cael ei bennu'n ddatblygiad o'r fath yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Mae'r adran yn darparu y bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon yn derfynol.

- Mae adran 62E yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu gwneud cais ar gyfer datblygiad cenedlaethol ei arwyddocâd hysbysu Gweinidogion Cymru am y cais arfaethedig. Nid yw unrhyw gam a gymerir cyn yr hysbysiad hwnnw mewn perthynas â chais ar gyfer datblygiad cenedlaethol ei arwyddocâd i'w drin fel cam sy'n gyfystyr ag ymgynghoriad o dan adran 61Z. Effaith y cyfyngiad hwn, at bob diben ymarferol, yw na ellir gwneud cais hyd nes i'r hysbysiad gael ei roi.   Caiff ffurf a chynnwys yr hysbysiad eu rhagnodi mewn gorchymyn datblygu.

- Mae adran 17 o'r Bil Cynllunio drafft yn mewnosod Adrannau 62F, 62G a 62H i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

  - Mae adran 62F yn gwneud darpariaeth ynghylch paratoi adroddiad effaith leol. Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol baratoi adroddiad effaith leol os bwriedir lleoli datblygiad cenedlaethol ei arwyddocâd yn ei ardal.

  - Mae adran 62G yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r hyn a fydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw adroddiad effaith leol a gyflwynir iddynt. Bydd hyn yn berthnasol p'un ai a gyflwynir yr adroddiad iddynt o ganlyniad i ofyniad o dan adran 62F, neu'n wirfoddol. Ond yn achos adroddiad a gyflwynir yn wirfoddol, ni fydd y ddyletwsydd i roi sylw iddo ond yn gymwys os caiff ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag unrhyw ofynion mewn gorchymyn datblygu. Y rheswm dros hynny yw bod angen peth reolaeth ar, er enghraifft, pryd y cyflwynir adroddiadau effaith leol gwirfoddol y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt.

  - Mae adran 62H yn nodi bod adroddiad effaith leol mewn perthynas â chais yn adroddiad ysgrifenedig sy'n manylu ar yr effaith y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'i chael ar ardal, neu ar ran o ardal yr awdurdod sy'n cyflwyno'r adroddiad, a'i fod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir mewn gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru.

- Mae adran 20 o'r Bil drafft yn mewnosod adrannau 62M a 62N i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

  - Byddai adrannau 62M a 62N yn gymwys pan fyddai cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru o dan adrannau 62D, 62I neu 62J. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch pa weithdrefn i'w

defnyddio wrth ystyried y cais, gan wneud hynny erbyn diwedd cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau a gaiff ei gwneud gan Weinidogion Cymru. Gellid ystyried y cais drwy gynnal ymchwiliad lleol, neu mewn gwrandawiad neu ar sail sylwadau ysgrifenedig. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r meini prawf a fydd i'w defnyddio wrth wneud penderfyniad o dan yr adran hon.

- Mae adran 62N yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheolau a fydd yn rheoleiddio'r weithdrefn a fydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag ymchwiliad lleol, gwrandawiad arall, neu sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â chais o dan adrannau 62D, 62I neu 62J. Caiff y rheolau ddarparu ar gyfer y weithdrefn a fydd i'w dilyn mewn cysylltiad â materion cyn neu ar ôl yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad neu cyn neu ar ôl y cyflwynir sylwadau ysgrifenedig.

- Mae adran 21 o'r Bil Drafft yn mewnosod Adran 62O i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae adran 62O yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau drwy gyfrwng gorchymyn datblygu ynghylch y modd y dylid ymdrin â chais a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt o dan adrannau 62D, 62L neu 62J.

- Mae atodlen 2 o'r Bil drafft yn mewnosod Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae Atodlen 4D yn darparu bod swyddogaethau penodol mewn perthynas â chais ar gyfer datblygiad cenedlaethol ei arwyddocâd o dan adran 62D i'w harfer gan berson a benodir at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru. Lle penodir person o'r fath, mae ei benderfyniad ef i'w drin fel penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu'r penodiad hwnnw a chânt naill ai benodi person arall i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny neu ymgymryd â'r swyddogaethau hynny eu hunain.

- Mae Atodlen 3 o'r Bil drafft yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- Mae Atodlen 3 yn mewnosod adran 75A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n darparu bod ceisiadau ar gyfer datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd o dan adran 62D yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau gweithdrefnol (a nodir mewn gorchymyn datblygu) â'r rheini sy'n gymwys i geisiadau a gyflwynir i awdurdod cynllunio lleol.

- Mae Atodlen 3 hefyd yn diwygio Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddarparu nad yw parth cynllunio syml o dan adran 87 nac ychwaith gynllun menter o dan section 88 yn cael yr effaith o roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n un cenedlaethol ei arwyddocâd.

- Mae Atodlen 3 hefyd yn mewnosod adran 303ZZA i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn darparu y ceir codi ffi am gyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chais a gyflwynir iddynt o dan adran 62D.

## Apelau Cynllunio

### Yr achos dros newid

4.76 Yn gyffredinol, mae parch mawr at y system apelau cynllunio, ond mae lle i'w gwella ymhellach. Mae ymgeiswyr am gael penderfyniadau cyflymach er mwyn hwyluso datblygiadau ac ysgogi twf economaidd ac mae'r cyhoedd am weld system apelau sy'n decach ac yn fwy tryloyw ac sy'n llai gwrthdrawiadol.

4.77 Ystyriodd yr GCA rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y system apelau a chytunodd fod gan y trefniadau presennol rinweddau sylweddol a'u bod yn ennyn hyder defnyddwyr y system. Ni chafodd y Grŵp unrhyw ddadleuon darbwyllol o blaid creu Arolygiaeth ar wahân yng Nghymru. Ymdrinnir â mwyafrif helaeth yr archwiliadau sy’n ymwneud â CDLlau, ynghyd â gwaith achos sy’n gysylltiedig â rheoli datblygu gan dîm penodedig o Arolygwyr Cynllunio yng Nghymru. Gwneir penderfyniadau ar apelau ac achosion a gaiff eu galw i mewn ar sail y cynllun datblygu mabwysiedig a pholisi cynllunio Llywodraeth Cymru.

4.78 Yn 2012-13, cyflwynwyd 662 o apelau cynllunio ac 116 o apelau gorfodi i'r Arolygiaeth yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn honno, cynhaliwyd 80% o apelau cynllunio a 67% o apelau gorfodi drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, 16% a 5% drwy wrandawiad a 4% ac 28% drwy'r broses ymchwilio fwy ffurfiol. Pennodd Gweinidogion Cymru dargedau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ar apelau. Yn 2012-13, llwyddodd yr Arolygiaeth i gyrraedd y targedau hynny neu i ragori arnynt.

4.79 Er mwyn helpu i nodi meysydd pellach i'w gwella, rydym wedi adolygu prosesau apelau cynllunio o bob rhan o'r DU ac Iwerddon. Rydym wedi nodi newidiadau a fydd yn rhoi inni system unigryw a fydd yn briodol i’n hamgylchiadau penodol yma yng Nghymru.

### Ein cynigion

4.80 Byddwn yn cyflwyno mesurau i leihau'r amser a gymerir i wneud penderfyniad ar apêl ac i sicrhau gwell tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Mae ein newidiadau arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Gofyniad i apelyddion gyflwyno eu datganiad achos llawn pan fyddant yn cyflwyno apêl;
- Cyflwyno Datganiad Tir Cyffredin drafft pan gyflwynir apêl, pan ofynnir am wrandawiad neu ymchwiliad;
- Yr ACLl a phartïon â diddordeb i gyflwyno eu hymateb i'r apêl a sylwadau ffurfiol ar y Datganiad Tir Cyffredin drafft (lle y bo'n berthnasol) ymhen pedair wythnos i ddechrau'r apêl;
- Yr apelydd i gyflwyno sylwadau am ymateb yr ACLl ymhen chwe wythnos i ddechrau'r apêl.

4.81 Mae'r system bresennol lle y gall yr apelydd a'r ACLl fynnu ymddangos gerbron Arolygydd yn arwain at oedi a chostau diangen wrth ymdrin ag achosion. Er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd a gwella effeithlonrwydd y system apelau, bydd PINS yn y dyfodol yn cymryd rhan fwy rhagweithiol yn y broses o benderfynu sut yr ymdrinnir ag apêl. Byddwn yn cyflwyno nifer o newidiadau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ar apelau yn cael eu gwneud yn y ffordd fwyaf priodol a chymesur. Mae ein cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Dileu'r hawl i ymddangos gerbron Arolygydd;
- Yr Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu ar y dull o ystyried yr apêl er mwyn sicrhau y defnyddir y dull mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer pob parti;
- Caiff y dull ystyried ei deilwra i ofynion penodol apêl, a all gynnwys mwy nag un dull o fewn un apêl. Gallai hynny olygu y byddai apêl yn mynd rhagddi drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig ond bod materion penodedig a nodwyd gan yr Arolygydd yn cael eu hystyried drwy wrandawiad neu ymchwiliad;
- Gweithdrefnau ar gyfer dulliau ystyried apêl i'w huno o fewn un ddogfen ganllaw unigol.

4.82 Er mwyn sicrhau bod y broses apelau yn decach ac yn fwy tryloyw, bydd Gweinidogion Cymru yn ymdrin â chais yn y ffurf y'i hystyriwyd gan yr ACLl. Yr ACLl ddylai ystyried diwygiadau i geisiadau i ddechrau, yn hytrach na bod hynny’n gael ei wneud drwy'r llwybr apelau, er mwyn sicrhau bod cyfle i'r gymuned gymryd rhan lawn yn y broses gwneud penderfyniadau. Er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith, byddwn yn diwygio rheolau'r weithdrefn apelau er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais o dan unrhyw amgylchiadau unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno;
- Ni ellir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd mewn apêl oni all yr apelydd ddangos na ellid bod wedi'i chyflwyno ar yr adeg yr ystyriwyd y cais gan yr ACLl.

4.83 Ar hyn o bryd, mae rhai achosion yn cael eu tywys drwy'r weithdrefn apelau lawn er gwaethaf penderfyniad gan yr ACLl ar ôl i’r apêl gael ei chyflwyno y byddai wedi rhoi caniatâd. Mae achosion pan fo ymgeiswyr wedi colli eu gallu i apelio o ganlyniad i oedi wrth wneud penderfyniad ar y cais cynllunio. Mae hynny'n digwydd am nad oeddent yn ymwybodol o'r angen i gytuno ar gyfnod amser diwygiedig gyda'r awdurdod lleol er mwyn diogelu eu hawl i apelio ar sail diffyg penderfyniad. Er mwyn goresgyn y problemau hyn, rydym yn cynnig y dylid diwygio is-ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu'r canlynol:

- Byddwn yn diddymu’r terfyn amser uchaf o 6 mis ar gyfer cyflwyno apelau ar sail diffyg penderfyniad gan yr ACLl. Bydd modd cyflwyno apelau unrhyw bryd hyd at yr adeg y gwneir penderfyniad;
- Yn achos cais sy'n destun apêl ar sail diffyg penderfyniad, bydd yr ACLl yn parhau i allu gwneud penderfyniad ar ôl i’r apêl gael ei chyflwyno, a hynny o fewn terfyn amser rhagnodedig a nodir o fewn is-ddeddfwriaeth.

4.84 Ar hyn o bryd, dim ond mewn apelau lle y cynhelir ymchwiliad neu wrandawiad y gellir dyfarnu costau. Yn ogystal â'r newidiadau arfaethedig i ddiddymu'r hawl i gael gwrandawiad, rydym o'r farn y dylid ehangu'r system costau i apelau a gynhelir drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Bydd hynny’n fodd i sicrhau nad yw'r gallu i wneud cais am gostau yn cael ei gyfyngu gan y weithdrefn a ddewisir gan yr Arolygiaeth. Nod y system gostau yw sicrhau disgyblaeth yn y broses, lleihau nifer yr achosion o ymddygiad afresymol ac atal apelau diangen ac annilys, ond nid yw’r nod hwnnw’n cael ei wireddu'n llawn. Byddai diddymu'r angen i wneud cais am gostau a chaniatáu i'r Arolygydd roi'r broses dyfarnu costau ar waith yn helpu i fynd i’r afael â hyn i ryw raddau. Rydym yn cynnig y dylid caniatáu'r canlynol:

- Dyfarnu costau ar gyfer apelau sy'n mynd rhagddynt drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig;
- Gweinidogion Cymru a'r Arolygiaeth i roi'r broses dyfarnu costau ar waith.

4.85 Bydd y newidiadau a gynigir i'r system gostau yn sicrhau y bydd yr apelydd yn gallu adennill costau, gan gynnwys unrhyw ffioedd a godwyd, lle y dyfernir bod caniatâd wedi'i wrthod yn afresymol gan yr ACLl. Yn ogystal â hyn, rydym o'r farn bod angen mesurau pellach fel y bo modd adennill cyfran o'r gost flynyddol o £3.8 miliwn i bwrs y wlad yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth apelaul. Gwneir apelau gan y byddai rhoi caniatâd ar gyfer cynnig datblygu o fudd mewn rhyw ffordd. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i apelyddion gyfrannu at gostau'r apêl yn yr un ffordd ag y byddent yn ei wneud ar gyfer ceisiadau cynllunio.

4.86 Nid yw'r system bresennol yn darparu ar gyfer y costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru wrth ymdrin ag apêl. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig adennill costau Gweinidogion Cymru er mwyn atal apelau disylwedd ac annilys rhag cael eu cyflwyno ac er mwyn adennill y gost wastraffus a diangen i bwrs y wlad. Rydym o'r farn bod dwy system a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i adennill y costau y byddant yn mynd iddynt pan gaiff apêl ei chyflwyno, sef:

- Defnyddio darpariaeth yn Neddf Cynllunio 2008 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru godi ffi am gyflwyno apêl caniatâd cynllunio neu apêl caniatâd adeilad rhestredig; neu
- Ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru, pan ddyfernir costau, fedru adennill y costau y byddant wedi mynd iddynt.

4.87 Yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Gwella'r Broses Apelau Cynllunio', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, cynigiwyd y dylid cyflwyno proses apelio gyflymach ar gyfer apelau llai gan ddeiliaid tai, y cyfeirir ati fel y System Apelau gan Ddeiliaid Tai ("HAS"). Roedd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i ymgynghoriad 2009 o blaid cyflwyno cynllun peilot ar gyfer System Apelau gan Ddeiliaid Tai yng Nghymru. Bu'r cynllun peilot i brofi System Apelau gan Ddeiliaid Tai yn llwyddiannus iawn ac o ganlyniad, penderfynwyd ar bob apêl o fewn 8 wythnos yn 2012/13, a oedd yn welliant sylweddol ar y targed o 12 wythnos.

4.88 Rydym yn bwriadu ffurfioli'r System Apelau gan Ddeiliaid Tai drwy is-ddeddfwriaeth. O ystyried y gwelliannau a wnaed o ran cyflymder ac o ran effeithlonrwydd yn achos yr apelau hyn, rydym yn cynnig y dylid ehangu'r system i gynnwys rhai ceisiadau masnachol bach penodol o fewn terfynau penodedig. Mae PINS wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cynllun peilot yng Nghymru ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd eiddo masnachol llai na 250 metr sgwâr yn Nosbarthiadau A1, A2 ac A3. Felly rydym yn cynnig y dylid gwneud y canlynol:

- Sefydlu System Apelau Masnachol a fydd yn dilyn gweithdrefn debyg i'r System Apelau gan Ddeiliaid Tai ar gyfer ceisiadau masnachol bach.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

4.89 Caiff ein prif gynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag apelau yng Nghymru eu cynnwys yr Adrannau 29, 30 ac 31 o’r Bil drafft ac maent yn gymwys i’r mathau canlynol o apelau:

- Apelau am fod cais cynllunio wedi ei wrthod neu oherwydd nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn ei gylch (Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);
- Apelau am fod cais am dystysgrif cyfreithlondeb wedi ei wrthod neu oherwydd nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn ei gylch (Adran 195 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);
- Apelau am fod cais am ganiatâd adeilad rhestredig wedi ei wrthod neu oherwydd nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn ei gylch (Adran 21 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990); ac
- Apelau am fod cais am ganiatâd sylweddau peryglus wedi ei wrthod neu oherwydd nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn ei gylch (Adran 21 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990).

- Mae adran 29 yn mewnosod yr is-adrannau a ganlyn i’r deddfau perthnasol:

  - Adran 78(4BA) i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
  - Adran 195(1DA) i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
  - Adran 21(4A) i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990); ac
  - Adran 21(3E) i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

- Effaith y mewnosodiadau hyn yw na cheir amrywio cais ar ôl i hysbysiadau am apêl gael eu cyflwyno ar gyfer y rhestr uchod o fathau o apelau.

- Mae adran 30 yn mewnosod is-adrannau (5) a (6) i adran 323 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Effaith isadran (5) yw ei fod yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau a fydd yn atal apelyddion rhag codi mewn apêl unrhyw faterion newydd na chawsant eu codi eisoes yn ystod y cyfnod ymgeisio oni bai y dangoswyd na ellid bod wedi codi’r

mater bryd hynny. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ragnodi o dan ba amgylchiadau y ceir codi materion newydd. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i bob un o'r mathau o apelau a restrir uchod. Mae is-adran (6) yn cynnwys darpariaeth weithdrefnol ynghylch gwneud rheoliadau.

- Mae adran 31 yn mewnosod adran 322C i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Darpariaeth annibynnol yw hon sy'n caniatáu i gostau gael eu dyfarnu mewn cysylltiad ag apêl yng Nghymru neu mewn cysylltiad â chyfeirio mater at Weinidogion Cymru. Gall y ddarpariaeth fod yn gysylltiedig ag apêl a ystyrir mewn ymchwiliad, mewn gwrandawiad neu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod eu costau hwy eu hunain yn cael eu hadennill oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol neu oddi wrth barti mewn apêl. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru adennill costau mewn perthynas ag ymchwiliad neu wrandawiad nad yw'n cael ei gynnal. At hynny mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod costau'r apelydd, yr ymgeisydd ac unrhyw barti arall mewn apêl (megis yr awdurdod cynllunio lleol a'r ymgyngoreion statudol) yn cael eu talu a chan bwy. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i bob un o'r mathau o apelau a restrir uchod. Mae hefyd yn gymwys pan gaiff materion eraill eu cyfeirio at Weinidogion Cymru, er enghraifft, o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**C17. A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad drafft o dir cyffredin wrth gyflwyno apêl?**

**C18. A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl?**

**C19. A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno?**

**C20. A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith?**

**C21. A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl?**

**C22. A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apelau Masnachol?**

### Hawliau Apelio Trydydd Partïon

4.90 Rydym wedi ystyried yn ofalus iawn p'un a ddylid cyflwyno hawl i drydydd parti herio caniatâd cynllunio a roddir ar gyfer datblygiad. Cafodd yr GCA drafodaeth hirfaith am nifer o ddadleuon o blaid ac yn erbyn cyflwyno hawl o'r fath. Daeth i'r casgliad unfrydol mai enghreifftiau lle nad oedd y system gynllunio bresennol wedi gweithio fel y dylai oedd yr enghreifftiau a gyflwynwyd o blaid yr angen am

hawl i drydydd partïon apelio. Roedd o'r farn bod risg y byddai'r system yn cael ei llethu ac y byddai adnoddau yn cael eu symud oddi wrth wneud penderfyniadau a pharatoi cynlluniau pe cyflwynid hawl i drydydd partïon apelio. Yn bwysig, nid oedd o'r farn y byddai hawl i drydydd partïon apelio o fudd i'r carfannau hynny o'r gymuned nad yw eu lleisiau, yn draddodiadol, yn cael eu clywed yn aml. Ni lwyddodd unrhyw un a oedd yn dadlau o blaid hawl o'r fath i gyflwyno cyfres o feini prawf clir lle nad oedd risg y câi'r hawliau eu camddefnyddio.

4.91 Daeth yr GCA i'r casgliad fod angen mesurau er mwyn sicrhau bod y rheini y gallai datblygiad effeithio arnynt yn ymwybodol o'r datblygiad hwnnw o'r cam cynharaf un a bod y rheini sydd o'r farn y gallai effeithio arnynt yn cael pob cyfle i leisio eu barn. Byddai rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol o fewn y broses gynllunio a chynnwys trydydd partïon mewn penderfyniadau cynllunio o'r camau cynharaf yn mynd i'r afael â'r mathau o broblemau a nodwyd ac yn rhoi mwy o ffydd i'r cyhoedd yn y system gynllunio. Awgrymwyd nifer o ffyrdd o gyflawni hyn, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwyno trefniadau cyn ymgeisio o safbwynt ymgynghori â'r gymuned ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr;
- Rôl estynedig i Gynghorau Tref a Chymuned mewn materion cynllunio;
- Gwell trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn ystod y broses o baratoi'r CDLl;
- Gwella atebolrwydd Aelodau Pwyllgorau Cynllunio gan sicrhau bod penderfyniadau yn gyfreithlon, eu bod yn seiliedig ar farn gadarn a'u bod er budd y cyhoedd;
- Defnyddio pwerau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru.

4.92 Rydym yn cytuno â'r GCA y byddai'n amhriodol cyflwyno hawl i drydydd partïon apelio. Rydym o'r farn y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r dadleuon o blaid cyflwyno hawl i drydydd partïon apelio drwy sicrhau bod y prosesau sy'n bodoli eisoes yn gweithio'n well a sicrhau bod hawliau'r cyhoedd i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn cael eu diogelu'n briodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, rydym wedi cynnig nifer o newidiadau i'r system gynllunio. Disgrifir ein newidiadau arfaethedig ym Mhennod 6: Gwella'r Ddarpariaeth Leol.

# Pennod 5 - Gwella Cydweithrediad

## Cefndir

5.1 Rhaid i gydweithredu effeithiol ddod yn un o gonglfeini'r system gynllunio yng Nghymru. Rydym wedi pwysleisio'n gyson bwysigrwydd cydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau lleol, sy'n cynnwys y gwasanaeth cynllunio. Nodwyd ein gweledigaeth gyntaf yn 'Creu'r Cysylltiadau' yn 2004, a gymeradwywyd yn 2006 gan Adroddiad Beecham. Rydym wedi deddfu i gyflwyno Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2011) sy'n rhoi pwerau i ni gyfuno cynghorau a chyhoeddi canllawiau statudol ar gydweithredu. Gwnaeth Adolygiad Simpson 2011 sawl argymhelliad yn cynnig trefniadau cydweithio pellach rhwng awdurdodau lleol. Daeth i'r casgliad y dylid rhoi newidiadau ar waith drwy gydweithredu yn hytrach nag ad-drefnu, oherwydd yr angen parhaus i drefnu gwasanaethau'n lleol.

5.2 Gan adeiladu ar y dull gweithredu hwn, rydym wedi annog mwy o gydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio yn lleol, gan gynnwys:

Sicrhau deddfwriaeth er mwyn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) cyfagos i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar y Cyd;
Darparu cyllid drwy'r Gronfa Gwella Cynllunio ar gyfer prosiectau cydweithredu penodol;
Cefnogi mentrau cynllunio strategol gan gynnwys y grwpiau cynllunio rhanbarthol yn Ne-ddwyrain, De-orllewin a Gogledd Cymru;
Ei gwneud yn ofynnol paratoi Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a Datganiadau Technegol Agregau Rhanbarthol.

5.3 Bu rhai mentrau nodedig lle y defnyddiodd ACLlau ddulliau cydweithredu effeithlon megis sefydlu canolfannau rhagoriaeth ym maes cynllunio mwynau a chynllunio gwastraff yng Ngogledd a De-orllewin Cymru. Rhoddodd y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) gyngor pellach ar sut y gellid gwella'r egwyddor o rannu adnoddau, fel yr anogwyd yn Adolygiad Simpson. Nid oedd newidiadau mwy sylfaenol i strwythur gwasanaethau cynllunio lleol yn rhan o gylch gorchwyl yr GCA.

5.4 Er gwaethaf rhai meysydd o lwyddiant, ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan, nid yw'r trefniadau cydweithredu anffurfiol wedi bod mor fuddiol ag yr oeddem wedi gobeithio. Mae'r amgylchiadau ariannol cynyddol heriol a'r pwysau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol yn golygu bod angen ystyried sut y gellir cynnal gwasanaethau a systemau a gwella safonau perfformiad, er mwyn i bobl yng Nghymru allu parhau i gael y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu gwerthfawrogi ac i ddylanwadu ar y gwasanaethau hynny. Sefydlwyd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i'r rheini sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, y rheini sy'n wleidyddol atebol amdanynt a'r rheini sy'n eu defnyddio, ystyried sut y dylid darparu a llywodraethu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae swyddogaethau Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys y gwasanaeth cynllunio lleol, o fewn cwmpas gwaith y Comisiwn. Disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2013, ond ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau ar gyfer

darparu gwasanaethau yn debygol cyn ethol y Cynulliad Cenedlaethol nesaf yn 2016.

### Ein dull gweithredu

5.5 Ein dull gweithredu mewn perthynas â diwygio cynllunio yw gweithredu nawr lle bo gennym dystiolaeth sy'n ategu'r angen am newid. Nid oes angen i ni aros hyd nes y caiff canlyniadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus eu rhoi ar waith. Rydym yn bwriadu rhoi deddfwriaeth ar waith sy'n ategu gwelliannau i wasanaethau cynllunio lleol. Gellir gweithredu ein cynigion ni waeth pa newidiadau a wneir i drefniadau darparu yn y dyfodol. Mae'r sail dystiolaeth wedi nodi tri maes lle y mae angen gwella cydweithrediad. Ymhlith y rhain mae:

- Cydweithio llawer agosach rhwng gwasanaethau cynllunio lleol cyfagos, gan gynnwys trefniadau uno ffurfiol;
- Gwell cydgysylltu rhwng gwasanaethau cynllunio Parciau Cenedlaethol a swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd yr awdurdodau lleol cysylltiedig;
- Cydweithio'n fwy effeithiol i gynllunio materion nad yw eu pwysigrwydd ond ar lefel leol.

## Cydweithio agosach rhwng gwasanaethau cynllunio lleol cyfagos

### Yr achos dros newid

5.6 Prin yw'r enghreifftiau o gydweithredu effeithiol rhwng ACLlau o ran darparu gwasanaethau cynllunio. Lle bu cydweithredu, bu'r ffocws ar rannu arbenigedd technegol, gyda gwahanol systemau TG yn ychwanegu at yr her. Un o'r rhesymau dros y diffyg cydweithredu hyd yn hyn yw'r ffaith bod angen buddsoddi cryn adnoddau er mwyn gwneud hynny, ac y gall y canlyniadau fod yn amrywiol. I raddau helaeth, mae hyn oherwydd y dull gwirfoddol lle y mae angen i bob parti gytuno.

5.7 Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod gwasanaethau cynllunio lleol o dan gryn straen ac yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r ystod gynyddol o faterion y mae angen ymdrin â hwy a chymhlethdod y materion hynny. Rydym eisoes wedi dechrau edrych yn feirniadol ar yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan y system gynllunio a byddwn yn dileu beichiau polisi ac yn lleihau cymhlethdod lle y mae adnoddau mwy priodol ar gael i ni eu defnyddio.

5.8 Mae cyfyngiadau ariannol, o ran y gostyngiad mewn incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio a llai o gymorth gan Lywodraeth y DU i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys systemau TG, yn golygu bod angen ystyried dulliau gweithredu arloesol er mwyn cynnal gwasanaethau cynllunio lleol da yn y dyfodol. Roedd adolygiad diweddar o wariant Llywodraeth y DU yn cynnwys newyddion anodd i Gymru, gyda gostyngiad pellach o 2% yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Cymru. Er ein bod wedi diogelu gwasanaethau lleol rhag effeithiau gwaethaf toriadau

Llywodraeth y DU hyd yn hyn, ni fyddwn yn gallu parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

5.9 O dan yr amgylchiadau ariannol anodd hyn, mae'n amlwg bod angen canolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar gyflawni swyddogaethau statudol, sy'n golygu CDLlau, rheoli datblygu a gorfodi. Rydym yn cynnig adolygu'r ffioedd ceisiadau cynllunio a geir gan ACLlau ond rhaid i ni gydbwyso unrhyw gynnydd yn erbyn y posibilrwydd y gallai hynny atal pobl rhag buddsoddi yn y cartrefi, y swyddi a'r seilwaith sydd eu hangen arnom. Eglurir ein cynigion ar gyfer ffioedd cynllunio ym Mhennod 6.

5.10 Er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y dyfodol, rhaid anelu at lefel llawer uwch o arloesedd ac effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus na'r hyn a welwyd hyd yma. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno trefniadau darparu newydd, gan gynnwys trefniadau ffurfiol ar gyfer uno gwasanaethau. Ni ellir eithrio gwasanaethau cynllunio lleol o'r trefniadau hyn. Mae gennym bwerau eisoes a fyddai'n caniatáu i ni uno gwasanaethau cynllunio lleol, ac eithrio swyddogaethau cynllunio Parciau Cenedlaethol, i greu trefniadau darparu lleol helaethach a mwy cynaliadwy.

**Ein cynigion**

5.11 Yn fras, mae pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn ACLl ar gyfer ei ardal, ac eithrio lle ceir awdurdod parc cenedlaethol. Ystyrir swyddogaethau cynllunio parciau cenedlaethol yn fanylach ym mharagraffau 5.17 - 5.20. Ceir cryn amrywiad o ran maint ACLlau, gan amrywio o lai na 23,000 (Arfordir Sir Benfro) i ychydig yn llai na 350,000 (Caerdydd) (Atodiad C - y boblogaeth a wasanaethir gan bob ACLl). Os yw ACLlau yn fach iawn, gall hynny ei gwneud yn anodd cynnal gwasanaethau cynllunio lleol a sicrhau adnoddau ar eu cyfer. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, os oes cydberthnasau cadarn hefyd ag awdurdodau cyfagos, yn enwedig o ran marchnadoedd tai lleol a phatrymau teithio i'r gwaith, gellir cyflwyno achos grymus dros uno gwasanaethau cynllunio lleol yn ffurfiol. Byddai uno hefyd yn annog gwell hunangynhwysiant drwy olygu y gellid ymdrin â mwy o faterion cynllunio, sy'n croesi ffiniau ACLlau ar hyn o bryd, yn briodol gan un awdurdod mwy o faint pan gaiff CDLlau eu paratoi a phan gaiff penderfyniadau eu gwneud ar geisiadau cynllunio.

5.12 Rydym yn cynnig y dylid diweddaru'r pwerau sy'n bodoli eisoes er mwyn ein galluogi i leihau nifer yr ACLlau, gan wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau cynllunio lleol o ystyried galwadau newydd a'r gostyngiad o ran adnoddau. Nodir ein pwerau presennol yn Adran 2 (Byrddau Cynllunio ar y Cyd) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu bwrdd cynllunio ar y cyd fel yr ACLl ar gyfer dwy ardal neu fwy, y mae pob un ohonynt yn sir neu'n fwrdeistref sirol gyfan neu'n rhan ohoni yng Nghymru.

5.13 Nid yw'r pwerau yn Adran 2 yn ymestyn ar hyn o bryd i gynnwys unrhyw ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol ar ei chyfer neu i berfformiad rhai o swyddogaethau ACLl modern. Rydym yn cynnig y dylid diweddaru deddfwriaeth er mwyn galluogi bwrdd cynllunio ar y cyd i gyflawni holl swyddogaethau ACLl modern megis paratoi CDLl a chasglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

5.14 Byddem yn croesawu cynigion gan ACLlau i uno eu gwasanaethau cynllunio a byddwn yn defnyddio ein pwerau o dan Adran 2 i'w sefydlu'n ffurfiol. Er nad oes gennym unrhyw gynigion ar hyn o bryd i ddechrau uno ACLlau, nid ydym yn diystyru hynny yn y dyfodol.

5.15 Byddai bwrdd cynllunio ar y cyd yn cael ei wasanaethu gan un adran gynllunio. Byddai aelodaeth bwrdd cynllunio ar y cyd yn dod o'r awdurdodau lleol cyfranogol ar sail gymesur yn gysylltiedig â'r boblogaeth. Byddai gan fwrdd cynllunio ar y cyd gyfrifoldeb llwyr dros yr holl swyddogaethau cynllunio ac eithrio lle y mae angen paratoi Cynllun Datblygu Strategol (paragraffau 5.21-5.41). Yn yr achos hwn, bydd Panel y CDS yn gyfrifol am baratoi'r CDS yn unig.

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

5.16 Mae ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Byrddau Cynllunio ar y Cyd wedi'u cynnwys yn Adran 12 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 12(2) yn diwygio adran 78 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 er mwyn galluogi bwrdd cynllunio ar y cyd i baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ei ardal. Mae'n gwneud hynny drwy sefydlu bwrdd cynllunio ar y cyd ar ffurf awdurdod cynllunio lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

**C23. A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy?**

## Cydweithredu gwell rhwng awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau lleol

### Yr achos dros newid

5.17 Ers 1996, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru fu'r unig ACLl ar gyfer eu hardal gyda'r awdurdod lleol cysylltiedig yn gyfrifol am elfennau cymdeithasol ac economaidd. Mae'r rhaniad dyletswyddau hwn wedi arwain at densiynau ac anawsterau wrth baratoi CDLlau neu wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Roedd y tensiynau hynny i'w gweld yn y dystiolaeth a gafodd yr GCA oddi wrth randdeiliaid ynghylch darparu'r gwasanaeth cynllunio yn y dyfodol, a daethant i'r amlwg hefyd yn ystod trafodaethau yn y Cynulliad Cenedlaethol ar y system gynllunio yng Nghymru. Mae nifer o randdeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau busnes a buddiannau cymunedol wedi nodi y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol golli eu pwerau cynllunio. Mae'r APCau yn dadlau bod angen pwerau cynllunio arnynt er mwyn rhoi'r diogelwch angenrheidiol i'r ardaloedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol ac er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson wrth lunio cynlluniau a rheoli datblygu.

5.18 Er mwyn ystyried y materion hyn yn fanylach, comisiynwyd gwaith ymchwil gennym, sef 'The Delivery of Planning Service in Statutory Designated Landscapes in Wales'. Mae'r Tirweddau a Ddynodwyd yn Statudol yn cynnwys

y tri Pharc Cenedlaethol a phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). At ddibenion cynllunio, mae gan y ddau ddynodiad statws cyfartal. Fodd bynnag, y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sy'n darparu'r gwasanaeth cynllunio lleol yn achos AHNE, yn hytrach nag awdurdod rheoli tirwedd penodol.

5.19 Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad bod manteision ac anfanteision i'r ddau ddull gweithredu a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwella. Prif gryfder y model Parciau Cenedlaethol presennol yw'r ffaith bod CDLlau yn adlewyrchu graddau llawn y dynodiad a bod ganddynt bolisïau penodol sy'n hyrwyddo dull cyson o ymdrin â cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gyda'r awdurdodau lleol cysylltiedig yn parhau'n gyfrifol am elfennau cymdeithasol ac economaidd, mae trefniadau cydweithredu agos yn hanfodol er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau ac y cyflawnir canlyniadau cynaliadwy. Mae'r dystiolaeth o gydweithredu effeithiol yn gymysg, yn enwedig pan fo'n rhaid i'r Parc Cenedlaethol weithio gyda nifer sylweddol o awdurdodau lleol. Roedd cymunedau lleol a rhai busnesau hefyd o'r farn bod eu buddiannau yn aml yn cael eu diystyru, a oedd yn digwydd yn rhannol, yn eu barn hwy, am nad oedd cynrychiolaeth leol effeithiol ar yr APCau. Yn achos AHNE, caiff y swyddogaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu hintegreiddio o fewn yr awdurdodau lleol cysylltiedig. Caiff polisïau cynllunio sy'n ymwneud â'r AHNE eu cynnwys o fewn y CDLl ar gyfer ardal yr ACLl. Ni ddangosodd cymunedau a busnesau lleol yr un pryderon am y gwasanaeth cynllunio lleol yn yr ardaloedd hyn.

### Ein cynigion

5.20 Nid ydym wedi llunio barn derfynol o ran p'un a ddylai swyddogaeth gynllunio APCau barhau, felly ni chaiff unrhyw fesurau eu cynnwys yn y Bil drafft. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, hoffem glywed eich sylwadau ar sut y dylid cyflawni'r swyddogaeth gynllunio o fewn Parciau Cenedlaethol yn y dyfodol. Caiff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall y Comisiwn lunio ei farn ei hun ar ddyfodol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'u swyddogaethau cynllunio, a byddwn yn ystyried y farn honno cyn i ni wneud ein penderfyniad terfynol o ran p'un a ddylid cynnwys darpariaethau yn y Bil pan gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn yn sicrhau y caiff rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol eu diogelu.

**C24. A ydych o'r farn y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal?**

## Cynlluniau Datblygu Strategol

### Yr achos dros newid

5.21 Mae deinameg cymdeithas fodern yn newid yn barhaus, gan adlewyrchu gwahanol fathau o bwysau. Mae gwell symudedd personol, datblygiadau

technolegol, dyheadau uwch a'r ffaith bod busnesau yn gweithredu ar sail fwy byd-eang wedi arwain at weithlu mwy symudol a marchnadoedd tai hyblyg. Mae rhyddid i ddewis lle rydym am fyw, mwy o symudedd o ran cyflogaeth, gwell opsiynau addysgol a chyrchfannau hamdden a manwerthu sy'n cystadlu yn enghreifftiau sy'n adlewyrchu poblogaeth fwy symudol, sy'n dewis eu lleoliad ar sail dewisiadau personol yn hytrach na gwerthoedd hanesyddol neu draddodiadol. Mae hyn yn golygu nad yw ffyrdd o fyw a gofynion busnes o reidrwydd yn parchu ffiniau awdurdodau lleol.

5.22 Mae angen system gynllunio arnom a all groesi ffiniau awdurdodau lleol a mynd i'r afael â materion sy'n fwy na materion lleol, gan adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywyd heddiw ac yn y dyfodol. Mae angen dull gweithredu strategol sy'n nodi'r agenda fras i CDLlau ei rhoi ar waith. Defnyddir CDLlau fel yr adnodd gweithredu o hyd, gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer rheoli datblygu a dyrannu safleoedd lleol eu harwyddocâd.

5.23 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn caniatáu i ACLlau baratoi CDLl ar y cyd ar sail wirfoddol, er mwyn sicrhau bod modd ystyried materion trawsffiniol. Nid yw cynllun ar y cyd yn golygu uno awdurdodau unigol, colli hunaniaeth na phwerau gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r angen i ymdrin â materion trawsffiniol mewn ffordd fwy cyfannol – gan adlewyrchu'r ffordd wirioneddol y mae pobl yn byw ac yn gweithio. Hyd yn hyn, dim ond Cyngor Sir Gwynedd ac Ynys Môn sydd wedi dewis gweithredu'r opsiwn hwn a pharatoi CDLl ar y cyd. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdodau baratoi CDLl ar y cyd lle na chafwyd cytundeb gwirfoddol ar y lefel leol (paragraffau 6.28 - 6.34).

5.24 Mae angen i ni hefyd leihau'r cymhlethdod a'r achosion o ailadrodd sydd o fewn CDLlau ar hyn o bryd, er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, lleihau costau ac amser paratoi. Yn hytrach nag ystyried y ddarpariaeth tai sawl gwaith, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Ne-ddwyrain Cymru wrth archwilio pob CDLl, byddai'n fwy effeithlon cynnal y drafodaeth unwaith ar sail strategol. Er bod rhai awdurdodau wedi manteisio ar arbenigedd technegol rhanbarthol ac wedi pennu cytundebau cydweithredu, mae llawer nad ydynt wedi gwneud hynny.

5.25 Mae nifer o adroddiadau wedi cyflwyno achos darbwyllol dros gyflwyno haen o lunio cynlluniau strategol. Cydnabu Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol i Gynllunio yng Nghymru (Ionawr 2011) ac adolygiad Simpson yr angen i atgyfnerthu trefniadau cydweithredu. Mae adolygiad Roger Tym & Partners 'Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy' (2011)[15] yn argymell y dylid cyflwyno haen gynllunio uwch uwchben y CDLlau a daeth adroddiadau'r Dinas-ranbarthau[16] a'r GCA i'r casgliad bod angen strwythur ffurfiol ar gyfer cynllunio strategol.

---

[15] Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy

[16] Cyngor ac argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddinas-ranbarthau.

**Ein cynigion**

5.26 Rydym o'r farn y dylid codi elfennau strategol CDLlau, megis tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, darpariaeth ar gyfer sipsiwn a theithwyr, mwynau a gwastraff, i'w trafod a'u datrys mewn CDS. Bydd hyn yn arwain at ddull cyson, effeithiol ac effeithlon, gan adlewyrchu blaenoriaethau strategol, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith yn hytrach na sawl gwaith. Nid ydym o'r farn bod angen CDSau ledled Cymru gyfan. Dim ond mewn ardaloedd lle ceir materion sy'n fwy na materion lleol eu harwyddocâd y dylid eu paratoi. Caiff CDSau eu llywio gan bolisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol a'r dull o reoli adnoddau naturiol ar sail ardaloedd.

5.27 Rydym yn cynnig y dylid nodi ffocws ar gyfer tri CDS:

- Caerdydd;
- Abertawe;
- Coridor yr A55.

5.28 Er y byddwn yn pennu'r ffocws daearyddol ar gyfer CDSau, ni fyddwn yn dynodi eu miant. Bydd awdurdod lleol arweiniol enwebedig yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol eraill yn yr ardal dan sylw i nodi ffin ardal y cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn y mae'n rhaid ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

5.29 Bydd yr FfDC yn dynodi materion allweddol y bydd yn rhaid i CDSau ymdrin â hwy, gan gynnwys:

- Y ddarpariaeth tai ar sail ACLl, gan felly osgoi trafodaeth yn ystod cam y CDLl;
- Tir cyflogaeth ar sail ACLl er mwyn rhoi dull cydlynus ar waith;
- Dyraniadau strategol (hynny yw, tai/cyflogaeth);
- Darpariaeth i sipsiwn a theithwyr (nifer y lleiniau, yn barhaol a thros dro) ar sail ACLl;
- Nodi seilwaith sy'n croesi ffiniau ACLl a chysylltiadau â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru;
- Asesu, codi tâl a chasglu Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn ffordd gyson;
- Gofynion o ran cyfleusterau gwastraff a mwynau, gan gynnwys diogelu;
- Nodi cyfleoedd amgylcheddol strategol, gan gynnwys Lleiniau Glas, os yw hynny'n briodol;
- Un Amserlen Fonitro Flynyddol.

5.30 O ran trefniadau llywodraethu, mae'n hanfodol bod cymunedau lleol yn parhau i gymryd rhan a bod eu cynrychiolwyr yn gwneud penderfyniadau allweddol. Mae nifer o ddulliau gweithredu y gellid eu defnyddio er mwyn cyflawni hyn. Yr opsiwn yr ydym yn ei ffafrio yw mai cynrychiolwyr ACLlau a gaiff eu henwebu i 'Banel' a fydd â'r pwerau i lunio cynlluniau datblygu statudol perthnasol ddylai fod yn gyfrifol am baratoi CDS, ac mai'r aelodau hynny hefyd ddylai fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cynllun. Bydd pwerau o'r fath yn rhoi'r gallu i'r 'Panel' wneud penderfyniadau, gan osgoi'r angen i gyfeirio achosion yn ôl i'r

rhiant-awdurdod. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi oedi a rhwystredigaeth gyda'r broses ac ennyn cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

5.31 Bydd y 'Panel' yn cynnwys aelodau a gaiff eu hethol yn lleol o'r ACLlau o fewn yr ardal ddaearyddol, gyda'r gynrychiolaeth yn adlewyrchu'r boblogaeth. Gweinidogion Cymru fydd yn pennu union nifer aelodau'r 'Panel' ar ôl dynodi'r ffin. Y 'Panel' fydd yn pennu'r trefniadau ariannu a'r adnoddau i ategu gweithgareddau gweithredol. Bydd y 'Panel' yn gorff corfforaethol. Rydym hefyd yn cynnig y dylid cynnwys partneriaid economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel rhan o'r 'Panel'; a fydd yn cyfateb i ryw draean o gyfanswm yr aelodaeth, gyda hawliau pleidleisio cyfwerth i bob aelod.

5.32 Bydd angen cymorth proffesiynol a thechnegol ar y 'Panel' er mwyn paratoi CDS a hwyluso proses graffu. Bydd angen arbenigedd technegol arbenigol mewn perthynas â'r dystiolaeth a fydd yn ategu'r cynllun, er enghraifft, ym maes demograffi, economeg a chyllid. Rydym yn rhagweld y caiff arbenigwyr o'r ACLlau cysylltiedig eu secondio a/neu eu cyflogi i baratoi'r cynllun o dan awenau'r 'Panel'. Rydym hefyd yn ystyried darpariaethau wrth gefn fel y gallai Gweinidogion Cymru, os bydd angen, benodi person i arwain yr arbenigwyr technegol. Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol er mwyn dangos eu bod yn ddiduedd.

5.33 Mae opsiynau llywodraethu eraill yn cynnwys atgyfnerthu'r dull gweithredu gwirfoddol presennol drwy ddarparu fframwaith statudol y gall yr ACLlau ei ddefnyddio i gynhyrchu CDS ar y cyd, sy'n gofyn am gytundeb gan bob awdurdod cysylltiedig. Mae'r dull gweithredu hwn yn debyg i'r trefniadau cydweithredu presennol ar gyfer CDLlau ac mae'r risg o beri rhwystredigaeth mewn perthynas â'r broses yn sylweddol. Fel arall, gellid sefydlu corff cwbl ar wahân gyda phwerau i lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Gellid ystyried bod hyn yn rhy bell o gymunedau lleol a gallai arwain at wrthdaro gyda chynlluniau datblygu haen is.

5.34 Er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi CDS yn dryloyw a bod y canlyniadau yn ymarferol, rydym o'r farn y dylai'r cyhoedd graffu ar y broses llunio cynlluniau a'i chasgliadau. Bydd y cynllun yn destun archwiliad cyhoeddus, o dan arweiniad un o Arolygwyr Arolygiaeth Gynllunio Cymru a gaiff ei benodi'n annibynnol.

5.35 Bydd gan bob parti â diddordeb sy'n gwrthwynebu'r cynllun o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig yr hawl i ymddangos yn y gwrandawiadau ffurfiol. Rhoddir yr un ystyriaeth i sylwadau llafar ac ysgrifenedig. Yr Arolygydd penodedig fydd yn penderfynu ar union strwythur y gwrandawiadau a'r wybodaeth sydd ei hangen. Mae'n bwysig sicrhau y gellir profi cynlluniau a pholisïau gan mai dim ond drwy fuddsoddiad ariannol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat y gellir eu rhoi ar waith. Mae'n hanfodol sicrhau ei bod yn bosibl cyflawni newidiadau o safbwynt ariannol a bod buddsoddwyr yn barod i gefnogi'r cynllun.

5.36 Yr Arolygydd penodedig fydd yn penderfynu a ellir mabwysiadu'r CDS. Rhaid i'r 'Panel' gymeradwyo'r CDS yn unol ag argymhellion cyfrwymol yr Arolygydd.

5.37 Dylai pob CDS gynnwys dangosyddion monitro sy'n dangos sut y caiff polisïau'r cynllun eu rhoi ar waith. Dylid eu llunio mewn ffordd sy'n golygu y gellir cymryd camau os na chaiff y cynllun ei roi ar waith fel y disgwyliwyd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid nodi'r ystod lawn o ddangosyddion priodol, er y dylent fynd y tu hwnt i unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a ddynodwyd gennym. Y 'Panel' fydd yn pennu system fonitro briodol sy'n golygu y gellir rhoi cyfundrefn effeithlon ar waith.

5.38 Rhaid cyflwyno Amserlen Fonitro Flynyddol i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob mis Hydref. Bydd yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol; gan ddechrau ar ôl y flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Er mwyn cyflawni rhai o'r camau gweithredu yn yr Amserlen Fonitro Flynyddol, mae'n bosibl y bydd angen cynnal adolygiad rhannol neu gyflawn o'r CDS. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle nad yw polisïau cenedlaethol yn cael eu bodloni. Bydd arwyddocâd y polisi a graddau'r amrywiad yn dylanwadu'n sylweddol ar natur y camau adferol priodol y bydd eu hangen. 'Panel' yr CDS fydd yn penderfynu pa gamau sy'n briodol, er y bydd yr Amserlen Fonitro Flynyddol ar gael i'r cyhoedd sy'n golygu y bydd eraill yn gallu galw am gamau gweithredu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

5.39 Bydd yn ofynnol i CDLlau gydymffurfio â'r CDS perthnasol. Pan fydd CDS yn cwmpasu ardal CDLl, dylid symleiddio'r CDLl fel na fydd ond yn canolbwyntio ar faterion lleol, yn enwedig dyraniadau ar gyfer safleoedd penodol, yn unol â graddfa a lleoliad y twf a nodwyd yn yr CDS. Bydd materion megis lefel gyffredinol y ddarpariaeth tai, cyflogaeth, darpariaeth fanwerthu a safleoedd strategol eisoes wedi'u trafod ac nid oes angen eu hailadrodd. Dylai hyn arwain at CDLl llawer llai o ran cwmpas a chynnwys.

5.40 Bydd ardaloedd yng Nghymru lle na fydd CDS yn berthnasol, gan nad oes unrhyw faterion strategol trawsffiniol y mae angen ymdrin â hwy ac eithrio drwy'r CDLl. Mae hyn yn golygu bod y materion y mae angen ymdrin â hwy yn debygol o fod yn fwy hunangynhwysol eu natur. Lle nad oes CDS, dylid paratoi CDLl gan gydymffurfio â'r FfDC a pholisi cenedlaethol, fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd angen ymdrin â phob mater perthnasol, sy'n golygu y bydd y cynlluniau hyn yn fwy eang eu cwmpas a'u cynnwys.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

5.41 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Strategol eu cynnwys yn Adrannau 3, 4 a 5 o’r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 3 yn mewnosod yr adrannau canlynol i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae Adran 60C yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn yn dynodi ardal cynllunio strategol ac yn sefydlu Panel Cynllunio Strategol ar gyfer yr ardal honno. Er mwyn cyflwyno’r gorchymyn, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi cyfarwyddyd, fel y nodir yn adran 60D, ac mae’n rhaid bod yr awdurdod arweiniol naill ai wedi cyflwyno cynnig ar gyfer dynodi ardal neu wedi methu â gwneud hynny o fewn y cyfnod penodol. (Nid yw’r gofynion hyn yn gymwys i orchymyn sy’n diwygio neu’n dirymu gorchymyn dynodi blaenorol). Mae’n rhaid bod Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad hefyd, lle y bo angen.

- Mae'n rhaid i'r ardal cynllunio strategol gynnwys holl ardal un awdurdod cynllunio lleol a holl ardal, neu ran o ardal, o leiaf un awdurdod arall. Mae Adran 60D yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo un neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno cynnig ar gyfer ardal cynllunio strategol. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu rhesymau dros wneud y cyfarwyddyd. Bydd yr awdurdod neu'r awdurdodau cynllunio hyn a fydd yn cael y cyfarwyddyd yn cael eu galw'n "awdurdod arweiniol". Bydd yn ofynnol i'r awdurdod arweiniol baratoi cynnig ar gyfer dynodi ardal cynllunio strategol ac ymgynghori ynghylch eu cynnig fel y nodwyd, gan gyflwyno'r holl wybodaeth i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod penodol. Ceir estyn y cyfnod  hwnnw drwy gytundeb Gweinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn ystyried y cynnig a chânt gymeradwyo'r bwriad i gyflwyno Panel Cynllunio Strategol, ei sefydlu drwy orchymyn, a diffinio'r ardal.

- Mae Adran 60E yn nodi pa gamau y dylai Gweinidogion Cymru eu cymryd os nad ydynt yn cytuno â'r cynnig a gyflwynir gan yr awdurdod arweiniol; os na fydd yr awdurdod arweiniol wedi cyflwyno cynnig o fewn y cyfnod penodol; neu os caiff gorchymyn blaenorol ei ddiwygio neu ei ddirymu. Os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu sefydlu ardal cynllunio strategol wahanol i'r un a gynigiwyd gan yr awdurdod arweiniol, mae'n rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd yn yr ardal y maent yn bwriadu ei dynodi. Os yw'r cynnig yn ymwneud â newid ardal cynllunio strategol sydd eisoed yn bodoli, rhaid iddynt ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol yn yr ardal honno. Mae Adran 60E hefyd yn cynnwys darpariaeth yn pennu y caiff Gweinidogion Cymru ofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â dynodi ardaloedd cynllunio strategol.

- Mae Adran 60F yn nodi bod yn rhaid i baneli cynllunio strategol barhau i adolygu materion y mae disgwyl iddynt effeithio ar y modd y caiff yr ardal cynllunio strategol ei chynllunio. Gwna hyn drwy gymhwyso adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i baneli cynllunio strategol. Mae Adran 61(2) yn rhestru materion fel prif nodweddion ardal, at ba ddibenion y caiff tir ei ddefnyddio, poblogaeth, cyfathrebu a systemau trafnidiaeth.

- Mae Adran 60G yn cynnwys darpariaeth ynghylch panel cynllunio strategol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol, gan nodi eu hamcanion o safbwynt defnyddio a datblygu tir yn eu hardal a'u polisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol gydymffurfio'n gyffredinol â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi'r cyfnod y bydd mewn grym fel cynllun datblygu. Mae'r adran yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Baneli Cynllunio Strategol eu hystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n rhaid cynnal arfarniad cynaliadwyedd o Gynlluniau Datblygu Strategol. Gallai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch diwyg a chynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol, eu cyfnod a materion y mae'n rhaid i'r Panel eu hystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn gynllun datblygu cyn gynted ag y caiff ei fabwysiadu gan y Panel Cynllunio

Strategol neu pan gaiff ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Ni fydd Cynllun Datblygu Strategol yn gynllun datblygu ar ôl i'w gyfnod ddod i ben.

- Mae Adran 60H yn nodi sut y bydd yr adrannau yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n amlinellu sut y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei gynhyrchu hefyd yn berthnasol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y rhan fwyaf o'r adrannau hyn yn gymwys yn yr un modd ag y maent yn gymwys i Gynlluniau Datblygu Lleol. Canlyniad hyn fydd y ffaith y bydd y broses gyffredinol ar gyfer paratoi, mabwysiadu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol yn cyfateb i'r broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol. Caiff rhai o fanylion y broses eu nodi mewn rheoliadau, o dan y gwahanol bwerau yn Rhan 6.

Mae ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r ddyletswydd i ystyried a ddylid adolygu Cynllun Datblygu Lleol wedi'u cynnwys yn Adrannau 6 a 7 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 6 yn diwygio adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Lleol "gydymffurfio'n gyffredinol" â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ac unrhyw Gynllun Datblygu Strategol lle y mae ardal cynllunio strategol yn cynnwys holl ardal yr awdurdod cynllunio lleol neu ran ohoni.

- Mae Adran 7 yn mewnosod adran 68A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys darpariaethau yn nodi bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried a ddylid cynnal adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol ar ôl i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru gael ei cyhoeddi neu ei adolygu; neu ar ôl i Gynllun Datblygu Strategol gael ei cyhoeddi neu ei adolygu.

- Mae Adran 7 hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys darpariaethau yn nodi bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried a ddylid cynnal adolygiad o'i Gynllun Datblygu Lleol ar ôl i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru gael ei cyhoeddi neu ei adolygu; neu ar ôl i Gynllun Datblygu Strategol gael ei cyhoeddi neu ei adolygu, a hefyd ar adegau eraill fel y rhagnoda Gweinidogion Cymru.

Caiff ein prif gynigion o safbwynt deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r diffiniad o gynllun datblygu yng Nghymru eu cynnwys yn Adran 8 o'r Bil Cynllunio drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 8 yn diwygio adran 38(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel bod y cynllun datblygu ar gyfer ardal o Gymru yn cynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol. O dan Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol, wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio, roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cais, ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. O safbwynt rhoi sylw i gynllun datblygu, mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn

cynnwys darpariaeth yn pennu bod yn rhaid i benderfyniad gyd-fynd â’r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Os oes gwrthdaro rhwng cynlluniau datblygu, mae adran 38(5) yn cynnwys darpariaeth yn pennu mai’r ddogfen ddiweddaraf ddylai gael ei defnyddio.

**C25. A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol?**

**C26. A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas CDSau i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29?**

**C27. A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi CDSau?**

**C28. A ydych yn cytuno y dylid paratoi CDLl llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion lleol eu harwyddocâd mewn ardaloedd lle ceir CDS?**

# Pennod 6 - Gwella'r Ddarpariaeth Leol

### Cefndir

6.1 Caiff gwasanaethau cynllunio eu darparu orau ar y lefel o lywodraeth sydd agosaf at y manteision a'r effeithiau, a dylai hynny greu'r amodau mwyaf effeithiol ar gyfer darparu. Mae'r system bresennol yn rhoi cyfrifoldeb i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol. Cymunedau lleol a'u cynrychiolwyr etholedig fydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau lleol o hyd, gan sicrhau cysondeb drwy gyfeirio at y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r polisi cynllunio cenedlaethol. Amlinellwyd newidiadau arfaethedig i'r rheol gyffredinol hon eisoes ym Mhennod 4 - Stiwardiaeth Weithredol a Phennod 5 - Gwella Cydweithrediad.

6.2 Mae ACLlau yn parhau'n gyfrifol am y gwasanaeth lleol hanfodol hwn, ond mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r broses o ddarparu CDLlau a gweithredu'r gwasanaeth rheoli datblygu er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau cysondeb ledled Cymru. Rôl Llywodraeth Cymru yw creu'r amodau sy'n galluogi ACLlau i ddarparu gwasanaethau cynllunio. Os bydd perfformiad lleol yn gyson wael, byddwn yn defnyddio ein pwerau ymyrryd presennol ac arfaethedig i sicrhau bod pawb yn cael y gwasanaeth cynllunio lleol o ansawdd y maent yn ei haeddu.

6.3 Mae CDLlau yn dal i fod yn adnodd hanfodol er mwyn nodi'r tir sydd ei angen i ddiwallu anghenion cymdeithas am gartrefi a swyddi ac maent yn hanfodol i ddatblygu cynaliadwy. Mae 13 o blith y 24 o CDPau un ai wedi'u mabwysiadu neu wrthi'n cael eu mabwysiadu. O blith yr ADLlau sy'n weddill, dim ond dau sydd heb Gynllun Datblygu Unedol. Mae oedi wrth baratoi CDLlau yn annerbyniol, felly hefyd fethiant ACLlau i gadw at yr amserlenni a nodwyd yn eu cytundebau cyflenwi.

6.4 Ledled Cymru, caiff dros 90% o geisiadau cynllunio eu caniatáu ac mae rhai ACLlau yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch dros 80% o geisiadau o fewn cyfnod o wyth wythnos. Mae lle i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â chysondeb y broses honno.

6.5 Nododd adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) nad yw awdurdodau'n cael eu gwobrwyo'n ddigonol am berfformiad da a bod diffyg sancsiynau os yw perfformiad yn gyson wael. Mae rhwystredigaeth yn bodoli hefyd ynghylch y prosesau gwahanol a geir ym mhob ACLl. Ystyrir bod annog mwy o gysondeb yn hanfodol i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cynllunio i gwsmeriaid.

6.6 Mae'r angen am fwy o effeithlonrwydd a chysondeb hefyd yn ymestyn i ymgyngoreion statudol, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol. Cafodd yr GCA dystiolaeth am oedi oherwydd ymatebion hwyr i ymgyngoriadau ac am fod ymatebion ac argymhellion yn anghymesur. Roedd pryder hefyd ynghylch y pŵer sydd gan ymgyngoreion statudol dros y system gynllunio, gyda rhai ACLlau yn amharod i wyro oddi wrth safbwyntiau corff arbenigol.

6.7 Yn gyffredinol, roedd yr GCA o'r farn bod angen fframwaith perfformiad cyffredin ar gyfer ACLlau er mwyn llywio hunanwelliant a nodi lle y gallai fod angen sancsiynau os yw perfformiad yn gyson wael.

### Ein dull gweithredu

6.8 Ein nod yw creu'r amodau angenrheidiol i alluogi ACLlau i ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol effeithiol. Rydym wedi nodi cyfres o newidiadau a fydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth leol yn fwy effeithlon neu gyson. Byddwn hefyd yn mesur perfformiad lleol yn fwy trylwyr, gan dderbyn bod gwella perfformiad yn heriol, yn arbennig ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau. Nid yw methu â darparu gwasanaeth cynllunio lleol yn opsiwn. Ym Mhennod 5, rydym eisoes wedi disgrifio ein cynigion ar gyfer cydweithredu gwell, gan gynnwys y posibilrwydd o uno ACLlau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cynllunio lleol yn fwy effeithlon ac yn fwy cynaliadwy.

6.9 Rydym am annog mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn cael gwasanaeth cynllunio lleol da. Gan gofio hynny, rydym yn cynnig y dylid gwneud y canlynol:

- Cyflwyno fframwaith perfformiad cyffredin sy'n nodi'r hyn y dylai gwasanaeth cynllunio lleol da ei ddarparu, a'i gwneud yn ofynnol i bob ACLl gyflwyno adroddiad blynyddol ar y broses o ddarparu'r gwasanaeth;
- Gwneud newidiadau i'r system CDLlau er mwyn gwella effeithlonrwydd a'r ddarpariaeth leol;
- Gwneud gwelliannau pellach i'r system Rheoli Datblygu er mwyn gwella effeithlonrwydd a'r ddarpariaeth leol.

## Elfennau gwasanaeth cynllunio lleol da

### Yr achos dros newid

6.10 Mae ein tystiolaeth wedi dangos bod amrywiad sylweddol yn ansawdd gwasanaethau cynllunio lleol. Credwn y dylai pawb gael gwasanaeth cynllunio lleol da pa le bynnag y maent yn byw ac rydym eisoes wedi siarad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ACLlau a chynrychiolwyr busnes, er mwyn helpu i benderfynu sut beth yw hwnnw. Ymhlith y themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg mae'r angen i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod cynllun datblygu cyfredol ar waith;
- Penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn terfynau amser statudol;
- Sicrhau bod digon o dir ar gael i ddiwallu anghenion yn y dyfodol;
- Rhoi digon o gyfleoedd i gymunedau a rhanddeiliaid ddylanwadu ar y broses gynllunio.

6.11 Cytunwn â'r GCA fod angen llunio fframwaith perfformiad cyffredin i fesur ac asesu darpariaeth effeithiol. Rhaid i'r fframwaith ganolbwyntio ar fesurau ansoddol a meintiol, gan gydnabod bod mesurau ansoddol fel arfer yn anos i'w mesur.

### Ein cynigion

6.12 Rydym wedi nodi'r elfennau hanfodol y dylai gwasanaeth cynllunio lleol da eu cynnwys. Fe'u disgrifir yn fanwl yn Atodiad A ac mae'n cwmpasu 25 o ddangosyddion allweddol yn y meysydd canlynol:

- Llunio cynlluniau;
- Gwneud penderfyniadau;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu;
- Gorfodi.

6.13 Gan adeiladu ar elfennau hanfodol gwasanaeth cynllunio lleol da, bydd yn ofynnol i bob ACLl yn y dyfodol lunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) yn unol â safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Bydd gofyniad tebyg ar gyfer ymgyngoreion statudol. Mae rhagor o fanylion am y fframwaith perfformiad arfaethedig yn Atodiad A a disgrifir y gofynion adrodd ar gyfer ymgyngoreion statudol ym mharagraff 6.91. Byddwn yn llunio'r wybodaeth hon er mwyn creu trosolwg i Gymru.

6.14 Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi awgrymu ystadegau a systemau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol ACLl, er mwyn lleihau baich a chostau gweinyddol. Bydd yr APB yn galluogi awdurdodau cynllunio unigol i ystyried materion a nodwyd a mynd ati i wella’u hunain.

6.15 Pan fetho popeth arall, bydd modd rhoi cosbau os bydd perfformiad yn gyson wael. Gallai'r rhain gynnwys ymyrraeth uniongyrchol a chymryd rheolaeth dros agweddau penodol ar y gwasanaeth cynllunio lleol, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

**C29. A ydych yn cytuno â'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A?**

**C30. A ydych yn cytuno y dylai pob ACLl lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt?**

## Ceisiadau Cynllunio Uniongyrchol i Weinidogion Cymru

### Yr achos dros newid

6.16 Nododd adroddiad yr GCA fod angen i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y broses o ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol os byddant yn perfformio'n gyson wael. Mae perfformiad gwael yn arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys

rhwystro twf economaidd, cynyddu costau a lleihau sicrwydd i ddatblygwyr a'r gymuned leol.

## Ein cynigion

6.17 Credwn y dylai fod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymryd camau uniongyrchol pan fydd methiannau amlwg a chyson mewn perfformiad ACLl. Byddwn yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr wneud cais am ganiatâd cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i'r ACLl, os byddwn o'r farn bod ACLl yn 'perfformio'n wael'.

6.18 Dynodir bod ACLl yn perfformio'n wael ar sail tystiolaeth a geir o'r dangosyddion sy'n pennu beth yw gwasanaeth cynllunio lleol da. Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i benderfynu ar y math o ddatblygiadau y gellir gwneud cais cynllunio uniongyrchol ar eu cyfer a hefyd y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt. Caiff y dynodiad ei dynnu'n ôl pan fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod yr ACLl sy'n 'perfformio'n wael' wedi cymryd camau sylweddol i wella ei berfformiad.

## Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

6.19 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol eu cynnwys yn Adrannau 18 i 22 ac Atodlenni 2 a 3 i'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 18 o'r Bil drafft yn mewnosod Adrannau 62I, 62J a 62K i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae Adran 62I yn caniatáu i gais am ganiatâd cynllunio a chais am ganiatâd materion a gadwyd yn ôl gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru, lle y mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i ddynodi ganddynt at ddiben yr adran honno. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddisgrifio mewn rheoliadau y math o ddatblygiad y mae darpariaethau o'r fath yn berthnasol iddo. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a ddylai awdurdod cynllunio lleol gael ei ddynodi.
    - Mae Adran 62J yn caniatáu i geisiadau 'cysylltiedig' gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Ceisiadau yw'r rhain sy'n gysylltiedig â thir yng Nghymru a hefyd â'r cais y cyfeirir ato yn Adran 62I. Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisgrifio mewn rheoliadau y mathau o geisiadau 'cysylltiedig' a allai gael eu cyflwyno'n uniongyrchol iddynt. Lle y caiff cais ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, ond lle nad ydynt o'r farn ei fod yn gysylltiedig â'r cais y cyfeirir ato yn Adran 62I, mae'r adran yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfeirio'r cais i'r awdurdod a fyddai wedi gwneud penderfyniad yn ei gylch fel arfer.

- Mae Adran 62K yn datgan y bydd penderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch cais a gyflwynir iddynt o dan adran Adrannau 62I a 62J yn derfynol (gan olygu na fydd hawl i apelio i Weinidogion Cymru). Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio lleol dynodedig neu awdurdod sylweddau peryglus i wneud pethau mewn perthynas â chais a gyflwynir i Weinidogion Cymru o dan Adran 62I neu 62J a fyddai, fel arall, wedi'i gyflwyno i'r awdurdod.

- Mae Adran 19 o'r Bil drafft yn mewnosod Adran 62L i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae Adran 62L yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hysbysu cynghorau cymuned am unrhyw geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio, neu geisiadau iddynt gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl, a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt ac sy'n gysylltiedig â thir yn ardal y cyngor cymuned (lle y mae'r cyngor cymuned wedi gofyn ynghynt i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol gael ei hysbysu ynghylch ceisiadau a gyflwynir i'r awdurdod hwnnw). Golyga hefyd ei bod yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol, y byddai cais a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn cael ei gyflwyno iddo fel arfer, roi gwybod i Weinidogion Cymru pa gynghorau cymuned sydd wedi gofyn i gael eu hysbysu fel hyn.

- Mae Adran 20 o'r Bil drafft yn mewnosod Adrannau 62M a 62N i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae Adran 62M yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod o amser (i'w ragnodi mewn rheoliadau) wneud penderfyniad ynghylch y weithdrefn i'w defnyddio ar gyfer archwilio ceisiadau unigol a wneir o dan adran 62I (opsiwn i gyflwyno cais yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru) ac adran 62J (ceisiadau cysylltiedig). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, fel y bo'n briodol, i archwilio cais a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt drwy ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig.
    - Mae Adran 62N yn gwneud darpariaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru i lunio rheolau ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn mewn cysylltiad ag ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig, pan gaiff ei ddefnyddio fel ffordd o archwilio ceisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt o dan adrannau 62I a 62J.

- Mae Adran 21 yn mewnosod adran 62O i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
    - Mae Adran 62O yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn gorchymyn datblygu ynghylch y modd yr ymdrinnir â cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

- Mae Adran 22 o'r Bil drafft yn mewnosod Atodlen 2, sydd yn ei dro yn mewnosod Atodlen 4D, i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae Atodlen 4D yn cynnwys darpariaeth sy’n pennu y bydd person penodedig yn penderfynu ar geisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan adrannau 62I a 62J (ceisiadau cysylltiedig), oni bai y bydd Gweinidogion Cymru yn nodi fel arall mewn achos penodol.  (Rhagwelir y caiff y personau eu penodi gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru). Mae hefyd yn nodi swyddogaethau’r person penodedig ac yn egluro y bydd ganddo’r un pwerau a dyletswyddau â Gweinidogion Cymru o safbwynt penderfynu ar gynnig. Mae’r Atodlen hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ‘gymryd yn ôl’ y pŵer i benderfynu ar unrhyw achos a fyddai, fel arall, yn un y byddai person penodedig yn gwneud penderfyniad yn ei gylch.

- Mae Atodlen 3 o’r Bil drafft yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlynol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Yn benodol,  mae Atodlen 3 yn mewnosod adran 75A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy’n golygu bod ceisiadau sy’n cael eu cyflwyno’n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan adrannau 62I a 62J yn ddarostyngedig i’r un darpariaethau gweithdrefnol (a nodir mewn gorchymyn datblygu) â cheisiadau a gaiff eu cyflwyno i awdurdod cynllunio lleol.
    - Mae Atodlen 3 hefyd yn mewnosod adran 303ZZA i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn golygu y bydd modd codi ffi am gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â chais a gyflwynir iddynt o dan adrannau 62I a 62J.

**C31.  Os ystyrir bod ACLl yn perfformio'n wael, a ydych yn cytuno y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru?**

## Gwella'r Broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol

### Cefndir

6.20 Yn 2004, cyflwynwyd system CDLlau bwrpasol wedi ei theilwra'n arbennig i ddiwallu anghenion ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd. Mae CDLlau yn pennu cyfeiriad clir, gan gysoni gofynion croes ar gyfer datblygu a defnyddio tir 10 - 15 mlynedd yn y dyfodol. Dymunwn gynnal y ffordd gadarnhaol hon o weithredu, gan fanteisio i'r eithaf ar y manteision y mae CDLl yn eu cynnig i genedlaethau’r presennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i gynllunio, sy'n hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau ac i fusnesau fel ei gilydd.

6.21 Mae dealltwriaeth gynyddol o'r broses o lunio CDLlau, mwy o werthfawrogiad o'r angen am dystiolaeth berthnasol, a dysgu oddi wrth y rheini a aeth ati’n gynnar i fabwysiadu cynlluniau yn arwain at gynlluniau mwy ymatebol, sy'n

gallu manteisio'n well ar gyfleoedd economaidd a sicrhau'r budd mwyaf posibl i gymunedau lleol.

6.22 Daeth adroddiad yr GCA ac Ymarfer Mireinio'r Broses o Lunio CDLlau i'r casgliad nad oes dim sylfaenol o'i le ar y system CDLlau bresennol. Mae a wnelo â dysgu o brofiad a datblygu prosesau cyfredol. Yng ngoleuni hyn, nid ydym yn cynnig y dylid cael gwared ar y broses bresennol o lunio CDLlau na'i newid yn sylweddol; yn lle hynny, rydym yn cynnig y dylid ei datblygu ymhellach ar sail profiad a rennir.

### Ein dull gweithredu

6.23 Ein nod yw symud oddi wrth sefydlu'r system CDLlau tuag at gynnal a chadw'r system. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynlluniau'n cael eu paratoi ar gyfer pob ardal cyn gynted â phosibl, ac os bydd gan ardal gynllun eisoes, ei fod yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Dylai ACLlau bellach fod yn teilwra cynlluniau a fabwysiadwyd er mwyn sicrhau eu bod yn fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn golygu y bydd adolygu cynlluniau'n effeithiol a'u haddasu lle bo angen yn bwysig iawn yn y dyfodol. I'r perwyl hwn, caiff canllawiau ar CDLlau eu hail-lunio i hwyluso proses adolygu gyflym ac effeithiol.

6.24 Mae ein cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Gweithredu canlyniadau Ymarfer Mireinio'r Broses o Lunio CDLlau;
- Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i ddau ACLl neu fwy baratoi CDLl ar y cyd;
- Hysbysu Gweinidogion Cymru cyn y gellir tynnu CDLl yn ôl;
- Cyflwyno dyddiad dod i ben ar gyfer CDLlau, gan olygu na fyddant bellach yn rhan o'r cynllun datblygu ar ôl y dyddiad hwnnw;
- Cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu â'r gymuned drwy weithio gydag ACLlau i baratoi Cynlluniau Lleoedd.

## Mireinio Cynlluniau Datblygu Lleol

### Yr achos dros newid

6.25 Mae Ymarfer Mireinio'r Broses o Lunio CDLlau yn ategu ein cynigion deddfwriaethol yn llawn. Rydym eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, ochr yn ochr â'r rheini sydd â dyletswydd statudol a budd ariannol mewn datblygiadau er mwyn nodi meysydd lle y gellir gwneud gwelliannau. Y consenswS amlwg oedd nad oes dim o'i le ar y system bresennol. Nid oedd, ac nid oes awydd i droi cefn ar y system CDLlau nac i gyflwyno newidiadau radical. Cydnabyddwn fod lle i wella o hyd, gan ddysgu o brofiadau blaenorol. Mae'n hanfodol y caiff y system CDLlau ei gwella er mwyn cyflawni'r canlyniadau cywir i Gymru, gan sicrhau y caiff amser a chostau'r broses baratoi eu lleihau. Mae nifer o feysydd yn cael eu datblygu; gan ganolbwyntio'n bennaf ar egluro'r canllawiau presennol.

### Ein cynigion

6.26 Mae'r Ymarfer Mireinio wedi canolbwyntio ar yr agweddau technegol allweddol ar y broses o baratoi CDLlau a'r adolygiad cysylltiedig o ganllawiau cenedlaethol sydd i'w gweld yn Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005) a'r Llawlyfr ar CDLlau (2006). Yn ddiweddarach yn 2014, byddwn yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig penodol i faterion sy'n ymwneud â'r broses o lunio CDLlau. Byddwn yn canolbwyntio ar fireinio rheoliadau presennol a gwella'r canllawiau cysylltiedig, gan gynnwys ymgorffori amryw ddiweddariadau a gyhoeddwyd ers 2004. Rydym wedi cyhoeddi Adroddiad am yr ymarfer a gynhaliwyd i Fireinio'r Broses o Lunio CDLlau[17].

6.27 Bydd ein newidiadau'n cynnwys:

- Rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau bod y cam Strategaeth a Ffefrir (Rheoliad 15) yn fwy ystyrlon wrth ymgynghori, ac ystyried safleoedd yn gynt er mwyn cael gwared ar y cam safleoedd amgen (Rheoliadau 20 a 21);
- O ran adolygu a diwygio cynlluniau, lleihau'r camau sy'n ofynnol wrth adolygu cynlluniau, lle y bo'n briodol, fel y bo modd estyn cyfnod y cynllun a chadarnhau'r strategaeth bresennol, cyflwyno unrhyw safleoedd ychwanegol yn gynt ac osgoi'r cam Strategaeth a Ffefrir (Rheoliad 15). (Yn ddibynnol ar ofynion gweithdrefnol Asesiad Amgylcheddol Strategol);
- Ail-becynnu profion cadernid er mwyn eu gwneud yn gliriach ac yn symlach, gan leihau nifer y profion.

## Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd

### Yr achos dros newid

6.28 Mae'n siomedig na wnaed fawr ddim defnydd o ddeddfwriaeth bresennol sy'n galluogi ACLlau cyfagos i baratoi CDLlau ar y cyd. Mae'r dystiolaeth o adroddiad yr GCA a'r profiad o archwilio CDLlau wedi dangos yn glir nad oes fawr ddim cydweithio rhwng awdurdodau cyfagos, os o gwbl. Credwn fod cydweithredu gwell yn hanfodol ac rydym eisoes wedi nodi ein cynigion ar gyfer CDSau a Byrddau Cynllunio ar y Cyd.

6.29 Credwn fod llunio CDLlau ar y cyd yn gwneud synnwyr. Mae'n golygu bod modd cael trosolwg strategol o faterion megis y cyflenwad tai, gan adlewyrchu realiti'r farchnad dai leol yn hytrach na ffiniau gweinyddol awdurdod lleol. Gellir hefyd wneud arbedion effeithlonrwydd drwy rannu sgiliau ac adnoddau a chomisiynu astudiaethau technegol.

6.30 Mae pwerau'n bodoli eisoes o dan adran 72 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n galluogi dau ACLl neu fwy i baratoi CDLl ar y Cyd yn wirfoddol. Er gwaetha'r pwerau hyn, ac eithrio Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Conwy, gwelwyd bod ACLlau yn amharod i groesawu'r dull gweithredu hwn.

[17] Mireinio'r Broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol: Adroddiad

**Ein cynigion**

6.31 Yn y dyfodol, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i ddau ACLl neu fwy lunio CDLl ar y Cyd. Byddai'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Gallai gynnwys yr angen i gynllunio cyflenwad tai ar gyfer ardal gyfan y farchnad dai leol, gofynion cyflogaeth o fewn yr ardal teithio i'r gwaith, neu ddarpariaeth manwerthu.

6.32 Os rhoddir cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw, rhaid i'r ACLlau dan sylw roi'r gorau i weithio ar eu CDLl presennol ar unwaith a mynd ati i lunio CDLl ar y Cyd cyn gynted â phosibl. Ni ellir llunio CDLlau ar y Cyd drwy ddiwygio CDLl unigol.

6.33 Yr awdurdodau dan sylw fydd yn gyfrifol o hyd am lywodraethu CDLl ar y Cyd. Byddai pwyllgor cynghori yn cael ei ffurfio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun ar y cyd a fyddai'n cynnwys aelodau etholedig o'r awdurdodau dan sylw.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

6.34 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd eu cynnwys yn Adran 11 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 11 yn diwygio adran 72 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 drwy gyflwyno darpariaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol i lunio Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac i'w gwneud yn ofynnol iddynt nodi eu rhesymau dros wneud hynny.
- Mae'n rhaid i'r awdurdodau sy'n cael cyfarwyddyd fynd ati ar y cyd i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau datblygu lleol (gan gynnwys y swyddogaethau sydd ynghlwm wrth baratoi, mabwysiadu a diwygio cynllun datblygu lleol). Mae diwygiadau eraill sy'n ymdrin â'r sefyllfa lle y caiff cyfarwyddyd ei dynnu yn ôl mewn perthynas ag un o'r awdurdodau neu'r cyfan ohonynt (drwy gymhwyso darpariaethau sy'n bodoli eisoes ynghylch yr hyn sy'n digwydd os bydd awdurdod yn tynnu yn ôl o gytundeb ar gyfer paratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd).

**C32. A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i ACLl baratoi CDLl ar y cyd?**

## Hysbysu Ymlaen Llaw Pan Gaiff CDLl ei Dynnu'n Ôl

**Yr achos dros newid**

6.35 Ar hyn o bryd gall ACLlau benderfynu tynnu eu CDLl yn ôl, heb roi hysbysiad ymlaen llaw, unrhyw bryd cyn iddynt gyflwyno'r cynllun i Weinidogion Cymru ei archwilio. Unwaith y caiff cynllun ei dynnu'n ôl, caiff y cynllun a'r dystiolaeth sy'n ei gefnogi eu dileu oddi ar y llwyfan cyhoeddus. Dim ond os ystyrir nad yw'r cynllun yn gadarn y dylid cymryd y camau hyn.

6.36 Byddai tynnu tystiolaeth oddi ar y llwyfan cyhoeddus yn golygu na fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu datblygu'r CDLl ped ystyrid ei bod yn briodol iddynt wneud hynny. Byddai angen i'r broses o lunio CDLl ddechrau o'r dechrau drwy greu cynllun newydd. Byddai angen amser ac arian ychwanegol i gasglu tystiolaeth newydd, gan arwain at fwy o oedi a chostau i bwrs y wlad. Byddai diffyg CDLl cyfredol yn arwain at ddiffyg fframwaith polisi ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau, llai o hyder ymhlith buddsoddwyr, a chynllunio ar sail ad-hoc drwy broses apelio, gan arwain o bosibl at gostau uwch. Nid yw hyn yn gydnaws â dull o weithredu sy'n seiliedig ar gynllun.

**Ein cynigion**

6.37 Yn y dyfodol, os bydd ACLl yn penderfynu tynnu ei CDLl yn ôl, rydym yn cynnig y dylai hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gwneud hynny. Byddai gan Weinidogion Cymru wedyn chwe wythnos i benderfynu a ddylid ei gwneud yn ofynnol i'r CDLl gael ei gyflwyno er mwyn i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo (adran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) neu a ddylid galw'r CDLl i mewn i'w archwilio (adran 71 o Ddeddf 2004). Os na fydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pwerau o fewn y cyfnod o chwe wythnos yna gellir tynnu'r CDLl yn ôl.

6.38 Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth ACLl er mwyn llywio eu penderfyniad a, lle bo angen, rhoi gwybod iddo eu bod am estyn y cyfnod o chwe wythnos a ganiateir er mwyn iddynt wneud eu penderfyniad.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

6.39 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â thynnu Cynllun Datblygu Lleol yn ôl eu cynnwys yn Adran 10 o’r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 10 yn rhoi adran 66 newydd yn lle’r adran 66 blaenorol yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy’n rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio lleol i dynnu ei Gynllun Datblygu Lleol yn ôl ar unrhyw adeg cyn i’r cynllun gael ei fabwysiadu; ar yr amod eu bod yn rhoi rhesymau i gyfiawnhau hynny ac i gefnogi’r cyfarwyddyd.
- Mae Adran 10 hefyd yn mewnosod adran 66A i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy’n disgrifio sut y gellir tynnu Cynllun Datblygu Lleol yn ôl os na cheir unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

    - Caiff awdurdod cynllunio lleol dynnu ei Gynllun Datblygu Lleol yn ôl cyn iddo gael ei fabwysiadu ar yr amod nad yw Gweinidogion Cymru wedi ymyrryd, gan ddefnyddio eu pwerau o dan adran 65 (4) (ymyrryd gan Weinidogion Cymru) neu adran 71 (pŵer diofyn Gweinidogion Cymru). Eto i gyd, mae cyfyngiadau eraill ar y gallu i dynnu cynllun yn ôl sydd wedi cyrraedd camau penodol ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol.
    - Unwaith y mae cynllun wedi cyrraedd cam a bennir mewn rheoliadau, ond cyn iddo gael ei gyflwyno i’w archwilio’n annibynnol, mae’n rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch ei fwriad i dynnu ei Gynllun Datblygu Lleol yn ôl. Bydd gan Weinidogion

Cymru gyfnod penodedig o amser wedyn i benderfynu a ddylent ddefnyddio eu pwerau ymyrryd. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol ac estyn yr amser a ganiateir i ystyried. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd bydd modd i'r awdurdod cynllunio lleol dynnu ei Gynllun Datblygu Lleol yn ôl.

- Ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei gyflwyno i'w archwilio'n annibynnol, ni all gael ei dynnu yn ôl ond ar sail argymhelliad gan y person sy'n gwneud y gwaith archwilio a chyn belled nad yw Gweinidogion Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad hwnnw.
- Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau yn nodi sut y caiff hysbysiadau a chyfarwyddiadau eu rhoi ac yn pennu'r cyfnod hysbysu.

## Y Dyddiad y mae CDLl yn Dod i Ben

### Yr achos dros newid

6.40 Dylai CDLl gwmpasu cyfnod o 10 i 15 mlynedd o'r adeg y'i mabwysiedir, a dylai nodi strategaeth a fframwaith polisi sy'n darparu ar gyfer newid. Wrth i amser fynd heibio, daw'r cyswllt â'r sail dystiolaeth yn wannach a daw'r cynllun yn llai ymatebol i amgylchiadau. Mae'n hanfodol bod CDLlau yn cael eu hadolygu'n gyflym, eu diweddaru'n barhaus a'u bod yn ymateb i faterion lleol. Ni ddylid llaesu dwylo drwy ddibynnu ar gynllun a baratowyd gryn amser yn ôl.

6.41 Mae CDLlau Cymru yn nodi y dylid treulio pedair blynedd yn paratoi cynlluniau. Er na chafodd pob CDLl a oedd yn rhan o'r cylch cyntaf eu paratoi o fewn y terfyn amser hwnnw, dylai'r profiad a gafwyd olygu y bydd modd paratoi'r CDLlau sy'n weddill, a diwygio cynlluniau, mewn llai o amser. Ni ellir cyfiawnhau aros hyd nes y bydd CDLl wedi dod i ben neu tua'r adeg hynny cyn dechrau ei adolygu. Yn y dyfodol, rhaid i ni osgoi gwagle o ran polisi a dibyniaeth ar gynllun sydd wedi dyddio wrth wneud penderfyniadau.

6.42 Mae Polisi Cynllunio Cymru eisoes yn nodi "os bydd polisïau cynllun datblygu ar ei hôl hi neu wedi'u disodli, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwyslais arnynt nag ar ystyriaethau eraill, fel *polisi cynllunio cenedlaethol*, wrth benderfynu ar geisiadau unigol" (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 2.7.1 -2.7.2). Mae hyn yn bwysig oherwydd bod yn rhaid i geisiadau cynllunio barhau i gael eu hasesu yn unol â pholisïau cyfredol a pherthnasol yn hytrach na pholisïau cynllun datblygu a all fod wedi'i gymeradwyo lawer o flynyddoedd ynghynt.

### Ein cynigion

6.43 Rydym yn cynnig y dylai CDLlau bara am gyfnod penodol o amser ac na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y cyfnod hwnnw. Yn ymarferol, ni ddylid cyrraedd y pwynt hwn os caiff cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Lle y bo angen, byddwn yn defnyddio ein pwerau presennol i'w gwneud yn ofynnol i adolygiad gael ei gynnal. Nid cynlluniau datblygu sydd wedi dyddio fydd y pwynt cyfeirio cyntaf mwyach wrth wneud penderfyniadau ar

geisiadau cynllunio, ond gall y dystiolaeth barhau i fod yn ystyriaeth berthnasol o ran cynllunio, gan ddibynnu ar ei chadernid. Er mwyn sicrhau ei bod yn glir mai cynllun penodol yw'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, rhaid nodi'r dyddiad y cafodd ei fabwysiadu, ynghyd â chyfnod y cynllun.

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

6.44 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â dyddiad gorffen Cynlluniau Datblygu Lleol eu cynnwys yn Adran 9 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 9 yn diwygio adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 fel ei bod yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol bennu cyfnod ei Gynllun Datblygu Lleol a'r dyddiad pan na fydd y cynllun bellach yn Gynllun Datblygu. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn nodi rhagor o fanylion ynghylch cyfnod y cynllun.

**C33. A ydych yn cytuno y dylai CDLlau gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf, y dylent gynnwys dyddiad dod i ben penodol ac na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw?**

## Ymgysylltu â'r Gymuned

### Yr achos dros newid

6.45 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid eisoes yn un o gonglfeini'r broses o lunio CDLlau. Mae'n hanfodol bod cymunedau lleol, busnesau a'r holl bartïon â diddordeb yn gallu cyfrannu'n weithredol at y cynllun, a dylanwadu arno. Mae'r system bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLl baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y CDLl er mwyn egluro sut y gall y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill fod yn rhan o'r broses o baratoi'r cynllun.

6.46 Mae gennym hanes cyfoethog o gynlluniau 'o'r bôn i'r brig' anstatudol yng Nghymru sy'n cynnwys cynlluniau trefol a phentrefol a datganiadau cynllunio. Rydym am adeiladu ar yr hanes hwnnw fel modd i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael mwy o gyfle i gyfrannu at benderfyniadau lleol a hefyd leihau nifer y polisïau manwl iawn neu benodol leol sydd wedi'u cynnwys mewn CDLlau ar hyn o bryd.

### Ein cynigion

6.47 Ystyriwn fod Cynghorau Tref a Chymuned mewn sefyllfa dda i weithio gydag ACLlau i lunio Canllawiau Cynllunio Ategol neu Gynlluniau Lleoedd perthnasol lleol. Byddai'n rhaid i unrhyw Ganllawiau Cynllunio Ategol neu Gynlluniau Lleoedd gydymffurfio â'r CDLl a chael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Ategol ochr yn ochr ag ef. Ni welwn unrhyw ddiben mewn cyflwyno sefydliadau na strwythurau newydd, nac ychwaith angen am refferenda cymunedol. Os yw

cymunedau lleol yn anfodlon ar yr hyn a gynigiwyd, mae ganddynt y cyfle drwy eu cynrychiolwyr gwleidyddol i wneud diwygiadau priodol.

6.48 Gallai Canllawiau Cynllunio Lleol ar ffurf Cynlluniau Lleoedd a luniwyd gan y gymuned gyflawni nifer o rolau. Gallent nodi'r manylion i'w hystyried yn ystod y cam cais cynllunio manwl, gan sicrhau bod y datblygiad yn adlewyrchu natur unigryw'r ardal leol. Gellid hefyd eu defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith cymunedol, gan sicrhau y caiff unrhyw arian a geir drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl.

6.49 Cynigiwn y dylid sefydlu nifer bach o brosiectau peilot gan fanteisio ar gymorth technegol oddi wrth Gomisiwn Dylunio Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru. Bwriadwn wahodd cyd-ddatganiadau o ddiddordeb gan ACLlau a Chynghorau Tref a Chymuned.

**C34. A ydych yn cytuno y dylai ACLlau weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol?**

## Gwella'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu

### Cefndir

6.50 Rheoli datblygu yw'r broses a ddefnyddir gan y gymuned i asesu a yw cynigion datblygu yn dderbyniol. Mae wrth wraidd y system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelsom system sydd wedi tyfu'n fwyfwy cymhleth wrth i fwy a mwy o ofynion gael eu hychwanegu. Mae'r broses bellach yn canolbwyntio gormod ar faterion cyfreithiol ac yn anodd i bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ei dilyn neu ei deall. Rydym wedi gofyn am farn y cyhoedd ledled Cymru er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddo ddigwydd.[18] Mae'r casgliadau allweddol a ddeilliodd o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Mae diffyg gwybodaeth cyffredinol am ddiben y system gynllunio ond y canfyddiad eang yw ei bod yn galluogi i ACLlau "reoli" datblygiadau;
- Canfyddiad na chaiff budd y cyhoedd ei ystyried;
- Ystyrir bod y system yn gymhleth a bod terfynau amser hir ar gyfer gwneud penderfyniadau.

6.51 Mae'r angen i symud yr arfer yn gyflym o **reolaeth ar *ddatblygu*** i **reoli *datblygu*** yn greiddiol er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae angen i ni symud o'r diwylliant rheoleiddiol sydd wedi ymsefydlu, a all rwystro datblygiad a symud tuag at ddull o ddarparu gwasanaeth sy'n galluogi. Rydym yn glir mai darparu yw ein blaenoriaeth; rhaid i'r system rheoli datblygu helpu i roi polisïau cenedlaethol a lleol ar waith er mwyn darparu'r swyddi, y cartrefi a'r seilwaith y

[18] Agweddau'r Cyhoedd tuag at y System Gynllunio yng Nghymru

mae eu hangen arnom i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

6.52 Fel man cychwyn ar gyfer gwella, mae angen dealltwriaeth a rennir arnom o'r hyn y mae rheoli datblygu yn ei olygu. Nodir ein diffiniad o reoli datblygu, y bwriadwn ei gynnwys o fewn canllawiau cenedlaethol, isod:

"Mae rheoli datblygu yn ddull cadarnhaol a rhagweithiol o lunio cynigion datblygu, eu hystyried, gwneud penderfyniadau arnynt a'u rhoi ar waith. Fe'i harweinir gan yr awdurdod cynllunio lleol, gan gydweithredu â'r rheini sy'n cynnig datblygiadau a rhanddeiliaid eraill. Fe'i gwneir yn ysbryd partneriaeth a chynwysoldeb, ac mae'n ategu'r broses o gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau allweddol".

6.53 Mae rheoli datblygu yn gofyn am gydweithrediad o ddechrau'r prosiect i'r cam lle cwblheir y gwaith adeiladu, a thu hwnt. Mae cam cyntaf rheoli datblygu yn digwydd gryn amser cyn y caiff cais cynllunio ffurfiol ei gyflwyno. Mae llwyddiant y dull sy'n seiliedig ar gynlluniau yn dibynnu ar ddatblygwyr, ACLlau, ymgyngoreion statudol a chymunedau yn mynd ati i ystyried sut y dylid cyflwyno prosiectau er mwyn rhoi'r cynllun ar waith. Bwriad ein cynigion yw creu'r amodau sydd eu hangen i hwyluso hynny. Ym mhennod 3, gwnaethom amlinellu ein cynigion i ategu newid diwylliant lle'r oedd symud yn gyflym i ddull rheoli datblygu yn rhan allweddol o'r broses.

6.54 Mae ein tystiolaeth wedi dangos bod y fframwaith deddfwriaethol sy'n ategu'r system rheoli datblygu yn gadarn ar y cyfan ond bod y system gyfan dan bwysau[19]. Rydym am adeiladu system sy'n seiliedig ar egwyddorion craidd tryloywder, hygyrchedd, amseroldeb ac atebolrwydd democrataidd. Rhaid i'r system hefyd gyflawni ein tri philer perfformiad: cyflymder, ansawdd a gofal cwsmeriaid.

## Cyflawni'r cynllun

### Yr achos dros newid

6.55 Mae cyflawni'r cynllun yn rhan greiddiol o'r broses o lunio CDLlau, a hynny'n briodol ddigon. Wrth baratoi'r cynllun, rhaid i ACLlau siarad â datblygwyr er mwyn deall yr hyn y gellir ei gyflawni a phryd. Dylai'r drafodaeth honno barhau ar ôl mabwysiadu'r cynllun, hyd at yr adeg y gwneir penderfyniad ynghylch cais cynllunio. Erbyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno, dylai'r cynnig datblygu fod wedi'i fireinio drwy drafodaeth barhaus rhwng y datblygwr, yr ACLlau, ymgyngoreion statudol a'r cyhoedd, er mwyn llunio cynnig terfynol ymarferol sydd wedi ystyried barn pawb.

6.56 Er mwyn ymrwymo'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r ddeialog a'r broses ddylunio, mae angen sicrwydd rhesymol ar ddatblygwyr y caiff eu cynnig ganiatâd cynllunio. Mae'r cynllun datblygu yn rhoi llawer o'r sicrwydd hwnnw, er nad yw deddfwriaeth yn diystyru ystyriaethau perthnasol sy'n arwain at benderfyniad nad yw'n unol â'r cynllun.

[19] Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

6.57 Gall fod angen llawer o wybodaeth i gyfiawnhau cynnwys safle penodol mewn CDLl, a gall fod angen rhagor o fanylion eto cyn i'r dyluniad gael ei gymeradwyo'n llwyr. Er mwyn cyflwyno cynnig da a chael caniatâd cynllunio, mae angen i ddatblygwr gynnal trafodaethau â'r ACLlau a'r gymuned.

**Ein cynigion**

6.58 Mae datblygu mewn modd a arweinir gan gynllun yn golygu y gallwn edrych o'r newydd ar ein proses rheoli datblygu. Gwnaethom gomisiynu ymchwil i adolygu'r modd y rheolir y defnydd o dir yng Nghymru mewn system a arweinir gan gynllun - 'Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru.'[20] Nododd yr adroddiad fod yr un broses yn aml yn cael ei chymhwyso at bob cais cynllunio p'un a ydynt wedi cael eu harfarnu'n drylwyr drwy'r broses o lunio CDLlau ai peidio, heb fawr ddim ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w maint na'u cymhlethdod. O ganlyniad, gall cais 'syml' neu gais sy'n 'cydymffurfio', neu gais sy'n cyd-fynd â chynllun datblygu a fabwysiadwyd gael ei drafod yn helaeth ac arwain at ddyblygu a chostau diangen.

6.59 Credwn fod angen i'r buddsoddiad yn y broses o lunio CDLlau esgor ar fuddiannau drwy symleiddio'r broses rheoli datblygu. Os yw'r cynllun wedi sefydlu'r egwyddor fod math penodol o ddatblygiad yn dderbyniol, ni ddylid trafod hynny eto yn ystod cam y cais cynllunio. Yn lle hynny, dylai trafodaethau ganolbwyntio ar faterion dylunio manwl er mwyn sicrhau y caiff datblygiad o ansawdd ganiatâd cynllunio. Credwn fod dau opsiwn:

- Cyflwyno math newydd o ganiatâd cynllunio ar gyfer ceisiadau sy'n unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd; neu
- Peidio â newid caniatadau ond dirprwyo pob cais cynllunio i swyddogion wneud penderfyniad yn ei gylch yn unol â chynllun datblygu a fabwysiadwyd.

6.60 Byddem yn ffafrio'r opsiwn cyntaf lle byddai cais materion a gadwyd yn ôl yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â datblygiad yn unol â'r cynllun datblygu penodol a fabwysiadwyd. Ni fyddai'r egwyddor o ddatblygu yn cael ei ailystyried felly. Byddwn yn cyhoeddi papur ymgynghori pellach er mwyn egluro ein cynigion yn fanwl.

**C35. Os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, a ydych yn cytuno y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun y datblygiad a gaiff eu hystyried?**

[20] Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol

## Cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno

### Cefndir

6.61 Mae ein tystiolaeth wedi dangos y dylai'r system rheoli datblygu roi mwy o bwyslais ar brosesu cychwynnol er mwyn sicrhau bod cymunedau yn gallu dylanwadu ar gynigion datblygu a chyflymu'r gwaith o brosesu ceisiadau cynllunio. Mae'n arfer gorau eisoes i ACLlau gynnig cyngor cyn ymgeisio ac i ddatblygwyr ymgymryd â gwaith ymgysylltu cyn ymgeisio, yn arbennig lle y bo datblygiadau sylweddol yn cael eu cynnig. Rydym am sicrhau bod hyn yn dod yn arfer cyffredin i'r datblygwyr mwyaf.

## Cyngor Cyn Ymgeisio

### Yr achos dros newid

6.62 Rhoddir y bai yn aml ar y system gynllunio am achosi oedi o safbwynt datblygiadau. Mae llawer o resymau dros oedi, gan gynnwys arferion gwaith araf neu aneffeithiol ar ran yr ACLl, neu gynnig a gyflwynwyd gan y datblygwr nad yw wedi'i ystyried yn drylwyr ac sydd wedi'i lunio'n wael.

6.63 Mae ein tystiolaeth wedi nodi pwysigrwydd cyngor cyn ymgeisio o ran gwella cyflymder y broses gwneud penderfyniadau ac ansawdd cynigion datblygu. Mae cyngor cyn ymgeisio yn cynnwys swyddogion cynllunio yn cynnig barn ar y modd y mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi cynllunio. Mae'n galluogi'r ACLl i nodi'n gynnar yn y broses ddatblygu yr wybodaeth y dylid ei chyflwyno gyda'r cais cynllunio. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi materion lleol a allai ddylanwadu ar ddyluniad y datblygiad neu helpu i fynd i'r afael â phryderon y gymuned. Mae trafodaethau o'r fath yn golygu y caiff problemau eu rhagweld yn gynnar ac ar adeg pan fo'n haws datrys y sefyllfa.

6.64 Ar hyn o bryd, mae cyngor cyn ymgeisio yn wasanaeth dewisol a gynigir gan y rhan fwyaf o ACLlau. Nododd adroddiad GVA Grimley[21] y rôl sydd gan gyngor cyn ymgeisio i'w chware o ran ymdrin â cheisiadau cynllunio yn gynt, gan gynnal ansawdd y dyluniad ar yr un pryd. Nododd yr GCA ddull gweithredu anghyson ledled Cymru gyda lleiafrif bach o ACLlau nad ydynt yn cynnig cyngor cyn ymgeisio.

### Ein cynigion

6.65 Ffordd bwysig o gyflymu'r broses gwneud penderfyniadau a gwella ansawdd datblygiad yw rhoi'r cyfle i ddatblygwyr geisio barn yr ACLlau ynghylch pa mor dderbyniol yw cynnig datblygu cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno. Dylai hynny arwain at gais mwy deallus sy'n fwy tebygol o gael caniatâd cynllunio.

6.66 Nid ydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal trafodaethau cyn ymgeisio gydag ACLlau ond rydym yn eu cynghori'n gryf i wneud hynny. Dengys arfer presennol y bydd y rhan fwyaf o ddatblygwyr yn ceisio cyngor oddi

---

[21] Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

wrth ACLlau cyn ymgeisio gan eu bod yn gwerthfawrogi'r manteision a ddaw yn sgil hynny.

6.67 Yn hytrach, cynigiwn y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar ACLlaui ddarparu gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio i ddarpar ymgeiswyr pan ofynnir iddynt wneud hynny. Rydym eisoes wedi egluro ein cynigion mewn perthynas â chyngor cyn ymgeisio ar gyfer datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd ym Mhennod 4 (paragraffau 4.62 - 4.64). Er mwyn sicrhau y caiff gwasanaeth cyson ei ddarparu ledled Cymru, bydd yn ofynnol i bob ACLl lunio datganiad gwasanaeth mewn perthynas â chyngor cyn ymgeisio. Bydd angen i'r datganiad gwasanaeth adlewyrchu unrhyw is-ddeddfwriaeth a chanllawiau a luniwyd gennym, a chydymffurfio â hwy.

6.68 Credwn ei bod yn rhesymol i ACLl adennill y gost o ddarparu gwasanaeth cyn ymgeisio statudol newydd. Fodd bynnag, rydym am annog darpar ymgeiswyr i ymgysylltu ag ACLlau i drafod cynigion datblygu.

6.69 Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried dau opsiwn o ran codi tâl:

- Opsiwn 1 – peidio â chodi tâl am y cais cychwynnol am gyngor cyn ymgeisio ond os cyflwynir cais cynllunio wedi hynny, bydd tâl (yn ogystal â ffi'r cais cynllunio) yn daladwy i'r ACLl; neu
- Opsiwn 2 – codi tâl am bob cais am gyngor cyn ymgeisio statudol p'un a yw'n arwain at gais cynllunio ai peidio.

6.70 Caiff papur ymgynghori ar ffioedd ei gyhoeddi yn fuan a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am lefel y taliadau ar gyfer y gwasanaeth cyn ymgeisio.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

6.71 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â gwasanaethau cyn ymgeisio eu cynnwys yn Adran 15 o'r Bil drafft, sy'n mewnosod Adrannau 61ZA, 61ZB a 61ZC i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd a Cheisiadau Cynllunio Uniongyrchol yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i geisiadau cynllunio a gyflwynir i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yn fyr:

- Mae Adran 61ZA yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACLlau neu Weinidogion Cymru ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio ar gyfer darpar ymgeisydd mewn perthynas â mathau rhagnodedig o geisiadau arfaethedig.
- Caiff y rheoliadau nodi o dan ba amgylchiadau y bydd yn ofynnol darparu'r gwasanaethau cyn ymgeisio: natur y gwasanaeth i'w ddarparu; a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi neu ddarparu gwybodaeth a dogfennau mewn perthynas â cheisiadau am wasanaethau cyn ymgeisio a'r ddarpariaeth ohonynt.
- Mae 61ZB yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru gadw cofnodion o'r gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarparwyd a'r ceisiadau am

wasanaethau o’r fath, ac i gyhoeddi datganiad yn rhoi gwybodaeth am y mathau o wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir.

## Ymgysylltu cyn Ymgeisio

### Yr achos dros newid

6.72 Gall y gwaith o baratoi cais cynllunio da fod yn gostus a chymryd llawer o amser. Canfu ein hymchwil, "Agweddau'r Cyhoedd tuag at y System Gynllunio yng Nghymru", fod y cyhoedd yn pryderu nad oes llawer o gyfleoedd i ymgysylltu â'r system gynllunio a dylanwadu ar gynigion datblygu. Ar hyn o bryd, mae'r cyhoedd yn aml yn gweld cynnig datblygu yn hwyr yn y broses ddylunio, ar ôl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno fel arfer.

6.73 Rydym yn ymrwymedig i gynnwys cymunedau yn llawn yn y broses gynllunio. Gall ymgysylltu'n gynnar ac mewn modd ystyrlon ac effeithiol feithrin dealltwriaeth rhwng datblygwyr a chymunedau. Mae hefyd yn galluogi unrhyw bryderon sylweddol i gael eu nodi'n gynnar yn y broses ddatblygu, gan roi'r cyfle i'r datblygwr fynd i'r afael â'r materion hyn cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Gall newidiadau bach i'r cynllun wneud gwahaniaeth enfawr o ran p'un a fydd y cyhoedd yn ei gefnogi ai peidio. Rydym hefyd am sicrhau bod ymgyngoreion statudol yn chwarae rhan lawn ac ystyrlon yn y broses hon.

### Ein cynigion

6.74 Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu â chymunedau cyn ymgeisio lle y cynigir datblygiad sylweddol. Bydd hynny’n sicrhau y gellir ymgysylltu mewn modd ystyrlon ar adeg pan fo cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau dylunio. Mae angen i ddatblygwyr ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyngoreion statudol (nodir ein cynigion manwl mewn perthynas ag ymgyngoreion statudol ym mharagraffau 6.91 - 6.95). Caiff manylion am y broses ymgysylltu cyn ymgeisio eu nodi mewn gorchymyn datblygu, a gefnogir gan ganllawiau.

6.75 Pan gyflwynir y cais cynllunio i'r ACLl, dylai gael ei ategu gan gofnod ysgrifenedig o'r ymgysylltu a wnaed – datganiad o ymgysylltu cyn ymgeisio – gan egluro sut mae'r safbwyntiau a gafwyd drwy'r broses ymgysylltu a sylwadau gan ymgyngoreion statudol wedi dylanwadu ar y cais cynllunio. Ni chaniateir i ACLlau ddilysu cais oni chaiff ei ategu gan ddatganiad o ymgysylltu cyn ymgeisio.

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

6.76 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag ymgynghori cyn ymgeisio eu cynnwys yn Adran 14 o’r Bil drafft. Mae Adran 14 yn gymwys i Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd ac i Geisiadau Cynllunio Uniongyrchol yn yr un modd ag y mae’n gymwys i geisiadau am ganiatâd cynllunio a gyflwynir i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yn fyr:

- Mae Adran 14 o'r Bil drafft yn mewnosod adran 61Z i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

    - Mae Adran 61Z yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n bwriadu ymgeisio am ganiatâd ar gyfer datblygiad o fath a bennir mewn gorchymyn datblygu gan Weinidogion Cymru ymgynghori cyn ymgeisio. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais arfaethedig gael ei gyhoeddi mewn modd sy'n tynnu sylw'r cymdogion (personau sy'n meddiannu safle gerllaw'r safle datblygu) at y cynigion.
    - Mae Adran 61Z yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn datblygu, i bennu hefyd bersonau eraill y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori â hwy ynghylch y cais arfaethedig.
    - Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys i ddatblygiadau brys gan y Goron nac i unrhyw achosion eraill a allai gael eu pennu mewn gorchymyn datblygu.
    - Mae Adran 61Z yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau pellach, drwy gyfrwng gorchymyn datblygu, am y broses ymgynghori, gan gynnwys ffurf a chynnwys dogfennau ymgynghori; yr wybodaeth a'r deunyddiau eraill sydd i'w darparu i gymdogion ac i ymgyngoreion penodedig; ac amserlenni.
    - Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ymgyngoreion ymateb i'r ymgynghoriad mewn modd penodol ac o fewn amser penodol, ac i adrodd wrth Weinidogion Cymru ynghylch sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion ymgynghori statudol cyn ymgeisio.

- Mae Adran 14 o'r Bil drafft yn mewnosod is-adrannau (6A), (6B) a (6C) i adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

    - Mae'r is-adrannau newydd hyn yn cynnwys darpariaeth yn pennu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol mewn gorchymyn datblygu fod "adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio" yn cyd-fynd â phob cais cynllunio a gyflwynir lle y mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ymgynghori cyn ymgeisio. Maent yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiad, gan gynnwys manylion yr ymgynghoriad cyn ymgeisio a gynhaliwyd gan yr ymgeisydd, yr ymatebion a ddaeth i law, a sut y mae'r ymgeisydd wedi cymryd yr ymatebion i ystyriaeth. Caiff gorchymyn datblygu hefyd gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad ymgynghori cyn ymgeisio. Effaith hyn yw y bydd yn rhaid i ymgeisydd fod wedi cynnal ymgynghoriad o dan adran 61Z, lle y bo angen, cyn cyflwyno cais.

## Pan gyflwynir y cais cynllunio

### Cefndir

6.77 Mae cyflwyno cais cynllunio yn nodi dechrau'r broses lle mae'r ACLl yn gwneud penderfyniad ffurfiol ar b'un a ddylai cynnig fynd rhagddo ai peidio. Mae gennym dargedau sefydledig o ran pa mor hir y dylai'r broses hon barhau sy'n rhan amlwg o'n dangosyddion arfaethedig ar gyfer gwasanaeth cynllunio lleol da. Er bod nifer sylweddol o ACLlau yn perfformio'n dda yn gyson, mae nifer o awdurdodau yn perfformio'n wael. Rydym am sicrhau bod pob awdurdod yn perfformio'n dda fel mater o drefn.

6.78 Ein nod yw symleiddio prosesau er mwyn sicrhau y bo modd gwneud penderfyniadau mewn modd mwy amserol. Rydym wedi gwneud gwelliannau mawr eisoes, gan gynnwys cyflwyno ffurflen cais cynllunio safonol ar-lein, y cyfeirir ati fel arfer fel '1APP’, a ddarperir drwy'r Porth Cynllunio. Rydym am adeiladu ar hynny a gwneud rhagor o gynnydd mewn perthynas â phob un o’r camau sy’n rhan o’r broses. Rydym wedi nodi cynigion pellach i lywio newid a gwella perfformiad, a nodir yn y paragraffau canlynol.

## Gofynion o ran gwybodaeth

### Yr achos dros newid

6.79 Gwelwyd cynnydd sylweddol o ran faint o wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf. Llywiwyd hyn yn benodol gan ddeddfwriaeth amgylcheddol Ewropeaidd ac, mewn rhai achosion, ofynion polisi cenedlaethol a lleol. Ym mhennod 4, rydym eisoes wedi disgrifio ein bwriad i leihau gofynion polisi cenedlaethol lle y bo modd.

6.80 Mae'r ffurflen gais safonol, 1APP, yn sicrhau cysondeb o ran yr wybodaeth sydd ei hangen i ategu cais cynllunio. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ymgeiswyr i gasglu'r holl wybodaeth y mae ei hangen ar ACLlau er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn a chytbwys. Rhaid i ACLlau gymhwyso gofynion y ffurflen gais safonol ac unrhyw ofynion lleol mewn modd cymesur wrth benderfynu a ddylid derbyn ceisiadau cynllunio (y cyfeirir atynt yn aml gan ACLlau fel ceisiadau dilys).

6.81 Mae penderfynu a yw dogfen asesu benodol, er enghraifft asesiad trafnidiaeth, yn cynnwys digon o wybodaeth i gael ei hystyried yn gyfreithiol at ddibenion y ffurflen gais safonol yn ymarfer gwrthrychol sy’n dibynnu ar farn broffesiynol. Derbyniwn y bydd anghydfodau'n codi o ran faint o fanylion sy'n gymesur, ond efallai mai'r unig opsiwn ymarferol i'r datblygwr fydd darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, yn aml am gost sylweddol.

6.82 Er mwyn datrys anghydfodau'n gyflym, bwriadwn sefydlu proses apelio newydd na fydd ond yn ymdrin â ph'un a yw cais yn ddilys ai peidio.

## Ein cynigion

### Apelau dilysu

6.83 Er mwyn datrys anghydfodau'n gyflym, bwriadwn sefydlu proses apelio newydd na fydd ond yn ymdrin â ph'un a yw cais yn ddilys ai peidio. Byddai hyn yn galw am ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ACLl i beidio â chofrestru cais cynllunio. Bwriadwn wneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i ACLl, pan fydd yn gwneud cais am eitem o wybodaeth, roi ystyriaeth lawn i p'un a yw'r wybodaeth dan sylw wir yn angenrheidiol ac yn berthnasol i'r cais.

6.84 Rydym am gael ateb cyflym i'r cwestiwn ynghylch p'un a yw ceisiadau yn cynnwys digon o wybodaeth i fod yn geisiadau dilys. Tan yn ddiweddar, roedd modd i ymgeiswyr apelio yn erbyn diffyg penderfyniad os oedd ACLl wedi gwrthod derbyn eu ceisiadau, ond dim ond ar ôl i'r cyfnod safonol ar gyfer gwneud penderfyniad ddod i ben yr oedd modd iddynt wneud hynny. Rydym am i ymgeiswyr allu herio barn yr ACLlau yn llawer cynt drwy weithdrefn apelio gyflym a syml a weinyddir gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio. Ymdrinnid â'r achos gan ddefnyddio sylwadau ysgrifenedig gan swyddog cynllunio a gâi ei benodi yn hytrach na chan arolygydd. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen i ni wneud y canlynol;

- Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ACLl i beidio â chofrestru cais cynllunio;
- Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi gweithdrefn a phroses apelio mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n cynnwys pennu cyfnodau amser ar gyfer y broses, pwy sy'n penderfynu ar yr apêl, y math o apêl a'r ffi a godir / costau a ddyfernir,
- Diwygio Adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn ei gwneud yn glir, pan fydd ACLl yn gwneud cais am eitem o wybodaeth, bod yn rhaid i'r wybodaeth fod yn rhesymol ac yn berthnasol i'r cais.

**C36. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ACLl i beidio â chofrestru cais cynllunio?**

## Dileu datganiadau dylunio a mynediad gorfodol

### Yr achos dros newid

6.85 Mae ein hymrwymiad i sicrhau dyluniad da a mynediad i bawb yn parhau mor gryf ag erioed. Fodd bynnag, ni chanfu ymchwil i effeithiolrwydd datganiadau dylunio a mynediad fawr ddim tystiolaeth i ddangos eu bod yn effeithiol o ran cyflawni'r amcanion polisi hyn[22]. Er bod rhai manteision iddynt fel dull cyfathrebu, nid ydym wedi ein darbwyllo bod hynny'n rheswm digonol dros eu cadw fel gofyniad statudol ar gyfer llawer o geisiadau cynllunio. Dylid neilltuo'r

[22] Adolygiad o ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru

adnoddau i ffyrdd amgen o sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddylunio'n dda, sy'n cynnwys trefniadau mynediad cynhwysol.

### Ein cynigion

6.86 Yn amodol ar y safbwyntiau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad a'r mesurau amgen addas a nodwyd er mwyn hyrwyddo dyluniad da a mynediad i bawb, cynigiwn y dylid dileu'r gofyniad yn adran 62 (5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gyflwyno datganiad dylunio a mynediad gyda chais cynllunio.

6.87 Ni chynhwyswyd y mesurau hyn yn y Bil drafft. Gan ddibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cynnwys mesurau penodol yn y Bil pan gaiff ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

**C37. A ddylid dileu'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodo?**

## Cyhoeddusrwydd

### Yr achos dros newid

6.88 Mae sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fynegi barn ar geisiadau cynllunio a allai effeithio arnynt yn her, ac yn arbennig pan all cynlluniau gael effaith eang. Mae costau cyhoeddusrwydd yn peri pryder i ACLlau ar adeg pan fo adnoddau'n brin. Mae'r defnydd o wefannau i ledaenu gwybodaeth wedi cynyddu ac yn cynnig cyfleoedd posibl. Argymhellodd yr GCA y dylid gwneud rhagor o waith i adolygu gofynion hysbysu gan awgrymu y gallai fod angen cyflwyno gofynion ychwanegol.

### Ein cynigion

6.89 Bwriadwn ystyried ymhellach a yw'r trefniadau hysbysu presennol yn gymesur i effaith bosibl y datblygiad. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion manwl yn dilyn gwaith gyda rhanddeiliaid i nodi effeithiolrwydd dulliau ymgysylltu newydd megis cyfryngau cymdeithasu.

6.90 Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ystyried dileu’r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd a ddosberthir yn lleol ond cydnabyddwn nad yw rhoi hysbysiad ar wefan yr ACLl yn ddewis amgen cwbl addas am nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd. Gofynnir am eich barn ar b'un a oes yna fesurau cyhoeddusrwydd amgen ymarferol a digonol a fyddai'n golygu y bydd modd rhoi'r gorau i ddefnyddio hysbysiadau mewn papurau newydd.

**C38. A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol?**

## Ymgyngoreion Statudol

### Yr achos dros newid

6.91 Sefydliadau neu gyrff, a ddiffinnir mewn deddfwriaeth, yw ymgyngoreion statudol, y mae'n rhaid ymgynghori â hwy ar geisiadau cynllunio penodol. Maent yn rhoi cyngor technegol arbenigol ar gynigion datblygu. Gall ACLlau roi pwys sylweddol ar gyngor ymgyngoreion statudol, ac yn arbennig pan na fydd ganddynt lawer o arbenigedd ar fater technegol penodol. Gall hyn olygu bod awdurdodau yn amharod i wneud penderfyniad ar geisiadau heb sylwadau oddi wrth y cyrff allweddol hyn, neu i weithredu'n groes i'r cyngor a roddir ganddynt.

6.92 Dengys y sail dystiolaeth nad yw perfformiad cyffredinol ymgyngoreion statudol yn adlewyrchu eu rôl bwysig na'u dylanwad yn y system gynllunio. Yn benodol, mynegir pryderon bod ymgyngoreion statudol yn achosi oedi yn y broses ceisiadau cynllunio drwy roi ymatebion hwyr i geisiadau ymgynghori. Hefyd, gall ymatebion fod yn anghymesur i gymhlethdod datblygiad a gynigiwyd neu gallant, yn syml ddigon, fod yn aneglur.

6.93 Mater arall yw nad yw ymgyngoreion statudol yn cyfrannu'n ddigon cynnar at y broses ceisiadau cynllunio. Mae ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr ac ACLlau, yn ystod y cam cyn ymgeisio, yn bwysig er mwyn datrys unrhyw faterion technegol penodol a allai achosi oedi yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.

### Ein cynigion

6.94 Bwriadwn egluro'r meysydd lle mae'n rhaid i ymgyngoreion statudol wneud cyfraniad cadarnhaol at y broses rheoli datblygu, cyn ac ar ôl i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Ar ôl egluro'r meysydd y bydd yn ofynnol i ymgyngoreion statudol roi cyngor arbenigol yn eu cylch, rydym yn bwriadu cymryd y camau a ganlyn er mwyn sicrhau ymatebion o sylwedd mewn da bryd:

- Cyflwyno dyletswydd ar ymgyngoreion statudol i ddarparu ymateb o sylwedd i gais am ymgynghoriad o fewn cyfnod penodol o amser, fel y rhagnodir mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd y cais am ymgynghoriad yn cael ei wneud naill ai gan y datblygwr yn ystod y cam cyn ymgeisio (ar gyfer datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd a datblygiadau sylweddol), neu gan yr ACLl, ar gyfer pob math arall o ddatblygiad, ar ôl iddo gael ei gyflwyno iddynt, gan gynnwys bodloni amodau cynllunio;
- Gosod dyletswydd ar ymgyngoreion statudol i ddarparu adroddiadau ar berfformiad i Weinidogion Cymru;
- Pan roddir ymateb yn ystod y cam cyn ymgeisio, gosodir cyfyngiadau ar y math o faterion newydd y bydd ymgyngoreion statudol yn gallu eu codi drwy ymgynghoriad ffurfiol.

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

6.95 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag ymgynghori statudol eu cynnwys yn adran 14 ac adran 27 o'r Bil drafft. Yn ogystal, mae

Gweinidogion Cymru yn bwriadu cychwyn adran 54 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 er mwyn cwblhau'r gyfres o ddeddfwriaeth at ddibenion ymgynghori statudol. Yn fyr:

- Mae Adran 14 o'r Bil drafft yn mewnosod adran 61Z i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

  - Mae Adran 61Z yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ymgynghori cyn ymgeisio mewn perthynas â datblygiadau arfaethedig o fath a bennir mewn gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru. Yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynnig, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymgynghori am y cais arfaethedig â'r personau a bennir mewn gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, y personau hynny, yn fwy na thebyg, fydd yr 'ymgyngoreion statudol' a restrir yn Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

  - Mae'r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn datblygu, i bennu sut y dylai'r ymgynghoriad gael ei gynnal; i'w gwneud yn ofynnol i'r ymgyngoreion a bennwyd ganddynt ymateb i'r ymgynghoriad mewn modd penodol ac o fewn amser penodol; ac i adrodd wrthynt ynghylch sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion ymgynghori statudol cyn ymgeisio.

- Mae Adran 27 o'r Bil drafft yn mewnosod adran 100A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

  - Mae Adran 100A yn darparu ar gyfer ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer cymeradwyo materion wedi'u cadw'n ôl a cheisiadau am ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan unrhyw amodau neu gyfyngiad y caiff caniatâd cynllunio ei roi ar eu sail.
  - Pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori ag ymgynghorai statudol o dan yr adran hon, mae'n cynnwys darpariaeth sy'n pennu na all yr awdurdod hwnnw wneud penderfyniad ar y cais cyn diwedd cyfnod penodol a ragnodir mewn gorchymyn datblygu. Mae hefyd yn pennu pwy yw ymgynghorai statudol at ddibenion yr adran hon.
  - Mae'n gosod dyletswydd ar y rheini yr ymgynghorwyd â hwy i roi ymateb o sylwedd ac i adrodd wrth Weinidogion Cymru ynghylch sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd hon.
  - Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy orchymyn datblygu: yr wybodaeth i'w darparu gan yr awdurdod cynllunio lleol i'r ymgynghorai mewn perthynas â'r ymgynghoriad; y gofynion sydd ynghlwm wrth ymateb o sylwedd, a'r cyfnod o amser a ganiateir ar gyfer ei ddarparu i'r awdurdod cynllunio lleol; y modd y mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad; a ffurf a chynnwys yr adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd i ddarparu ymateb o sylwedd.

- o Nid yw’r dyletswyddau a gaiff eu gosod ar ymgynghorai statudol ond yn berthnasol os yw’r awdurdod cynllunio lleol yn arfer ei ddisgresiwn i ymgynghori â’r ymgynghorai statudol.

## Gwneud y penderfyniad

### Cefndir

6.96 Er mwyn gwneud penderfyniad, mae angen i'r ACLl feddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Bydd safbwyntiau ymgyngoreion statudol a'r gymuned yn hysbys. Mae'n bosibl y bydd negodiadau wedi'u cynnal rhwng y datblygwr, ACLlau ac weithiau ymgyngoreion statudol er mwyn datrys problemau a gwneud gwelliannau.

6.97 Caiff adroddiad ei baratoi yn disgrifio'r cynnig, safbwyntiau'r cyhoedd a’r ymgyngoreion statudol ac yn cyflwyno argymhelliad o ran p'un ai a ddylid rhoi neu wrthod y caniatâd cynllunio. Gall penderfyniad ar gais cynllunio gael ei wneud naill ai gan aelodau etholedig mewn pwyllgor cynllunio neu, yn achos ceisiadau symlach, gellir eu dirprwyo i swyddogion cynllunio er mwyn iddynt wneud y penderfyniad ar eu rhan.

6.98 Mae gan aelodau atebolrwydd democrataidd dros y gwasanaeth cynllunio yn eu hardaloedd ac felly mae'n briodol iddynt wneud penderfyniadau ar yr achosion mwyaf anodd a dadleuol mewn ffordd gyson ac effeithlon. Fodd bynnag, mae ein sylfaen dystiolaeth wedi dangos diffyg cysondeb yn ystod y cam hanfodol o’r broses rheoli datblygu. Nododd yr GCA nifer o feysydd posibl i'w gwella er mwyn mynd i’r afael â chysondeb y broses gwneud penderfyniadau gan aelodau, gan gynnwys y ffaith bod gwrthwynebiadau lleol yn cael dylanwad gormodol arnynt yn hytrach nag ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn. O ganlyniad, comisiynodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) gwmni Fortismere Associates gydag Arup i gynnal gwaith ymchwil, gan ystyried y materion hyn yn fanylach[23].

## Pwyllgorau Cynllunio, Dirprwyo a Rôl Aelodau

### Cefndir

6.99 Mae penderfyniadau ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yn cael eu gwneud gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig. Mae pob ACLl yng Nghymru yn llunio ei gynllun dirprwyo ei hun, gan arwain at gyfraddau dirprwyo sy’n amrywio rhwng 70 a 95%. Dylai dirprwyo arwain at broses o wneud penderfyniadau prydlon gydag arbedion yn sgil hynny o ran amser a chostau i ACLlau ac i ddatblygwyr. Mae cynllun dirprwyo effeithiol yn golygu bod y pwyllgor cynllunio yn gallu canolbwyntio wedyn ar y cynlluniau strategol bwysig, mwy sensitif. Gall cynlluniau o'r fath fod yn dechnegol gymhleth ac yn ddadleuol, gyda nifer o

[23] Ymchwil i'r Adolygiad o'r System Gorfodi Cynllunio yng Nghymru

broblemau'n gysylltiedig â hwy, ynghyd â phwysau o gyfeiriadau gwahanol. Mae'n bwysig, felly, bod aelodau'r pwyllgor yn deall y fframwaith cynllunio a chyfreithiol perthnasol y mae'n rhaid iddynt weithredu oddi tano er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn er budd y cyhoedd.

**Yr achos dros newid**

6.100 Mae'r gwaith ymchwil wedi nodi cryn anghysondeb rhwng ACLlau o ran:

- Lefel y penderfyniadau ac o dan ba amodau y caiff penderfyniadau eu dirprwyo i swyddogion;
- Maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio;
- Y protocolau a ddefnyddir yng nghyfarfodydd y pwyllgor cynllunio.

6.101 Canfu'r adroddiad fod oedi yn digwydd wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau a gaiff eu cyflwyno i'r pwyllgor cynllunio. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod angen hyrwyddo cynwysoldeb democrataidd, priodoldeb a chynrychiolaeth. Daeth y gwaith ymchwil i'r casgliad y gallai maint y pwyllgor fod o fudd o ran hyrwyddo cysondeb ac effeithlonrwydd. Daeth i'r casgliad bod pwyllgorau mwy yn creu mwy o orbenion gweinyddol, mwy o anghysondeb a llai o bleidleisio 'democrataidd', gan fod y pwyslais yn cael ei roi ar safbwyntiau'r aelod lleol. Cydnabu'r gwaith ymchwil y tensiwn rhwng rôl aelodau sy'n cynnal budd ehangach y cyhoedd, sy'n ystyried cynigion datblygu yn unol â'r cynllun mabwysiedig, a rôl yr aelod lleol sy'n cynrychioli safbwyntiau'r rheini yn ward yr aelod.

**Ein cynigion**

6.102 Rydym yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i roi'r newidiadau a argymhellwyd gan ymchwil Fortismere Associates ar waith, gan gynnwys:

- Sefydlu protocol cenedlaethol ar gyfer pwyllgorau cynllunio y dylid ei gynnwys yng nghyfansoddiad pob awdurdod (byddai'r protocol yn nodi gweithdrefnau i'w defnyddio yng nghyfarfodydd pwyllgorau cynllunio);
- Deddfwriaeth i ddiffinio maint pwyllgor cynllunio;
- Sefydlu rhaglen genedlaethol o hyfforddiant i aelodau wedi'i chysylltu â'r fframwaith cymwyseddau cynllunio arfaethedig ar gyfer aelodau etholedig (paragraffau 3.24 - 3.26).

6.103 Bydd angen cyfuniad o ddeddfwriaeth, canllawiau a hyfforddiant er mwyn cyflawni'r argymhellion a restrir uchod.

6.104 Mesur allweddol ychwanegol a gynigiwyd gan y gwaith ymchwil oedd y dylid cyflwyno cynllun cenedlaethol gorfodol ar gyfer dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau. Rydym yn cytuno bod angen cynllun dirprwyo cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn poeni y gallai'r disgresiwn lleol sy'n rhan o'r argymhelliad danseilio'r amcan o sicrhau cysondeb cenedlaethol.

6.105 Drwy'r Bil, fel y'i cyflwynir, rydym yn bwriadu:

- Cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol er mwyn i swyddogion allu gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio;
- Rhagnodi maint, cyfansoddiad a gweithdrefnau ar gyfer Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol.

6.106 Byddai'r ddeddfwriaeth yn ceisio pwerau galluogi i Weinidogion Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau gynnwys cynllun dirprwyo cenedlaethol yn eu cynlluniau dirprwyo eu hunain, gan anelu at sefyllfa lle y byddai tua 90% o geisiadau yn cael eu penderfynu gan swyddogion.

6.107 Trafododd y gwaith ymchwil p'un ai a ddylid cyfyngu ar faint pwyllgor cynllunio, ac rydym yn bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau ar y pwyllgor hwnnw.

6.108 Ni chynhwyswyd y mesurau hyn yn y Bil drafft. Yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cynnwys mesurau penodol yn y Bil pan gaiff ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd yn diwygio darpariaethau mewn deddfwriaeth llywodraeth leol er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

**C39. A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau?**

## Unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi'i roi

### Cefndir

6.109 Unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi'i roi, gall yr ymgeisydd, mewn sawl achos, ddechrau gweithio ar y cynllun. Fodd bynnag, yn aml, mae amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Weithiau, ni fydd datblygiad yn mynd rhagddo fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol a bydd angen newid y cynnig neu adnewyddu'r caniatâd cynllunio. Mae hyblygrwydd yn bwysig, yn enwedig pan fo cyflwr y farchnad yn ansicr. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd, rydym yn bwriadu cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer ystyried mân ddiwygiadau ac ar gyfer y broses o adnewyddu caniatâd cynllunio.

6.110 Pan fo caniatadau cynllunio yn cael eu diwygio a'i diweddaru nifer o weithiau, mae'n anodd, yn aml, gweld yn union pa ganiatadau a roddwyd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y cyhoedd. Mae'n bwysig bod cymunedau yn gallu gweld yr wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd, a phryd. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i hysbysiadau o benderfyniadau a'i gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr hysbysu ACLlau pan fydd datblygiad yn dechrau. Rydym hefyd am sicrhau bod copi o'r hysbysiad o benderfyniad yn cael ei arddangos ar y safle neu gerllaw'r safle.

6.111 Hyd yn oed os bydd datblygiad wedi cael caniatâd cynllunio, mae'n bosibl y bydd trydydd partïon yn ceisio atal y datblygiad drwy amryfal ddulliau, gan gynnwys gwneud cais i'r safle gael ei ddynodi fel maes tref neu bentref.

6.112 Pan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym yn defnyddio'r system gorfodi i ddatrys problemau. Nid ychwanegiad dewisol yw'r system gorfodi; mae'n adnodd allweddol yn y system rheoli datblygu sy'n helpu i gynnal hyder y cyhoedd.

## Hysbysiadau o Benderfyniadau

### Yr achos dros newid

6.113 Mae ffurf yr hysbysiad o benderfyniad sy’n rhoi caniatâd cynllunio wedi parhau'n gymharol ddigyfnewid dros y blynyddoedd, er bod nifer yr amodau cynllunio, a’u cymhlethdod, wedi cynyddu. Mae'r hysbysiad o benderfyniad yn ddogfen sefydlog nad yw'n newid ar ôl ei ddyddiad cyhoeddi, er y gall agweddau ar y caniatâd cynllunio newid cyn rhoi'r caniatâd ar waith ac yn ystod y gwaith. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddatblygwyr a chymunedau nodi’n union beth sydd wedi’i gynnyws yn y caniatâd cynllunio a ph'un a gydymffurfiwyd ag amodau ai peidio.

6.114 Mae hyn yn aml yn broblem i brynwyr dilynol, yn enwedig felly yn achos eiddo masnachol, ac i'r rheini sy’n ariannu’r prynwyr hynny, wrth iddynt geisio canfod p'un ai a gafodd datblygiad ei adeiladu gan gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd o gadarnhau'r cynlluniau a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd a ph'un a fodlonwyd gofynion amod ai peidio yw chwilio drwy ffeil y cais sy'n gysylltiedig â'r caniatâd.

### Ein cynigion

6.115 Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno ffurf newydd ar hysbysiad o benderfyniad a fydd yn nodi'r cynlluniau a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio ac a fydd hefyd yn cofnodi'r manylion y cytunir arnynt mewn perthynas â cheisiadau yn y dyfodol o ran cyflawni amodau ac o ran unrhyw faterion a gadwyd yn ôl a fydd yn gysylltiedig â'r caniatâd.

6.116 Y nod yw sicrhau bod yr hysbysiad o benderfyniad yn ddogfen "fyw" sy'n adlewyrchu sefyllfa bresennol y caniatâd cynllunio fel ei bod yn haws i ddatblygwyr a rhanddeiliaid ddeall beth yw hyd a lled y caniatâd cynllunio ac a gydymffurfiwyd â'r amodau ai peidio.

6.117 Bydd y newidiadau hyn yn gwella'r system rheoli datblygu drwy roi mwy o eglurder, tryloywder a sicrwydd i bob rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol.

### Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno

6.118 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Hysbysiadau o Benderfyniad eu cynnwys yn Adran 25 o’r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 25 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 drwy fewnosod adran 71ZA newydd, sy’n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy

orchymyn datblygu, i bennu diwyg hysbysiadau o benderfyniad, y dull o'u cyflwyno, a'r manylion i'w cynnwys ynddynt.

- Mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynlluniau a dogfennau sy'n rhan o ganiatâd cynllunio (o ran bod yn rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â hwy) gael eu pennu yn yr hysbysiad o benderfyniad.
- Bernir bod y caniatâd cynllunio yn cael ei roi, yn ddarostyngedig i'r amod bod yn rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad.
- Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benderfyniad i bersonau a bennir mewn gorchymyn datblygu, lle y maent wedi rhoi unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn sgil amod neu gyfyngiad sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio neu lle y maent wedi gosod, dileu neu addasu amod neu gyfyngiad ar ganiatâd cynllunio.
- Gallai Gweinidogion Cymru bennu mewn gorchymyn datblygu y manylion i'w cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benderfyniad.
- Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i hysbysiadau o benderfyniad ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio sy'n cael eu rhoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru (er enghraifft, hysbysiadau o benderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag apelau cynllunio a cheisiadau cynllunio a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt lle y bo awdurdod cynllunio lleol wedi'i ddynodi neu ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd).

### Hysbysu am Ddatblygiadau

#### Yr achos dros newid

6.119 Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio Bil Cynllunio (Cymru), mae adroddiad yr GCA yn argymell y dylid cyflwyno gofynion hysbysu a chyhoeddusrwydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr:

- Hysbysu'r ACLl o'r dyddiad y dechreuodd y datblygiad;
- Gosod a chadw copi o'r caniatâd cynllunio sy'n cael ei roi ar waith ar y safle neu gerllaw'r safle drwy gydol y cyfnod datblygu.

6.120 Bydd cyflwyno'r gofynion hyn yn helpu i fonitro datblygiadau drwy:

- Helpu i sicrhau y cyflawnwyd yr holl amodau angenrheidiol cyn i'r datblygiad ddechrau, gan atal unrhyw achosion o dorri amodau a'r angen am gamau gorfodi;
- Sicrhau eglurder mewn perthynas â'r caniatâd sy'n cael ei roi ar waith, yn enwedig lle bo gan un datblygiad sawl caniatâd gwahanol.

6.121 Byddai'r newidiadau hyn yn gwella'r system rheoli datblygu drwy roi mwy o eglurder, tryloywder a sicrwydd i bob rhanddeiliad, gan gynnwys cymunedau lleol.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

6.122 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Hysbysiad Dechrau Datblygiad eu cynnwys yn Adran 26 o'r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 26 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 drwy fewnosod adran 71ZB newydd, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch dyddiad dechrau'r datblygiad a manylion y caniatâd cynllunio sydd i'w weithredu. Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr arddangos ar safle'r datblygiad, neu gerllaw iddo, hysbysiad o benderfyniad i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw.
- Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn datblygu, i bennu i ba gategorïau o ganiatâd cynllunio y bydd y darpariaethau'n berthnasol iddynt, ynghyd â diwyg hysbysiadau o'r fath a'r manylion i'w cynnwys ynddynt.
- Bernir bod y caniatâd cynllunio yn cael ei roi, yn ddarostyngedig i'r amod bod yn rhaid cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, lle y bo hynny'n berthnasol, bod hysbysiadau o benderfyniad yn nodi'r dyletswyddau hynny sydd i'w cyflawni gan ddatblygwr.

## Diwygio caniatâd cynllunio

**Yr achos dros newid**

6.123 Ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi, gall fod angen diwygio'r cynllun er mwyn ystyried newidiadau wrth i'r broses ddylunio a datblygu fynd rhagddi. Mae'r newidiadau hyn yn aml yn fach o ran eu natur ac nid ydynt yn cyfiawnhau ailgyflwyno'r cynllun cyfan i'r ACLl. Gall y diwygiadau fod naill ai'n ddiwygiadau amherthnasol neu'n fân ddiwygiadau perthnasol.

6.124 Yr hyn a olygir wrth ddiwygiad amherthasol yw gwelliant nad yw'n cael effaith sylweddol ar y datblygiad ond mae mân ddiwygiad perthnasol yn newid sy'n cael effaith berthnasol ar y datblygiad, ond ystyrir mai bach yw'r effaith honno. Bydd perthnasedd a maint yr effaith yn dibynnu ar y newid arfaethedig, ar natur a maint y datblygiad, ac ar gyd-destun y cynllun yn gyffredinol.

Diwygiadau amherthnasol

6.125 Nid oes unrhyw broses ffurfiol ar gyfer cymeradwyo'r mathau hyn o ddiwygiadau, ac mae hynny'n arwain at anghysondeb ar draws ACLlau. Mae rhai ACLlau yn barod i gymeradwyo diwygiadau mewn ffordd anffurfiol drwy lythyr, tra bo ACLlau eraill yn fwy gofalus ac yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cais cynllunio newydd er mwyn gwneud newidiadau cymharol fach i'r datblygiad a gymeradwywyd.

Mân ddiwygiadau perthnasol

6.126 Mae gweithdrefn eisoes o dan Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n caniatáu i ddatblygwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio i wneud mân ddiwygiadau perthnasol i ganiatadau sy'n bodoli eisoes drwy ddiddymu neu amrywio amodau. Fodd bynnag, er mwyn gwneud mân ddiwygiadau perthnasol drwy gais Adran 73, mae angen bod amod berthnasol ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio gwreiddiol. Nid oes darpariaeth statudol ar hyn o bryd i sicrhau bod ACLlau yn darparu amod o’r fath, gan atal ceisiadau rhag cael eu gwneud o dan adran 73.

6.127 Mae'r ansicrwydd a'r dryswch o ran y ffordd briodol o ymdrin â diwygiadau bach i gynllun sy'n bodoli eisoes yn arwain at rwystredigaeth, at wastraffu amser ac at gostau uwch i ddatblygwyr ac i ACLlau.

6.128 Noda adroddiadau'r GCA a GVA Grimley fod angen symleiddio'r broses o ddiwygio caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes drwy:

- Gyflwyno gweithdrefn lle y gellir gwneud diwygiadau amherthnasol i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes;
- Darparu gweithdrefn fwy effeithiol na'r weithdrefn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gwneud mân ddiwygiadau perthnasol i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes.

**Ein cynigion**

Diwygiadau amherthnasol

6.129 Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno gweithdrefn statudol a fydd yn caniatáu i ddatblygwyr wneud cais i wneud diwygiadau amherthnasol i ganiatadau cynllunio ac yn rhoi sicrwydd i ACLlau y gallant gytuno i newidiadau o'r fath. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach eleni am y modd yr ydym yn bwriadu gweithredu yn hyn o beth: "Diwygiadau ansylweddol i ganiatadau cynllunio". Yn yr ymgynghoriad hwnnw, cynigiwyd y dylid gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i Adran 96A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, sy'n galluogi ACLlau i gymeradwyo diwygiadau amherthnaso i ganiatadau mewn perthynas â Chymru. Dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chaiff trefniadau cychwyn eu rhoi ar waith ar wahân i Fil Cynllunio (Cymru).

Mân ddiwygiadau perthnasol

6.130 Mae’r cynigion ar gyfer hysbysiadau o benderfyniad, sydd i’w gweld ym mharagraff 6.115, yn cyflwyno ffurf newydd ar hysbysiad o benderfyniad a fydd yn nodi’r cynlluniau a’r dogfennau sy’n gysylltiedig â’r caniatâd. Bydd rhestru’r cynlluniau a’r dogfennau a gaiff eu cymeradwyo gan y caniatâd yn sicrhau y bydd modd gwneud mân ddiwygiadau perthnasol i ganiatadau cynllunio sydd eisoes yn bod gan ddefnyddio cais o dan Adran 73.

**Y ddeddfwriaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno**

6.131 Caiff ein cynigion o ran deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â Hysbysiadau Penderfyniad eu cynnwys yn Adran 25 o’r Bil drafft. Yn fyr:

- Mae Adran 25 yn diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 drwy fewnosod adran 71ZA newydd, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn datblygu, i bennu diwyg hysbysiadau o benderfyniad, y dull o'u cyflwyno, ynghyd â'r manylion i'w cynnwys ynddynt;
- Mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynlluniau a dogfennau sy'n rhan o ganiatâd cynllunio (y mae'n rhaid i'r datblygiad gael ei wneud yn unol â hwy) gael eu pennu yn yr hysbysiad o benderfyniad;
- Tybir y bydd y caniatâd cynllunio wedi ei roi ar yr amod bod yn rhaid gwneud y datblygiad yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a bennir yn yr hysbysiad o benderfyniad;
- Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benderfyniad i bersonau a bennir mewn gorchymyn datblygu, lle y bônt wedi rhoi unrhyw ganiatâd, cytundeb, neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn sgil amod neu gyfyngiad a osodir ar ganiatâd cynllunio neu lle y bônt wedi gosod, dileu neu addasu amod neu gyfyngiad ar ganiatâd cynllunio.
- Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn gorchymyn datblygu y manylion i'w cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o'r hysbysiad o benderfyniad.
- Mae'r ddarpariaeth yn gymwys i hysbysiadau o benderfyniad i roi caniatâd cynllunio a gaiff eu rhoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru (er enghraifft, hysbysiadau o benderfyniad a gaiff eu rhoi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag apelau cynllunio a cheisiadau cynllunio a gaiff eu cyflwyno'n uniongyrchol iddynt pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi'i ddynodi, neu ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd).

**C40. A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'u natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"?**

## Adnewyddu caniatâd cynllunio

### Yr achos dros newid

6.132 Weithiau, ni fydd datblygiad yn gallu dechrau o fewn y terfyn amser a bennwyd yn y caniatâd cynllunio gwreiddiol. O dan amgylchiadauo'r fath, gall y datblygwr geisio estyn y terfyn amser drwy wneud cais i "adnewyddu'r" caniatâd cynllunio. Mae newid diweddar mewn deddfwriaeth wedi arwain at ansicrwydd o ran sut i wneud cais i adnewyddu caniatâd cynllunio. Yn hanesyddol, gwnaed hynny drwy gyfrwng llythyr ac ar hyn o bryd, gwneir hynny drwy'r hyn y cyfeirir ato fel 'cais Adran 73'. Mae'r weithdrefn hon yn adnodd defnyddiol sy'n caniatáu hyblygrwydd, ond ni fwriadwyd erioed iddi gael ei defnyddio er mwyn adnewyddu caniatâd cynllunio. Mae, o'r herwydd, yn rhoi gofynion diangen ar ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth i ategu eu cais.

### Ein cynigion

6.133 Rydym yn cydnabod bod angen mwy o hyblygrwydd yn y system gynllunio ac rydym yn awyddus i gadw'r gallu i adnewyddu caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, rhaid i'r weithdrefn ymgeisio fod yn 'addas at y diben' a rhaid i’r gofynion sy’n gysylltiedig ag ymgeisio fod yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig a'r ystyriaethau cynllunio y mae angen eu hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

6.134 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer eisoes i wneud darpariaethau o ran ceisiadau am ganiatâd cynllunio a gaiff eu cyflwyno i ACLlau. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno gweithdrefn newydd benodedig ar gyfer gwneud cais i estyn y terfyn amser ar gyfer gweithredu caniatâd cynllunio, a bydd gan y weithdrefn honno ei gofynion cyflwyno a'i ffi ei hun.

## Meysydd Trefi a Phentrefi

### Yr achos dros newid

6.135 Cafodd meysydd trefi a phentrefi ('meysydd') eu datblygu'n wreiddiol o dan gyfraith wrth ddefod fel darnau o dir lle y gallai pobl leol ymgymryd â chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon. Drwy wneud hynny, sefydlwyd hawliau hamdden cydnabyddedig. Gwnaeth Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ddarpariaeth ar gyfer cofrestru'r meysydd hanesyddol hyn a darparodd hefyd ar gyfer cofrestru meysydd 'newydd' ar y sail iddynt gael eu defnyddio ers 20 mlynedd 'fel mater o hawl' (hynny yw, heb ganiatâd, grym na chyfrinachedd).

6.136 Yn Natganiad Polisi Tir Comin 2002, nodwyd ymrwymiad y llywodraeth i ddeddfu er mwyn diwygio'r gyfraith o ran tiroedd comin a meysydd. Mae Deddf Tiroedd Comin 2006 yn gweithredu llawer o'r ymrwymiadau hynny, gan gynnwys sefydlu gweithdrefn ar gyfer cofrestru meysydd newydd. Unwaith y caiff tir ei gofrestru fel maes, mae’n cael ei ddiogelu rhag cynigion datblygu, ni waeth a oes unrhyw ganiatâd cynllunio presennol ar ei gyfer ar y pryd neu wedyn.

6.137 Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd i Adolygiad Penfold yn Lloegr, gallai'r broses gofrestru ychwanegu risg ac arwain at gostau ychwanegol sylweddol, at oedi ac, o bosibl, at ailwampio'r datblygiad arfaethedig yn sylweddol neu roi'r gorau iddo'n llwyr, yn enwedig lle'r oedd caniatâd cynllunio wedi'i roi eisoes ar gyfer y tir dan sylw neu lle'r oedd cais am ganiatâd cynllunio wedi'i gyflwyno ar ei gyfer [24]. Mewn sawl achos, gwnaed ceisiadau i gofrestru tir fel maes oherwydd ystyriwyd y byddai hynny’n ffordd bosibl o atal datblygiad yn hytrach nag er mwyn diogelu darn penodol o dir. Rydym wedi cael tystiolaeth debyg yng Nghymru ac rydym o'r farn y byddai'n briodol diwygio Adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 i'w hatal rhag cael ei defnyddio i rwystro datblygiad cyfreithlon.

[24] Adolygiad Penfold

### Ein cynigion

6.138 Rydym yn cynnig y dylid diwygio Adran 15 o'r Ddeddf Tiroedd Comin er mwyn:

- Gwahardd ceisiadau rhag cael eu cyflwyno i gofrestru tir fel maes tref neu bentref lle bo'r tir hwnnw eisoes yn rhan o'r system gynllunio, hynny yw, ei fod wedi'i gynnwys mewn cynllun datblygu fel tir y gellir ei ddatblygu, wedi cael caniatâd cynllunio neu'n destun cais am ganiatâd cynllunio sydd gerbron yr ACLl;
- Galluogi tirfeddianwyr i gyflwyno datganiadau i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin. Byddai datganiadau yn cynnwys ffurflen a map ac yn golygu y byddai unrhyw ddefnydd o'r tir a nodir yn y datganiad yn anghyson â'r maen prawf 'fel mater o hawl' y mae'n ofynnol ei fodloni er mwyn cofrestru tir fel maes tref neu bentref.

6.139 Rydym yn derbyn y gellid ystyried bod hyn yn cyfyngu ar allu pobl i wneud cais i gofrestru tir fel maes ond ni fyddai ond yn berthnasol lle y bo'r defnydd y dylid ei wneud o'r tir wedi bod drwy'r prosesau cynllunio statudol neu'n mynd drwyddynt ar y pryd. Mae'r prosesau hynny'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n rhan o'r broses o baratoi cynllun datblygu ac o ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Bydd y prosesau hyn yn rhoi cyfle i bobl gyflwyno unrhyw ddadleuon a allai fod ganddynt ynghylch defnyddio'r tir dan sylw at ddibenion maes tref neu bentref. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau hyn, os bydd pobl o'r farn bod tir yn eu hardal leol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei ddynodi fel maes tref neu bentref, byddai hawl ganddynt i wneud cais yn y ffordd arferol iddo gael ei gofrestru.

6.140 Rydym yn fodlon y byddai hyn yn sicrhau cydbwysedd derbyniol rhwng cynnal yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel meysydd a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr o ran cyflwyno datblygiadau.

**C 41. A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel Meysydd Tref a Phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr?**

## Gorfodi

### Yr achos dros newid

6.141 Mae system rheoli datblygu effeithiol yn gofyn am gamau gorfodi cymesur ac amserol er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd yn y system gynllunio ond hefyd er mwyn atal datblygiadau a fyddai'n tanseilio'r broses o gyflawni amcanion cynlluniau datblygu.

6.142 Yn ôl casgliadau adolygiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i gamau gorfodi, mae'r system, er ei bod yn sylfaenol gadarn, y gall ei chael yn anodd sicrhau camau gweithredu ystyrlon a phrydlon yn erbyn achosion o dorri rheolaethau cynllunio. Gall y system hefyd fod yn ddryslyd a pheri

rhwystredigaeth i achwynwyr, yn benodol felly oherwydd bod troseddwyr sy’n deall y system yn mynd ati’n fwriadol i achosi oedi i gamau gorfodi drwy fanteisio ar elfennau amwys yn y broses bresennol.

**Ein cynigion**

6.143 Rydym yn bwriadu cyflwyno cyfres o newidiadau i wella perfformiad y broses gorfodi, a fydd yn cael eu hategu gan hyfforddiant a chanllawiau priodol. Mae ein cynigion yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno hysbysiadau atal dros dro: ffordd o sicrhau camau gweithredu effeithiol a phrydlon, gan alluogi ACLlau i atal achosion o dorri rheolaethau cynllunio ar unwaith am hyd at 28 diwrnod, heb unrhyw hawl i apelio;
- Newid teitl 'Hysbysiadau Cwblhau' A.94 i 'Hysbysiadau Terfynu' er mwyn sicrhau gwell eglurder ac adlewyrchu eu rôl yn y system;
- Rhoi'r pŵer i ACLlau ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ceisiadau cynllunio ôl-weithredol fel y bo modd rheoleiddio datblygiad nas awdurdodwyd a'i reoli drwy ddefnyddio amodau cynllunio;
- Rhoi'r pŵer i ACLlau wrthod gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio ôl-weithredol ar gyfer datblygiad sy'n destun hysbysiad gorfodi – bydd hyn yn gorfodi'r datblygwr i apelio yn unol â sail (a) os yw am sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad nas awdurdodwyd;
- Dileu'r gallu i apelio yn unol â sail (a) os cadarnhawyd penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio eisoes ar apêl;
- Dileu'r gallu i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ôl-weithredol lle mae sail a) wedi methu;
- Trosglwyddo cyfrifoldeb dros wneud penderfyniad ar apelau adran 215 (hysbysiadau tir diolwg) oddi wrth Ynadon i Weinidogion Cymru.

6.144 Rydym yn bwriadu cyflwyno Hysbysiadau Atal Dros Dro, drwy gychwyn Rhan 4, Adran 52 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

6.145 Nid yw’r mesurau hyn wedi’u cynnwys yn y Bil drafft. Yn ddarostyngedig i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu eu cynnwys o fewn y bil pan gaiff ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**C42. A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau’r oedi o fewn y system gorfodi cynllunio?**

**C43. A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru?**

## Ffioedd ac Adnoddau

### Cefndir

6.146 Rydym yn cydnabod yr heriau a wynebir wrth ddarparu gwasanaeth cynllunio lleol da. Mae cyllid llywodraeth leol yn debygol o fod yn brin am gryn amser, felly mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd newydd o drefnu gwasanaethau er mwyn darparu mwy gan ddefnyddio llai.

6.147 Mae'r amodau economaidd diweddar wedi arwain at ostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio ac at ostyngiad mewn ffioedd cynllunio yn sgil hynny. Yn 2006/07, cyflwynwyd 37,000 o geisiadau cynllunio; yn fwy diweddar, gwelwyd cyfartaledd o 22,000 y flwyddyn. Felly bu'n anodd i sawl awdurdod gadw'r un lefelau staff, gan ei gwneud hi'n anodd iddynt gadw staff arbenigol. Ni chodwyd ffioedd cynllunio ers 2009 ac felly mae ACLlau wedi datgan nad yw'r lefelau ffioedd presennol yn llwyddo i adennill costau prosesu'r ceisiadau yn llawn.

6.148 Mae'r cynnig i ehangu hawliau datblygu a ganiateir y cyfeirir ato ym mharagraffau 4.51 - 4.53 yn golygu y bydd incwm ffioedd i ACLlau yn lleihau ymhellach. O’r herwydd, byddai'n briodol cynnal adolygiad o lefelau ffioedd cynllunio.

6.149 Mae ein cynigion ar gyfer ffioedd yn adlewyrchu camau gwahanol y broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio a'r mathau gwahanol o geisiadau. Nodir ein cynigion ar gyfer cyngor cyn ymgeisio ym mharagraffau 6.62 - 6.76 a nodir ein cynigion ar gyfer ceisiadau am dDatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd ym mharagraffau 4.62 - 4.64. Nodir ein cynigion ar gyfer pob cais cynllunio arall a’r ffioedd cysylltiedig sy’n rhan o’r system ganiatáu yn yr adrannau canlynol.

## Ffioedd Ceisiadau Cynllunio

### Yr achos dros newid

6.150 Yn ddiweddar, cyflwynodd ACLlau dystiolaeth i Lywodraeth Cymru am gost darparu eu gwasanaeth rheoli datblygu o gymharu â'r incwm a ddaw i law drwy ffioedd. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon fel sail ar gyfer ymgynghori ar ein cynigion manwl ar gyfer ffioedd, y byddwn yn eu cyhoeddi ar wahân. Bydd y materion yr ymdrinnir â hwy yn yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- P'un ai a ddylid cyflwyno cynnydd cyffredinol mewn ffioedd ceisiadau cynllunio;
- Ehangu cwmpas ffioedd i gynnwys, er enghraifft, cyflawni amodau;
- Newid y ffordd y caiff y ffi ar gyfer ceisiadau ynni adnewyddadwy ei chyfrifo.

6.151 Fel y bo modd rhoi canlyniadau'r ymgynghoriad ar ffioedd ceisiadau cynllunio ar waith, rydym yn bwriadu cychwyn adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd yr adran honno’n disodli A 303 o Ddeddf 1990.

# Pennod 7 - Effeithiau Ariannol

7.1 Yn gyffredinol, ni ddylai'r gyfres gynhwysfawr hon o ddiwygiadau arwain at gostau ychwanegol i'r gwasanaeth cynllunio yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd rhai costau yn cael eu hailddosbarthu rhwng Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) a datblygwyr, yn enwedig o ran ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd, cyngor cyn ymgeisio a gwaith ymgysylltu cyn ymgeisio. Pan gyflwynir Bil Cynllunio (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol, caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r manteision a'r costau ei gyflwyno ar yr un pryd.

7.2 Nodwn isod rai arbedion a chostau a allai godi ar gyfer y canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau cynllunio lleol
- Datblygwyr
- Ymgyngoreion statudol

***Llywodraeth Cymru***

7.3 Dyma’r diwygiadau a fydd yn arwain at yr arbedion mwyaf i Lywodraeth Cymru:

- Arbedion uwch posibl i Weinidogion Cymru o fedru adennill costau y byddant yn mynd iddynt pan gaiff apêl ei chyflwyno.

7.4 Dyma'r diwygiadau a fydd yn arwain at y costau newydd mwyaf i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru:

- Paratoi a monitro Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Cymru i ddisodli Cynllun Gofodol Cymru.
- Prosesu ceisiadau cynllunio sy'n rhan o'r categori Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd, gan gynnwys y camau cyn ymgeisio; er yr ystyrir y bydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd cyffredinol i'r system gynllunio yng Nghymru ac yn lleihau'r baich ar ACLlau o ran ceisiadau cynllunio. Caiff y costau a ddaw i ran Gweinidogion Cymru eu hadennill drwy'r ffi ceisiadau cynllunio;
- Ni fydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â sefydlu gwasanaeth cynghori a gwella cynllunio o fewn Llywodraeth Cymru oherwydd y bydd adnoddau sydd eisoes ar gael yn cael eu hailgyfeirio;
- Datblygu fframwaith perfformiad a system lle bydd gofyn i ACLlau gyflwyno adroddiadau blynyddol (mewn cydweithrediad â'r ACLlau);
- Adnoddau ychwanegol er mwyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio lle y dynodwyd bod yr ACLl yn tanberfformio. Caiff y costau a ddaw i ran Gweinidogion Cymru eu hadennill drwy'r ffi ceisiadau cynllunio, a;
- Yr adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar yr Arolygiaeth Gynllunio er mwyn chwarae rhan fwy gweithredol yn y system Apelau Cynllunio, a fydd yn cael eu gwrthbwyso gan y ffioedd a godir am apelau.

***Awdurdodau Cynllunio Lleol***

7.5 Dyma'r diwygiadau a fydd, yn ein barn ni, yn arwain at yr arbedion effeithlonrwydd mwyaf, gan ryddhau adnoddau i ACLlau eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth cynllunio:

- Bydd cyflwyno CDSau yn golygu y bydd ACLlau yn gallu ymdrin yn fwy effeithiol, ac ar raddfa uwch na graddfa leol, â materion sydd, yn aml, yn llesteirio ac yn achosi oedi i'r broses o lunio CDLlau. Dylai'r ffaith y bydd CDLlau llai manwl yn cael eu mabwysiadu'n gynt yn sgil cyflwyno'r CDSau arwain at arbedion i ACLlau o ran adnoddau. Bydd yn fodd hefyd i osgoi achosion o ddyblygu gwaith technegol ac yn gyfle i gyfuno adnoddau;
- Bydd cyflwyno Byrddau Cynllunio ar y Cyd yn arwain at arbedion ariannol i ACLlau oherwydd caiff adnoddau a gwybodaeth eu cyfuno, gan arwain at well cynaliadwyedd o fewn gwasanaethau cynllunio lleol;
- Bydd paratoi a gweithredu CDLlau ar y cyd yn arwain at arbedion i ACLlau. Dylai costau gael eu lleihau drwy osgoi achosion o ddyblygu prosesau casglu tystiolaeth a dylai hynny arwain at fabwysiadu CDLlau a fydd yn cynnwys arbedion maint;
- Bydd cyflymu'r broses o baratoi cynlluniau drwy roi polisïau rheoli datblygu cenedlaethol ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn golygu y bydd modd paratoi CDLlau byrrach a llai cymhleth;
- Bydd dileu'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio sy'n rhan o'r categori Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn dileu'r angen i brynu sgiliau neu arbenigedd i mewn i lywio penderfyniadau;
- Gwelliannau effeithlonrwydd i'r system rheoli datblygu, gan arwain at sefyllfa lle y bydd angen llai o adnoddau i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio;
- Ehangu hawliau datblygu a ganiateir ac o ganlyniad, cael gwared ar nifer o geisiadau ar gyfer mân ddatblygiadau o'r system gynllunio;
- Arbedion effeithlonrwydd i ACLlau drwy gyflwyno'r angen i sicrhau bod hysbysiadau o benderfyniadau yn gyfredol, gan arwain at lai o ddryswch i swyddogion wrth iddynt geisio canfod pa ganiatâd cynllunio yw'r un mwyaf cyfredol;
- Drwy ei gwneud yn ofynnol i ymgyngoreion gyflwyno sylwadau o sylwedd am geisiadau cynllunio, bydd modd sicrhau y bydd gan y swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau fanylion am broblemau posibl, a'u bod yn glir yn eu cylch, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau'n gynt;
- Mireinio'r system orfodi drwy ddileu'r elfennau amwys sy'n golygu bod pobl yn gallu cymryd mantais o'r system ar hyn o bryd, gan olygu y bydd modd ad-drefnu adnoddau gorfodi.

7.6 Bydd rhai costau newydd hefyd yn dod i ran ACLlau:

- Bydd angen mwy o adnoddau i hwyluso'r broses o ymgysylltu ynghylch cynigion datblygu yn ystod y camau cyn ymgeisio, er y cydnabyddir y caiff hyn ei wrthbwyso gan y ffaith y bydd angen llai o adnoddau wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd y corff sy'n gwneud y penderfyniad hefyd yn gallu codi tâl am y trafodaethau cyn ymgeisio;

- Cydymffurfio â fframwaith perfformiad cenedlaethol a'r system lle bydd yn ofynnol i ACLlau gyflwyno adroddiadau blynyddol ynghylch sut y byddant wedi ymgymryd â'u swyddogaethau (mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru). Ystyrir y bydd yr adnoddau a gaiff eu gwario wrth sefydlu'r elfennau hyn yn arwain at berfformiad mwy effeithiol gan ACLlau;
- Os caiff ACLl ei ddynodi fel awdurdod sy'n tanberfformio ac os bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd camau uniongyrchol drwy wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar ran ACLl, yna mae'n bosibl y bydd yr ACLl yn colli refeniw ffioedd cynllunio.

7.7 Nid yw'r asesiad hwn yn ystyried unrhyw arbedion posibl os caiff nifer yr ACLlau eu lleihau ac os caiff systemau TG eu symleiddio.

***Datblygwyr***

7.8 Cydnabyddir y bydd datblygwyr yn mynd i ychydig o gostau ychwanegol wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad. Bydd costau uwch yn gysylltiedig â rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol lle yr ymgynghorir â'r ACLl, y gymuned ac ymgyngoreion statudol cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Bydd hynny'n arwain at system lle bydd penderfyniadau ar y ceisiadau hyn yn cael eu gwneud yn gynt, gan arwain at fwy o arbedion o ran costau a mwy o sicrwydd i ddatblygwyr, gan wrthbwyso unrhyw gostau ychwanegol a gyflwynir o ganlyniad i'n cynigion.

7.9 Dyma'r arbedion effeithlonrwydd posibl eraill i ddatblygwyr:

- Dylai'r cynigion i ddiweddaru hysbysiadau o benderfyniadau yn barhaus arwain at fwy o eglurder i ddatblygwyr drwy gadarnhau'n union beth y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer;
- Bydd manteision i ddatblygwyr yn sgil cael sylwadau o sylwedd oddi wrth ymgyngoreion statudol am gynigion ar gyfer ceisiadau cynllunio, oherwydd byddant yn gallu eu hystyried wrth lunio eu cynigion, sy'n debygol o arwain at benderfyniadau cyflymach ar geisiadau cynllunio;
- Eglurder i ddatblygwyr o ran y broses o adnewyddu cais cynllunio;
- Dylai ymdrechion i wella'r broses gwneud penderfyniadau drwy gyflwyno newidiadau i'r ffordd y bydd pwyllgorau cynllunio yn gweithio arwain at benderfyniadau mwy effeithlon ar geisiadau cynllunio, gan roi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr ac arbedion posibl o ran costau;
- Dylai caniatáu i ddatblygwyr apelio yn erbyn penderfyniad ACLl i beidio â dilysu cais cynllunio olygu y bydd ACLlau yn llai tebygol o ychwanegu at y costau a godir ar ddatblygwyr er mwyn dilysu cais cynllunio (er enghraifft, paratoi astudiaethau nad oes eu hangen);
- Dylai cyflwyno gweithdrefn newydd fwy effeithiol ar gyfer gwneud mân ddiwygiadau perthnasol i gais cynllunio sy'n bodoli eisoes leihau ansicrwydd a chostau i ddatblygwyr wrth wneud diwygiadau o'r fath;
- Penderfyniadau mwy amserol ar gynigion datblygu lle nad yw ACLl yn perfformio mewn perthynas â'i swyddogaeth gynllunio, oherwydd bydd datblygwyr yn gallu cyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru;
- Mwy o sicrwydd i ddatblygwyr yn sgil cyflwyno system apelau gyflymach a fwy tryloyw.

7.10 Dyma'r costau posibl i ddatblygwyr:

- Bydd angen i ddatblygwyr ddefnyddio mwy o adnoddau o ganlyniad i’r gofynion ychwanegol a fydd yn pennu y bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddarparu manylion hysbysu wrth weithredu caniatâd cynllunio; fodd bynnag, bernir y bydd y mesur hwn yn fodd i roi mwy o eglurder ynghylch y caniatâd sy'n cael ei weithredu i bob parti sydd â diddordeb yn y datblygiad.

***Ymgyngoreion Statudol***

7.11 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 6, bydd ein cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyngoreion statudol ddarparu ymatebion o sylwedd i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio ac adroddiadau ar eu perfformiad i Weinidogion Cymru. Mae ein cynigion yn adlewyrchu’r arferion gorau ar hyn o bryd a gellir gwireddu’r cynigion hynny drwy gyflwyno arferion gwaith effeithlon lle nad ydynt yn bodoli eisoes.

Rhif: **WG20088**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynllunio Cadarnhaol

Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

## Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Atodiad B – Dosbarthiadau Ceisiadau Cynllunio - Trothwyon a Meini Prawf

Atodiad C – Poblogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn 2011

Atodiad Ch – Llyfryddiaeth

Atodiad D – Byrfoddau

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2013

# Fframwaith Monitro ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Cynllunio Lleol

**Cyflwyniad**
Ym Mhennod 6, rydym yn nodi ein cynnig ar gyfer Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB). Mae'r atodiad hwn yn nodi ein hymagwedd arfaethedig tuag at ddatblygu, mewn cydweithrediad ag ACLlau, fframwaith perfformiad a system ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol, gan gynnwys y dangosyddion y mae angen eu mesur. Byddai'r fframwaith perfformiad yn gweithredu ochr yn ochr â'r dangosyddion cenedlaethol sy'n bodoli eisoes ar gyfer rheoli datblygiadau a datblygu cynaliadwy a'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a gaiff ei lunio gan awdurdod i fonitro'r broses o roi ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar waith. Byddai'r tair set data gyda'i gilydd yn disgrifio'r perfformiad a'r canlyniadau polisi a gaiff eu cyflawni o fewn ardal pob awdurdod cynllunio lleol. Diben casglu'r wybodaeth hon yw creu diwylliant o hunan-wella, er mwyn i ACLlau allu nodi camau gweithredu y gallant eu cymryd i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Argymhellodd y Grŵp Cynghori Annibynnol (GCA) y dylai pob awdurdod cynllunio lleol (ACLl) lunio proses ffurfiol ar gyfer cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol, yn unol â safon gyson a gaiff ei phennu gan Lywodraeth Cymru. Argymhellodd y Grŵp hefyd y dylid ymgynghori ar y fformat a chyfeiriodd at waith Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a gwaith tebyg gan Lywodraeth yr Alban. Argymhellodd Adroddiad y GCA hefyd gymhellion ar gyfer darpariaeth dda ond cydnabu'r angen am gosbau mewn achosion pan fetho popeth arall.

Credwn y gall trefniadau ar gyfer rhannu arfer da ar draws awdurdodau arwain at welliant, annog arloesedd a chyfleoedd i rannu arfer da, gan ategu newid diwylliannol ac arwain at well gwasanaethau yn gyffredinol. Yn ei dro, gall hyn arwain at fwy o ymddiriedaeth a hyder yn y system gan yr amrywiaeth eang o fuddiannau sy'n defnyddio'r system gynllunio ac y mae'r system gynllunio yn effeithio arnynt, o ymgeiswyr a datblygwyr i gyrff cyhoeddus, grwpiau diddordeb a chymunedau.

**Y Fframwaith Adroddiadau Perfformiad Blynyddol (APB)**
O ran yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan awdurdod cynllunio lleol da o ran perfformiad gwasanaethau, rydym o'r farn bod cytundeb bras y dylid cynnwys y prif fesurau canlynol mewn Fframwaith Perfformiad Blynyddol:

- CDLl mabwysiedig ar waith a gaiff ei fonitro'n rheolaidd;
- Cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai;
- Gwasanaeth rheoli datblygiadau o ansawdd a gaiff ei ddarparu mewn modd amserol
- Hyder cwsmeriaid yn y gwasanaeth cynllunio
- Gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n darparu gwerth am arian

Mae'n bwysig deall cyd-destun y prif fesurau hyn er mwyn egluro perfformiad awdurdod o ran darparu gwasanaethau. Felly, cynigir amrywiaeth o

ddangosyddion ategol i lywio dealltwriaeth o'r gwasanaeth cynllunio, o dan y themâu canlynol:

- Llunio cynlluniau;
- Gwneud penderfyniadau;
    - Effeithlonrwydd;
    - Ansawdd;
    - Ymgysylltu;
    - Gorfodi.

Mae ein dangosyddion arfaethedig a nodir isod yn uchelgeisiol ond rydym o'r farn y gellir eu cyflawni, er mwyn sicrhau y gallwn weld gwelliannau o ran perfformiad dros amser ledled Cymru. Fe'u drafftiwyd er mwyn sicrhau y byddai ymateb cadarnhaol i bob cwestiwn yn cyfleu arfer da o fewn y thema honno. Dylai pob ACLl anelu at ateb yn gadarnhaol i bob dangosydd a restrir.

Rhagwelir dull gweithredu tair haen. Lle bo awdurdodau yn bodloni'r disgrifiad o awdurdod cynllunio da a nodir yn y fframwaith, boed hynny'n llwyr neu'n rhannol, dylent fod yn rhannu eu profiadau gydag awdurdodau nad ydynt yn perfformio cystal ac yn annog yr awdurdodau hynny. Lle bo awdurdodau yn methu â bodloni'r disgrifiad o awdurdod cynllunio da mewn rhai meysydd neu'r holl feysydd, dylent fod yn anelu at newid eu trefniadau gweithio er mwyn gwella eu perfformiad. Bydd angen i awdurdodau y mae eu perfformiad yn methu'n gyson â bodloni'r disgrifiad o awdurdod cynllunio da roi trefniadau ffurfiol ar waith i wella eu perfformiad a gellir pennu mesurau arbennig ar eu cyfer, fel y rheini a ddisgrifir ym Mhennod 6 (ee ceisiadau uniongyrchol i Weinidogion Cymru).

**Gwella perfformiad**

Bydd gan y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio a amlinellir ym Mhennod 3 ran bwysig i'w chwarae wrth helpu ACLlau i wella eu perfformiad wrth iddynt anelu at fod yn awdurdod cynllunio da. Fodd bynnag, bydd yr APB yn darparu meincnod hollbwysig i awdurdodau gynnal hunanwerthusiadau rheolaidd, sy'n hanfodol er mwyn hyrwyddo newid mewn diwylliant a hunanwelliant. Dros amser, nod y fframwaith APB newydd yw dangos gwelliant eang a chyson o ran perfformiad ar draws awdurdodau cynllunio lleol.

**Casglu Gwybodaeth am Berfformiad**

Rydym eisoes yn casglu ac yn cyhoeddi mesurau perfformiad allweddol. Dylai ehangu'r broses hon i gynnwys y dangosyddion APB alluogi awdurdodau a defnyddwyr i gymharu cynnydd dros amser ac i nodi amrywiadau o ran perfformiad o fewn awdurdodau cynllunio a rhwng awdurdodau cynllunio.

Rydym yn awyddus i ddefnyddio technoleg newydd er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl, er mwyn moderneiddio a symleiddio'r ffordd y caiff gwybodaeth am berfformiad ei chasglu gan awdurdodau cynllunio lleol, gan anelu at broses casglu a chyhoeddi awtomatig drwy adeiladu ar y newidiadau diweddar sy'n mynd rhagddynt i'r broses o gasglu ystadegau rheoli datblygiadau a datblygu cynaliadwy ym maes cynllunio. Y nod yw rhoi system fwy tryloyw ar waith sy'n rhoi llai o faich ar awdurdodau unigol.

**Fframwaith Monitro ac**
**Adroddiadau Perfformiad Blynyddol Ymgynghoreion Statudol**

Bwriedir ei gwneud yn ofynnol i ymgynghoreion statudol gyhoeddi adroddiadau perfformiad blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau a osodwyd arnynt h.y. terfyn amser ar gyfer ymateb sylweddol drwy'r Bil.

Nodir manylion ar ffurf a chynnwys yr adroddiadau yn y Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (DMPO) ond maent yn debygol o gynnwys o leiaf y canlynol:

- nifer y ceisiadau a gafwyd am ymgynghoriad,
- y nifer yr ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser statudol.

Bydd yn rhaid darparu'r wybodaeth hon ar gyfer gwahanol fathau o ymgynghoriadau:

- y rheini sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio,
- y rheini sy'n gysylltiedig â cheisiadau i gyflawni amodau,
- materion a gadwyd yn ôl.

**TABL 1: THEMÂU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD ARFAETHEDIG**
**Beth sy'n Gwneud Awdurdod Cynllunio Da**

## Llunio Cynlluniau

Dangosyddion arfaethedig:

- A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith sydd o fewn cyfnod y cynllun?
- A yw'r CDLl wedi'i baratoi o fewn 18 mis i'r dyddiad a bennwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol?
- A luniwyd Adroddiadau Monitro Blynyddol ers mabwysiadu'r CDLl?
- A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol Gynllun Integredig Sengl (Strategaeth Gymunedol)/Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
- A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol gyflenwad o dir ar gyfer tai o bum mlynedd o leiaf?

## Gwneud Penderfyniadau

### Effeithlonrwydd

Dangosyddion arfaethedig:

A yw canran y

- Ceisiadau a gaiff eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig yn uwch na 90%?
- Ceisiadau AEA a gaiff eu penderfynu o fewn 16 wythnos yn uwch nag 80%?
- Ceisiadau am ddatblygiadau mawr (ceisiadau nad ydynt yn geisiadau AEA) a gaiff eu penderfynu o fewn wyth wythnos yn uwch nag 80%?
- Ceisiadau am ddatblygiadau lleol (ceisiadau nad ydynt yn geisiadau AEA) a gaiff eu penderfynu o fewn wyth wythnos yn uwch nag 80%?
- Ceisiadau am ganiatadau eraill (ceisiadau nad ydynt yn geisiadau AEA) a gaiff eu penderfynu o fewn wyth wythnos yn uwch nag 80%?
- Ceisiadau cynllunio a gyflwynir drwy'r Porth Cynllunio yn uwch na 40%?

### Ansawdd

Dangosyddion arfaethedig:

- A yw canran y penderfyniadau gan Aelodau sy'n groes i gyngor swyddogion yn is na 2% o'r holl benderfyniadau a wneir gan yr ACLl?
- A gaiff mwy na dwy ran o dair o'r apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod cais eu hamddiffyn yn llwyddiannus?
- A lwyddwyd i osgoi costau adeg apêl?
- A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol gynllun gwella gwasanaethau cyfredol ac a yw'n cydymffurfio â'r cynllun hwnnw?

**Ymgysylltu**

Dangosyddion arfaethedig:

- A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnig gwasanaeth cyn-ymgeisio y tu hwnt i'r isafswm statudol?
- A oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd gan yr awdurdod cynllunio lleol i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd?
- A yw gwefan yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnwys cronfa ddata o geisiadau cynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd ei gweld, olrhain eu cynnydd a gweld eu cynnwys?
- A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal grŵp ffocws cwsmeriaid ffurfiol i wahodd adborth gan ymgeiswyr a rhanddeiliaid?
- A yw'r ACLl yn rhoi trefniadau hysbysu ar waith uwchlaw'r gofynion statudol?

**Gorfodi**

Dangosyddion arfaethedig:

- A yw canran yr achosion gorfodi yr ymchwilir iddynt (penderfynu p'un a fu achos o dorri rheolaeth gynllunio ac, os felly, penderfynu p'un a ddylid cymryd camau gorfodi ai peidio) o fewn 84 diwrnod yn uwch nag 80%?
- A gaiff camau gorfodi eu cymryd neu a geir cais ôl-weithredol mewn 80% o'r achosion o fewn 180 o ddiwrnodau o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle y penderfynwyd y dylid cymryd camau gorfodi)?
- A yw’r awdurdod wedi bodloni’r targedau o ran perfformiad a nodwyd yn ei bolisi gorfodi?

Atodiad B

# Dosbarthiadau Ceisiadau Cynllunio - Trothwyon a Meini Prawf

## Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd (DNS)

Rhestrir y categorïau a'r trothwyon arfaethedig isod.

| **Math o Gais** | **Trothwy** |
|---|---|
| Cyfleusterau Storio Nwy Tanddaearol nas adeiladwyd gan gwmni cludo nwy, at ddibenion storio nwy o dan y ddaear mewn ceudodau neu strata anhydraidd | Capasiti gweithio o 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu uchafswm cyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd. |
| Newid unrhyw fath o gyfleuster storio nwy tanddaearol | Capasiti gweithio o 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu uchafswm cyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd. |
| Cyfleusterau Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) | Capasiti storio o 43 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu uchafswm cyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf y dydd. |
| Cyfleusterau Derbyn Nwy | Lle y disgwylir y bydd yr uchafswm cyfradd llif yn fwy na 4.5 miliwn o fetrau ciwbig safonol y dydd. |
| Piblinellau a adeiladwyd gan Gwmni Cludo Nwy | Piblinellau a adeiladwyd gan Gwmni Cludo Nwy sydd:<br><br>• yn fwy na 800 milimetr mewn diamedr ac yn fwy na 40 kilometr o hyd neu y byddent yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd;<br>• â phwysedd gweithredu wedi'i ddylunio o fwy na 7 lled bar;<br>• cludo nwy i'w gyflenwi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i o leiaf 50,000 o gwsmeriaid, neu ddarpar gwsmeriaid, un cyflenwr nwy neu fwy. |
| Gwaith datblygu ac adeiladu sy'n gysylltiedig â maes awyr | Cynyddu'r capasiti o 10 miliwn o deithwyr y flwyddyn, neu dros 10,000 o achosion o gludo nwyddau drwy'r awyr y flwyddyn. |
| Cyfleusterau harbwr | Yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau amlwyth: unrhyw beth islaw 500,000 TEU;<br><br>Yn achos llongau 'ro-ro': unrhyw beth islaw 250,000 o unedau;<br><br>Yn achos cyfleusterau ar gyfer llongau cargo o unrhyw ddisgrifiad arall, unrhyw beth islaw 5 miliwn o dunelli. |

| | |
|---|---|
| | Yn achos trothwyon cymysg, yr effeithiau cronnol sydd o fewn yr uchod ond heb fod yn uwch (caiff unrhyw beth uwch ei benderfynu o dan y gyfundrefn Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP) yng Nghymru).<br><br>Mae'r uchod yn berthnasol onid yw'n 'ddatblygiad a ganiateir' o dan Ddosbarthiadau B a D o Ran 17 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995. |
| Rheilffyrdd | Gwaith i'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol nas cwmpesir gan hawliau datblygu a ganiateir (fel y'u cynhwysir yn Erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995); gwaith sydd ar hyd parhaus o fwy na 2 kilometr, nad yw ar dir a oedd naill ai'n dir gweithredol yn perthyn i gwmni rheilffordd yn union cyn i'r gwaith ddechrau neu sydd ar dir a gaffaelwyd yn gynharach at ddibenion y gwaith. Nid yw hyn yn cynnwys gwaith a gynhelir ar dir gweithredol yn perthyn i gwmni rheilffordd oni chaffaelwyd y tir hwnnw at ddiben y gwaith hwnnw. |
| Cyfnewidfeydd rheilffyrdd nwyddau | Cyfnewidfeydd sy'n cwmpasu o leiaf 60 hectar a lle yr ymdrinnir ag o leiaf bedwar trên nwyddau bob dydd. |
| Argaeau a chronfeydd dŵr | Yn gallu dal neu storio mwy na 10 miliwn o fetrau ciwbig o ddŵr. |
| Trosglwyddo adnoddau dŵr | Yn gallu trosglwyddo mwy na 100 miliwn o fetrau ciwbig o ddŵr y flwyddyn. |
| Safle trin dŵr gwastraff | Yn meddu ar gapasiti uwch na'r capasiti a all ymdrin â phoblogaeth sy'n cyfateb i 500,000 o bobl. |
| Cyfleusterau gwastraff peryglus | Safleoedd tirlenwi neu storfeydd dwfn a all ymdrin â mwy na 100,000 o dunelli y flwyddyn. Yn unrhyw achos arall, cyfleusterau a all ymdrin â mwy na 30,000 o dunelli y flwyddyn. |
| Piblinellau nas adeiladwyd gan gwmni cludo nwy | Piblinell islaw 16.093 km o hyd sy'n llwyr neu'n rhannol yng Nghymru. |
| Gorsafoedd cynhyrchu (ar y tir) | Unrhyw beth rhwng 25 megawatt a |

| | |
|---|---|
| | 49 megawatt, gan gynnwys y mesuriadau hynny. |

**Datblygiadau Mawr**
Rhestrir y trothwyon a'r meini prawf cyfredol ar gyfer datblygiadau mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012/901 i Gymru. Rhestrir y trothwyon a'r meini prawf hyn isod.

| **Trothwyon a Meini Prawf ar gyfer Datblygiadau Mawr** |
|---|
| (a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau (i gael diffiniad o *“dyddodion gweithio mwynau”* gweler adran 336 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (c.8)) |
| (b) datblygu gwastraff |
| (c) darparu anhedd-dai lle—<br>(i) mae nifer yr anhedd-dai a gaiff eu darparu yn 10 neu'n fwy; neu<br>(ii) caiff y datblygiad ei godi ar safle ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac nid yw'n hysbys p'un a yw is-baragraff (c) (i) yn berthnasol i'r datblygiad. |
| (d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae arwynebedd y llawr i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 o fetrau sgwâr neu fwy |
| (e) datblygiad a godir ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy |

**Datblygiadau Lleol**

Mae datblygiad lleol yn unrhyw gynnig datblygu nad yw'n bodloni'r categorïau ar gyfer datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd a datblygiadau mawr, oni chaiff ei ddiffinio fel datblygiad a ganiateir. Diffinnir y mathau o ddatblygiad sy'n cynnwys datblygiad a ganiateir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995/418 i Gymru (fel y'i diwygiwyd) (dolenni i ddeddfwriaeth fel a ganlyn: http://www.legislation.gov.uk/uksi/1995/418/contents/made).

Atodiad B

Atodiad C

# Poblogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn 2011

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Poblogaeth yn 2011 |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 69,814 |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 33,344 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 139,178 |
| Caerffili | 178,806 |
| Caerdydd | 346,090 |
| Sir Gaerfyrddin | 183,777 |
| Ceredigion | 75,922 |
| Conwy | 115,228 |
| Sir Ddinbych | 93,734 |
| Sir y Fflint | 152,506 |
| Gwynedd | 121,874 |
| Ynys Môn | 69,751 |
| Merthyr Tudful | 58,802 |
| Sir Fynwy | 91,323 |
| Castell-nedd Port Talbot | 139,812 |
| Casnewydd | 145,736 |
| Sir Benfro | 122,439 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | 22,644 |
| Powys | 132,976 |
| Rhondda Cynon Taf | 234,410 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 25,702 |
| Abertawe | 239,023 |
| Bro Morgannwg | 126,336 |
| Torfaen | 91,075 |
| Wrecsam | 134,844 |

(Ffynhonnell data: Cyfrifiad 2011, SYG)

Atodiad C

# Llyfryddiaeth

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/8/contents

Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/10/contents

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents

Deddf Llywodraeth Cymru 2006
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Yr Alban) 1997
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/8/contents

Deddf Cynllunio 2008
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/29/contents

Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011
http://www.legislation.gov.uk/nia/2011/25/contents

## Is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/390/contents/made

Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2003/1269/contents/made

Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2003/1270/contents/made

Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawiad) (Cymru) 2003
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2003/1268/contents/made

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Lloegr) 2009
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2009/452/contents/made

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
http://www.legislation.gov.uk/uksi/1995/418/contents/made

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPO)
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/contents/made

**Papurau Ymgynghori**

Dyfodol ein gorffennol: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru
**(Treftadaeth - Dechrau'r ymgynghoriad:** 18/07/2013; **Diwedd yr ymgynghoriad:** 11/10/2013).

Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd - disgwylir iddo gael ei gyhoeddi at ddiben ymgynghori ddiwedd 2013.

**Canllawiau Cynllunio**

Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig; Cylchlythyr 03/2009 yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular2393/?skip=1&lang=cy

**Polisïau, Canllawiau a Gwaith Ymchwil arall**

Polisi Cynllunio Cymru (2012)
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

Deddf Llywodraeth Leol 1972
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/70/contents

Deddf Cydraddoldeb 2010
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

Deddf Twf a Seilwaith 2013
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/27/contents

Technical review of planning appeal procedures: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Tachwedd 2012
https://www.gov.uk/government/consultations/technical-review-of-planning-appeal-procedures

Planning Modernisation Development Management System: Report of One Year Review, Llywodraeth yr Alban, Mawrth 2011
http://www.scotland.gov.uk/Topics/Built-Environment/planning/modernising/progress/DMReview

Arolwg Boddhad Cwsmeriaid 2010-11, Dundas & Wilson, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban 2011
www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/352368/0118388.pdf

Review of the Year 2011-12: DPEA, Llywodraeth yr Alban, Awst 2012
http://www.scotland.gov.uk/Topics/Built-Environment/planning/Appeals/ourperformance/annualreviews/2011-12

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011/12: Yr Arolygiaeth Gynllunio, Mehefin 2012
www.official-documents.gov.uk/document/hc1213/hc02/0231/0231.pdf
Cynllun Busnes Cymru 2011/12: Yr Arolygiaeth Gynllunio
http://planninginspectorate.wales.gov.uk/corppubs/annualreports/6607115/;jsessionid=4528810576D869555E871709EF4434C7?skip=1&lang=cy

Gwella'r Broses Apeliadau Cynllunio: Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, 17 Awst 2011
http://wales.gov.uk/consultations/planning/planningappeals/?skip=1&lang=cy

Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru: polisi ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Rhagfyr 2005
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpswales/?skip=1&lang=cy

Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Mehefin 2006
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy

Newcastle Upon Tyne vs Ysgrifennydd Gwladol, 2009
Bernard Wheatcroft Ltd v SSE [JPL, 1982, P37]

**Adroddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth**

Cyflenwi Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirweddau sydd wedi'u Pennu'n Statudol yng Nghymru
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/statutorylandscapes/;jsessionid=53A3E64D32211BF673973D18448A5E1C?skip=1&lang=cy

Gwerthuso Cydsyniadau ar gyfer Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/evaluation-of-consenting-performance-of-renewable-energy-schemes/;jsessionid=53A3E64D32211BF673973D18448A5E1C?skip=1&lang=cy

Ymchwil i'r Adolygiad o'r System Gorfodi Cynllunio yng Nghymru
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/review-of-the-planning-enforcement-system-in-wales/;jsessionid=53A3E64D32211BF673973D18448A5E1C?skip=1&lang=cy

Ymchwil i'r Ffordd y mae Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru'n Gweithio
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/operation-of-planning-committees/;jsessionid=53A3E64D32211BF673973D18448A5E1C?skip=1&lang=cy

Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol. Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Cynghori Annibynnol, Mehefin 2012

http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/towardsawelshplanningact/?skip=1&lang=cy

Agweddau'r cyhoedd tuag at y system gynllunio yng Nghymru (2012)
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/publicattitudes/?skip=1&lang=cy

Dull Newydd o Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru (2012)
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/anewapproach/?skip=1&lang=cy

Gwerthusiad o'r Prosesau a ddefnyddir i Ddatblygu Polisi Cynllunio Cenedlaethol yng Nghymru - Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. (Awst 2007).
http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/1847052/?skip=1&lang=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cynaliadwyedd, Ymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru, Ionawr 2011
http://www.**cynulliadcymru**.org/cr-ld8373-e.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Adroddiad Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru, Mehefin 2012
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1336http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1336

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynlluniau Datblygu Lleol a ffigurau Poblogaeth/Aelwydydd (ymchwiliad)
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5273

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Rheoli Tir Cynaliadwy (ymchwiliad)
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7047

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy mewn ardaloedd o gefn gwlad. (Chwefror 2004).
http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000016803.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ymchwiliad i'r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru (ymchwiliad byw)
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6875

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ymchwiliad i ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru, Ebrill 2012

Atodiad Ch

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2043

Atodiad D

**Burfoddau**

| **Burfoddau** | **Dymor Saesneg** | **Dymor Cymraeg** |
|---|---|---|
| AMR | Annual Monitoring Report | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| AMS | Annual Monitoring Schedule | Amserlen Monitro Blynyddol |
| AONB | Areas of Outstanding Natural Beauty | Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) |
| APR | Annual Performance Report | Adroddiad Perfformiad Blynyddol |
| CAS | Commercial Appeals System | System Apeliadau Masnachol |
| CIL | Community Infrastructure Levy | Ardoll Seilwaith Cymunedol |
| CIS | Community Involvement Scheme | Cynllun Cynnwys Cymunedau |
| DAS | Design and Access Statement | Datganiad Dylunio a Mynediad |
| DM | Development Management | Rheoli Datblygu |
| DNS | Developments of National Significance | Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| EIA | Environmental Impact Assessment | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| EU | European Union | Yr Undeb Ewropeaidd (UE) |
| HAS | Householder Appeals System | System Apeliadau Deiliaid Tai |
| HRA | Habitat Regulations Assessment | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IAG | Independent Advisory Group | Grŵp Cynghori Annibynnol |
| LDP | Local Development Plan | Cynllun Datblygu Lleol |
| LIR | Local Impact Report | Adroddiad ar yr Effaith Leol |
| LPA | Local Planning Authority | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| MoU | Memorandum of Understanding | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| MPPW | Minerals Planning Policy Wales | Polisi Cynllunio Mwynau Cymru |
| NDF | National Development Framework for Wales | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru |
| NPA | National Park Authority | Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| NRW | Natural Resources Wales | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Nationally Significant Infrastructure Projects | Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd |
| PAIS | Planning Advisory and Improvement Service | Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio |
| PIF | Planning Improvement Fund | Cronfa Gwella Cynllunio |
| PINS | Planning Inspectorate (Wales) | Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) |
| POSW | Planning Officers Society Wales | Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru |

Atodiad D

| | | |
|---|---|---|
| PPW | Planning Policy Wales | Polisi Cynllunio Cymru |
| RIA | Regulatory Impact Assessment | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| SEA | Strategic Environmental Assessment | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SDP | Strategic Development Plan | Cynllun Datblygu Strategol |
| SPC | Statement of Pre-Application Consultation | Datganiad am yr Ymgynghori Cyn Ymgeisio |
| SPE | Statement of Pre-Application Engagement | Datganiad am yr Ymgysylltu Cyn Ymgeisio |
| SPG | Supplementary Planning Guidance | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| SA | Sustainability Appraisal | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| SD | Sustainable Development | Datblygu Cynaliadwy |
| TAN | Technical Advice Note | Nodyn Cyngor Technegol |
| TA | Transport Assessment | Asesiad Trafnidiaeth |
| WIIP | Wales Infrastructure Investment Plan | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru |
| WSP | Wales Spatial Plan | Cynllun Gofodol Cymru |

# Datganiad Ysgrifenedig - Cynllunio Cadarnhaol: Cynllunio Cymru Well

SHARE

Diweddarwyd 04 Rhagfyr 2013

## Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi Bil Cynllunio (Cymru) drafft a phapur ategol Cynllunio Cadarnhaol sy'n nodi cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r Bil nodedig hwn yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru. Mae'n rhan allweddol o'n Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r nod yw cyflwyno system gynllunio fodern sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. I gyflawni hyn, rwyf am weld newid yn y diwylliant cynllunio, gan symud o reoleiddio datblygiadau i alluogi datblygiadau priodol a helpu i sicrhau'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith sydd eu hangen ar genedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Bil drafft a'r papur ymgynghori wedi cael eu llywio gan sail dystiolaeth gynhwysfawr a sgyrsiau manwl â defnyddwyr y system gynllunio. Mae'r rhaglen newid sylweddol rwy'n bwriadu ei gweithredu yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ac adolygiad o bolisi a chanllawiau. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglen yn datblygu ac yn adeiladu ar lawer o'r argymhellion o'r adroddiad Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol a baratowyd ar ein cyfer gan y Grŵp Cynghori Annibynnol, wedi'i gadeirio gan John Davies MBE.

Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) drafft a'r papur ymgynghori yn manteisio ar y difidend datganoli. Maent yn cynnig diweddaru strwythurau er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n cadarnhau ein dull gweithredu gwahanol ac sy'n gwbl ymatebol i anghenion ein gwlad. Gyda'i gilydd, maent yn ailddiffinio priod rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio ac maent yn ategu'r gwaith a wneir gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynigir rhoi mwy o rôl i Weinidogion Cymru drwy baratoi cynllun datblygu cenedlaethol a gwneud penderfyniadau uniongyrchol am ddatblygiadau sydd o bwys cenedlaethol, gan gynnwys prosiectau ynni sydd rhwng 25 a 50 megawat. Am y tro cyntaf yng Nghymru, cynigir fframwaith statudol ar gyfer gwaith cynllunio strategol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â materion sy'n bwysig y tu hwnt i lefel leol, fel cyflenwad tai. Byddwn hefyd yn mireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o'r rhai a fabwysiadwyd yn llwyddiannus hyd yma.

Er mwyn gwella prosesau cydweithredu lleol, caiff pwerau presennol eu trawsnewid fel bod modd i awdurdodau cynllunio lleol gael eu huno i greu cyrff mwy o faint a mwy gwydn a all gael gafael ar ystod ehangach o sgiliau arbenigol.

Caiff effeithiolrwydd a chysondeb gwasanaethau cynllunio lleol eu gwella drwy wneud gwelliannau i weithdrefnau rheoli datblygiadau, gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar broses gychwynnol ceisiadau cynllunio, cynnwys y gymuned yn fwy a diwygio gweithdrefnau pwyllgorau cynllunio.

Elfen bwysig o'n cynigion yw cyflwyno systemau monitro perfformiad, sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r system gynllunio yn cael gwasanaeth cynllunio lleol da ledled Cymru. Cefnogir hyn gan sancsiynau am berfformiad gwael parhaus, gan gynnwys y gallu i gyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

Bydd y Bil drafft, y diwygiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth a'r adolygiad o bolisi a chanllawiau yn darparu fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fyddant yn cyflawni'r diwygiadau rwy'n chwilio amdanynt ar eu pen eu hunain. Law yn llaw â hwy, rhaid newid y diwylliant a meithrin yr hyder i weithio mewn ffordd newydd.

Er mwyn helpu i newid y diwylliant, rwy'n cynnig y dylid sefydlu Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Byddaf hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith cymhwysedd ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynghorwyr i bennu'r sgiliau, y wybodaeth a'r mathau o ymddygiad sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r agenda uchelgeisiol hon.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a'r papur ymgynghori yn rhedeg tan 26 Chwefror 2014. Caiff y Bil ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach yn 2014.

www.wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?lang=cy

# Bwletin WLGA am Faterion Cynllunio

## Rhagfyr 2013

**Jane Lee – jane.lee@wlga.gov.uk**

---

Ar 4ydd Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Gweinidog (Carl Sargeant) Fesur 'Cynllunio' Cymru ynghyd â phapur ymgynghori, 'Cynllunio Cadarnhaol'.

Wrth annerch Fforwm Cynllunio Cymru ar 4ydd Rhagfyr, meddai'r Gweinidog, "Fe hoffwn i ryddhau posibiliadau cynllunio trwy'ch galluogi i gynnig y tai, y swyddi a'r isadeiledd mae Cymru yn eu mynnu.  Mae cynllunio wedi canolbwyntio'n ormodol ar reoleiddio adeiladu ac mae llawer o bobl yn gweld hynny'n agwedd negyddol ac adweithiol.  Hoffwn i newid y sefyllfa trwy droi cynllunio'n faes gweledigaethol a rhagweithredol sy'n hwyluso datblygu yn hytrach na'i rwystro.  Rhaid i gynllunio fod yn ffordd o sbarduno twf ledled Cymru."

Mae'r bwletin hwn yn crynhoi'r cynigion i ddiwygio trefn cynllunio Cymru.

**Cyflwyniad**

- Fydd dim modd parhau yr un fath.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ofyn am ragor o ddatganoli mewn meysydd megis prosiectau ynni dros 50mw a ffïoedd isadeiledd cymunedol.
- Bydd yr ymgynghori'n dod i ben ar 26ain Chwefror a bydd y mesur gerbron y Cynulliad yn ystod haf 2014.
- Mae 43 o gwestiynau yn y papur ymgynghori.
- Mae modd didoli'r cynigion yn ôl pedair thema:
    - Helpu i newid y meddylfryd

- Stiwardiaeth ar waith
- Gwella cydweithio
- Gwella'r cyflawni ym mhob bro

**Cronfa'r dystiolaeth**

- Dyma'r dystiolaeth mae Llywodraeth Cymru wedi'i chasglu: http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/?lang=en
- Er bod peth ymchwil heb ei chwblhau pan ddechreuodd y cyfreithwyr lunio'r mesur, mae cynigion ychwanegol yn y papur ymgynghori.

**Helpu i newid y meddylfryd (tudalennau 11-15)**

- Nid trwy ddeddfu y bydd modd newid meddylfryd.
- Bydd rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ofalu bod cynlluniau datblygu a swyddogaethau rheoli datblygu yn cydblethu'n esmwyth. I wneud hynny, dylai'r timau weithio yn yr un swyddfa a chwalu unrhyw ffiniau proffesiynol sydd wedi codi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod angen i bob awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu cynllun datblygu lleol.
- Mae 'newid meddylfryd' yn cynnwys pawb sy'n ymwneud â threfn cynllunio'r wlad megis awdurdodau cynllunio lleol, Llywodraeth Cymru, adeiladwyr, y rhai yr ymgynghorir â nhw, sefydliadau addysgol a chyrff proffesiynol.
- Diben diwygio maes cynllunio yw ceisio symleiddio'r prosesau.
- Mae Llywodraeth Cymru am sefydlu gwasanaeth cynghori a gwella gwladol dros gynllunio. Er y byddai'r gwasanaeth o dan adain Llywodraeth Cymru, bwrdd ymgynghorol allanol fyddai'n ei lywio. Bydd rhagor o ymgynghori am sefydlu'r gwasanaeth a'i gylch llywio. Un rheswm dros ei gynnal ymhlith adrannau Llywodraeth Cymru yw na fyddai costau cychwynnol gan y byddai adnoddau cyfredol yn cael eu ddefnyddio.
- Byddai'r gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

    - Nodi a lledaenu arferion a safonau da; helpu awdurdodau cynllunio lleol i rannu arbenigedd ac adnoddau.
    - Nodi, hybu a thargedu anghenion hyfforddi gweithwyr a chynghorwyr ym maes cynllunio (cydweithio â budd-ddalwyr).
    - Cynghori a mentora mewn modd penodol ac arbenigol.
    - Hysbysebu a hysbysu ynglŷn â mentrau cynllunio Llywodraeth Cymru.
- Byddai gan y gwasanaeth uned gaffael i drin a thrafod materion technegol penodol a diwallu anghenion hyfforddi.
- At hynny, mae Llywodraeth Cymru am ystyried trefniadau cyfredol ar gyfer yr amgylchedd adeiledig i osgoi dyblygu a gwella effeithlonrwydd.
- Mae bwriad i sefydlu fframwaith cymwyseddau gwladol ar gyfer swyddogion a chynghorwyr – gan bennu'r medrau, yr wybodaeth a'r ymddygiad addas i ofalu bod cynllunio'n dod yn weithgaredd cadarnhaol a rhwyddhaol.
- Bydd rôl flaengar i'r gwasanaeth o ran llunio fframwaith y cymwyseddau.
- Mae papur ymgynghori 'Cynllunio Cadarnhaol' heb ymhelaethu ar y rhai y bydd y fframwaith ar eu cyfer – dim ond yr awdurdodau cynllunio lleol neu bawb ym maes cynllunio – na chadarnhau a fydd y fframwaith yn orfodol neu'n ddewisol.

**Stiwardiaeth ar waith (tudalennau 17-42)**

- Cynigir y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni rôl fwy goruchwyliol ynglŷn â rhoi gwasanaethau cynllunio fel y bydd llai o ddyblygu, rhagor o gysondeb a gwell cyflawniad.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:
    - Paratoi cynllun defnyddio tir – fframwaith datblygu gwladol – i nodi cynigion o arwyddocâd cenedlaethol gan gynnwys isadeiledd dros o leiaf 20 mlynedd.  Bydd statws cynllun datblygu i'r fframwaith a fydd yn atgyfnerthu Cynllun Buddsoddi yn Isadeiledd Cymru ac yn cyfeirio cynlluniau datblygu strategol a lleol.
    - Adolygu ac ailddatgan polisi cynllunio'r wlad.
    - Sefydlu trefn i ofalu bod ceisiadau'n cael eu prosesu'n gymesur yn ôl yr haen lywodraethu briodol.

- Gwella gweithdrefnau apeliadau.

Fframwaith datblygu gwladol

- Dim ond agweddau o arwyddocâd cenedlaethol y bydd y fframwaith yn eu trafod, er na fydd yn pennu targed ar gyfer tai – cynlluniau datblygu lleol a strategol fydd yn gwneud hynny.
- Mae'r fframwaith yn rhan o bolisi Llywodraeth Cymru sydd o'r farn na fyddai yn briodol archwilio cynllun trwy'r broses arferol. Byddai cyfnod ymgynghori 12 wythnos yn lle hynny.

Polisi cynllunio gwladol

- Cynigir cyfuno Polisi Cynllunio Mwnau Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru am ostwng nifer y nodion cynghori technegol.
- Mae Llywodraeth Cymru am lunio amryw bolisïau rheoli datblygu y gallai pob awdurdod cynllunio lleol eu defnyddio.

Trefn trin a thrafod ceisiadau – datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol

- Bydd y drefn arfaethedig yn cyflwyno 'datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol' sydd i'w bennu gan Weinidogion Cymru. Mae rhestr yn Atodiad B.
- Llywodraeth Cymru fydd yn derbyn y ffïoedd am gyflwyno ceisiadau o'r fath. Bydd gofyn i Lywodraeth Cymru, pobl mae wedi'u penodi a'r awdurdodau cynllunio lleol roi cynghorion o flaen llaw am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. At hynny, bydd disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol asesu'r effeithiau ar y fro a chyflwyno adroddiad gan gynnwys amodau arfaethedig a gofynion cyfreithiol. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu ar unrhyw gais am adnewyddu wedyn lle bydd angen ailystyried egwyddorion y datblygiad. Yr awdurdodau cynllunio lleol fydd yn cadw cyfrifoldeb am unrhyw benderfyniadau eraill wedyn megis newid neu ddileu amodau, cadw at amodau a gorfodi lle mae tor-amod.
- Bydd gofyn i adeiladwyr gyflwyno adroddiad am ganlyniadau ymgynghori – datganiad o ymgynghori cyn cyflwyno cais – ynglŷn â phob datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.
- Fel na fydd gormod o geisiadau ar wahân, bydd adeiladwr yn cael cyflwyno nifer o geisiadau cysylltiedig i Weinidogion Cymru yr un pryd. Mae bwriad i newid y polisi a'r weithdrefn ynglŷn â galw ceisiadau i mewn fel y bydd yn

bosibl i Weinidogion Cymru alw cais i mewn os ydyn nhw o’r farn ei fod yn gysylltiedig â chais am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol (tudalen 32).

- Fe fydd Gweinidogion Cymru yn cael pennu’r ffordd fwyaf priodol o drin a thrafod cais am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol

<u>Prosiectau mawr a lleol</u>

- Awdurdodau cynllunio lleol fydd yn gyfrifol o hyd am bennu prosiectau mawr a lleol.
- Ystyrir na ddylai fod angen i’r rhan fwyaf o brosiectau lleol fynd gerbron pwyllgor cynllunio ac y dylai awdurdodau cynllunio lleol allu dirprwyo dros 90% o geisiadau.
- Cynigir cael ystyried newid categorïau dibenion trwy adolygu gorchymyn dosbarth y dibenion, gan gynnwys defnyddio adeiladau amaethyddol.

<u>Cyflwyno apêl</u>

- Mae cynnig y dylai’r sawl sy’n cyflwyno apêl roi datganiad cyflawn o’i ddadl ynghyd â datganiad o’r hyn mae modd cytuno arno pan fo’n gofyn am wrandawiad neu ymchwiliad.
- Dylai’r awdurdod cynllunio lleol a phawb arall sy’n ymwneud â’r achos gyflwyno ymateb i’r apêl ynghyd â sylwadau ffurfiol am y datganiad o’r hyn mae modd cytuno arno cyn pen pedair wythnos ar ôl dechrau’r broses.
- Bydd rhaid i’r sawl gyflwynodd yr apêl roi sylwadau am ymateb yr awdurdod cynllunio lleol cyn pen chwech wythnos ar ôl dechrau’r broses.
- Bydd rôl fwy rhagweithredol i Arolygiaeth y Cynllunio ynglŷn â phennu sut y dylid trin a thrafod apêl.
- Fydd dim hawl i fynd gerbron arolygydd mwyach.
- Bydd Gweinidogion Cymru yn ymdrin â’r cais ar y ffurf roedd yr awdurdod cynllunio lleol wedi’i hystyried.
- Mae bwriad i ddileu’r gofyn i gyflwyno cyn pen chwe mis unrhyw apêl am y ffaith nad yw awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu ar gais. Fe fydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn cael penderfynu o hyd ar gais sy’n destun apêl o’r fath – a hynny cyn pen hyn a hyn o amser ar ôl i’r apêl gael ei chyflwyno (mae’r amserlen i’w phennu trwy ddeddf eilaidd).

- Ar hyn o bryd, dim ond lle bu gwrandawiad neu ymchwiliad y bydd modd dyfarnu am gostau. Cynigir y dylai fod modd gwneud hynny o ran apeliadau sydd wedi'u trafod trwy lythyr, hefyd.
- Mae bwriad i sefydlu gweithdrefnau fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i adennill eu costau nhw o ganlyniad i apêl.
- Mae cynnig i sefydlu trefn apeliadau masnachol hefyd, yn debyg i'r un ar gyfer mân brosiectau masnachol.
- Fydd neb arall yn cael cyflwyno apêl ar wahân i'r sawl gyflwynodd y cais.

**Gwella cydweithio (tudalennau 43-53)**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi siom nad yw cydweithio wedi mynd rhagddo yn ôl y gobaith.
- Yn ôl y dystiolaeth, mae angen newid a does dim aros am argymhellion Comisiwn Williams.
- Mae bwriad i gyfuno gwasanaethau cynllunio lleol a diweddaru'r pwerau cyfredol i alluogi Llywodraeth Cymru i ostwng nifer yr awdurdodau cynllunio lleol fel y bydd gwasanaethau cynllunio lleol yn fwy effeithlon a chynaladwy. Does dim manylion ynglŷn â pha awdurdodau fydd yn uno.
- Gwelir cyfuno'n ffordd o ateb y galw cynyddol â llai o adnoddau.
- Bydd y mesur yn cynnwys parciau cenedlaethol, sy'n eithriad ar hyn o bryd.
- Bydd cydfwrdd cynllunio'n cael cyflawni holl swyddogaethau cyfoes awdurdod cynllunio lleol megis paratoi cynllun datblygu lleol a chasglu ffïoedd isadeiledd cymunedol.
- Byddai aelodau cydfwrdd cynllunio'n dod o'r awdurdodau lleol cysylltiedig, gan bennu nifer cynrychiolwyr pob awdurdod yn ôl poblogaeth ei ardal.
- Does dim penderfyniad eto ynghylch a ddylai awdurdodau'r parciau cenedlaethol gadw swyddogaeth ym maes cynllunio.

<u>Cynlluniau datblygu strategol</u>

- Bydd cynlluniau datblygu strategol ar gyfer tair ardal – Caerdydd, Abertawe a choridor yr A55. Does dim manylion ynglŷn â ffiniau'r ardaloedd hynny.

- Bydd rhaid paratoi cynlluniau datblygu strategol lle mae meysydd megis tai, swyddi a chludiant yn ehangach nag arwyddocâd lleol.
- Y fframwaith datblygu gwladol fydd yn pennu prif gynnwys y cynlluniau.
- Y drefn lywodraethu sydd orau yw 'panel' ac iddo gynghorwyr lleol, gan bennu nifer cynrychiolwyr pob awdurdod yn ôl poblogaeth ei ardal.
- Bydd gan y 'panel' bwerau statudol ynglŷn â chynlluniau datblygu strategol.
- Y 'panel' fydd yn pennu trefniadau ariannu a dyrannu adnoddau ar gyfer ei waith. Bydd statws corfforaeth i'r 'panel'.
- Mae disgwyl y bydd arbenigwyr o awdurdodau cynllunio lleol yn bwrw tymor gyda'r 'panel' i baratoi'r cynllun datblygu strategol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gofynion wrth gefn fel y byddai'n cael penodi arbenigwyr technegol, hefyd.
- Dull llywodraethu amgen (ond nid yr un sydd orau gan Lywodraeth Cymru) yw corff annibynnol ac iddo bwerau paratoi cynlluniau a phenderfynu.
- Bydd pob cynllun datblygu strategol yn cael ei archwilio'n gyhoeddus o dan adain arolygydd i'w benodi'n annibynnol o blith staff Arolygiaeth y Cynllunio.
- Mae pob cynllun datblygu strategol i'w fonitro'n flynyddol yn ôl amserlen y bydd y 'panel' yn ei phennu.
- Dylai cynlluniau datblygu lleol gyd-fynd â'r cynllun datblygu strategol priodol a dylai ehangder a chynnwys y cynlluniau hynny fod yn symlach o lawer o ganlyniad. Lle nad oes cynllun datblygu strategol, rhaid paratoi cynlluniau datblygu lleol yn ôl fframwaith datblygu a pholisi cynllunio'r wlad.

**Gwella'r cyflawni ym mhob bro (tudalennau 55-90)**

- Mae cydnabyddiaeth y bydd yn anodd cyflawni rhagor gan fod adnoddau'n crebachu.
- Bydd gofyn i bob awdurdod cynllunio lleol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn am yr hyn mae wedi'i gyflawni
- Bydd yr adroddiadau hynny'n galluogi awdurdodau cynllunio unigol i ystyried materion sydd wedi'u nodi a mynd ati i weithio'n well.

- Gallai fod cosbau am dangyflawni drwy'r amser – megis cymryd awenau naill ai'r awdurdod i gyd neu rai o'i swyddogaethau gan gynnwys cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.
- Bydd modd pennu awdurdod cynllunio lleol yn un sy'n tangyflawni trwy ei gymharu â dangosyddion gwasanaeth cynllunio da. Bydd Gweinidogion Cymru yn gadael i'r awdurdod weithio'n annibynnol eto unwaith eu bod yn fodlon ei fod wedi cymryd camau sylweddol i wella ei ffordd o weithio.
- Bydd cymorth ychwanegol i gynlluniau datblygu lleol gan gynnwys cyflwyno argymhellion yn sgîl mireinio cynlluniau o'r fath megis pennu dyddiadau cau, rhoi cyfle i ymgysylltu â chymunedau, paratoi cynlluniau lle a rhoi gwybod i Weinidogion Cymru cyn tynnu cynllun datblygu lleol yn ôl.
- Bydd Gweinidogion Cymru yn cael mynnu i ddau awdurdod cynllunio lleol neu ragor baratoi cynllun datblygu lleol ar y cyd.
- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cynghorau tref a chymuned mewn sefyllfa dda i gydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â pharatoi cynlluniau lle gan bennu blaenoriaethau buddsoddi yn yr isadeiledd lleol.
- Mae cynnig i sefydlu nifer bychan o gynlluniau lle gyda chymorth technegol Comisiwn Dylunio Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru. Gwahoddir amryw awdurdodau cynllunio lleol/cynghorau tref a chymuned i fynegi diddordeb.
- Lle mae cynllun datblygu yn dweud bod rhyw fath o adeiladu'n dderbyniol, ddylai hynny ddim gael ei drafod eto wrth brosesu'r cais am ganiatâd. Mae cynnig i naill ai gyflwyno math newydd o ganiatâd ar gyfer ceisiadau sy'n cyd-fynd â chynllun datblygu wedi'i fabwysiadu neu wrthod unrhyw newidiadau a gadael i swyddogion benderfynu ar bob cais sy'n cyd-fynd â chynllun datblygu wedi'i fabwysiadu.
- Mae Llywodraeth Cymru o blaid y dewis cyntaf lle byddai cais yn debyg i rai'r materion wrth gefn yn cael ei gyflwyno ynglŷn ag adeiladu sy'n cyd-fynd â'r cynllun datblygu gafodd ei fabwysiadu. Bydd papur ymgynghori ychwanegol am hyn.
- Mae cynnig y dylai fod gofyn i awdurdodau cynllunio lleol roi gwasanaeth cynghori cyn cyflwyno cais pan ofynnir amdano a'i bod yn rhesymol i bob awdurdod cynllunio lleol godi tâl am wasanaeth o'r fath naill ai pan fo cais

yn cael ei gyflwyno neu wrth roi'r gwasanaeth ni waeth a fydd cais yn cael ei gyflwyno wedyn neu beidio.

- Mae cynnig y dylid ymgysylltu cyn cyflwyno cais.  Dylai pob cais gael ei gyflwyno i awdurdod cynllunio lleol gyda disgrifiad ysgrifenedig o ymgysylltu – datganiad o ymgysylltu cyn cyflwyno cais.
- I ddatrys anghydfod yn gyflym, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu gweithdrefn ac iddi ddim ond un diben – penderfynu a yw cais yn ddilys. Arolygiaeth y Cynllunio fydd yn ei gweinyddu, gan ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig swyddog cynllunio wedi'i benodi yn hytrach nag arolygydd.
- Mae cynnig i ddileu'r gofyn i gyflwyno datganiad o ddylunio a mynediad gyda chais am ganiatâd cynllunio achos nad oes llawer o dystiolaeth bod y gofyn hwnnw wedi bod yn effeithiol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried ymhellach a yw'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi gwybod yn gymesur, gan gynnwys ystyried dileu'r gofyn i gyhoeddi hysbysiad yn y wasg.
- Cynigir y bydd dyletswydd i'r rhai mae gofyn statudol i ymgynghori â nhw gyflwyno ymateb bob amser i ymgynghori o'r fath yn ogystal â chyflwyno adroddiad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni i Weinidogion Cymru.
- Os yw rhywun mae gofyn statudol i ymgynghori ag e wedi rhoi ymateb cyn i'r cais am ganiatâd cynllunio gael ei gyflwyno, dim ond hyn a hyn o faterion newydd y bydd yn cael eu codi wedyn trwy ymgynghori ffurfiol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio â budd-ddalwyr i sefydlu protocol gwladol i bwyllgorau cynllunio, deddfu ynglŷn â pha mor fawr y dylai pob pwyllgor fod a sefydlu rhaglen hyfforddi wladol i gynghorwyr yn rhan o'r fframwaith cymwyseddau arfaethedig.
- Cynigir y dylai fod cynllun dirprwyo gwladol, hefyd.
- Mae Llywodraeth Cymru am newid rhybuddion o benderfyniadau a gofyn i bob adeiladwr roi gwybod i awdurdod cynllunio pryd y bydd gwaith yn dechrau.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno gweithdrefn statudol a fydd yn gadael i adeiladwyr ofyn am newidiadau anfaterol mewn caniatâd cynllunio a sicrhau awdurdodau cynllunio lleol eu bod yn gallu eu hwyluso.

- Cynigir y dylai fod gweithdrefn newydd ar gyfer newid terfyn amser ynglŷn â defnyddio caniatâd cynllunio.  Bydd angen cyflwyno cais a thalu ffi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwahardd ceisiadau am gofrestru tir yn lôn tref neu bentref lle mae'r tir hwnnw wedi bod yn destun cynllunio, yn ogystal â gadael i berchnogion ofyn i awdurdod y cofrestru tir comin bennu nad yw dibenion y tir yn cyd-fynd â meini prawf 'yn ôl hawl' sydd i'w bodloni cyn cofrestru tir yn lôn tref neu bentref.
- Mae'r papur ymgynghori'n atgyfnerthu pwysigrwydd gorfodi yn rhan o ffordd effeithiol o reoli datblygu.  Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rhai newidiadau i wella'r gorfodi sef rhybuddion am ohirio gwaith, newid enw 'rhybuddion cwblhau' yn 'rhybuddion terfynu' a throsglwyddo cyfrifoldeb am bennu apeliadau yn ôl amodau adran 215 o ynadon i Weinidogion Cymru.
- Bydd newidiadau ychwanegol yn y gorfodi'n rhoi i awdurdodau cynllunio lleol hawl i fynnu i geisiadau am ganiatâd cynllunio gael eu cyflwyno'n adolygol a gwrthod unrhyw gais o'r fath lle mae'r gwaith yn destun rhybudd gorfodi.
- Mae Llywodraeth Cymru am ddileu'r hawl i gyflwyno apêl yn erbyn rheswm penodol dros beidio â rhoi caniatâd cynllunio lle mae apêl arall wedi methu, yn ogystal â'r hawl i gyflwyno cais yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio'n adolygol lle mae apêl yn erbyn rheswm penodol wedi methu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yn anodd cynnig gwasanaeth cynllunio lleol o safon â'r adnoddau cyfredol.  Mae'n dweud bod ffioedd heb gynyddu er 2009 ac y bydd incwm yn gostwng o ganlyniad i'r newidiadau yn yr adeiladu sydd wedi'i ganiatáu.  Felly, mae'n ystyried ei bod yn briodol adolygu ffioedd ceisiadau am ganiatâd cynllunio.
- Bydd yr adolygiad yn ystyried a ddylai fod cynnydd cyffredinol yn y ffioedd, a ddylai'r ffiniau fod yn ehangach i gynnwys cyflawni amodau, er enghraifft, a sut y dylai ffioedd ceisiadau am ynni adnewyddadwy gael eu pennu.

**Effeithiau ariannol (tudalennau 91–94)**

- Bydd adroddiad am holl effeithiau'r rheoleiddio, gan amlinellu'r manteision a'r costau, erbyn rhoi'r mesur gerbron y Cynulliad.
- Mae rhai arbedion a chostau wedi'u nodi yn y papur ymgynghori, fodd bynnag.
- Mae'r arbedion i awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â chydweithio, yn bennaf. Bydd angen llai o gynghorion arbenigol yn sgîl dileu datblygiadau o arwyddocâd sylweddol a bydd llai o geisiadau'n cael eu trafod o ganlyniad i ehangu ffiniau'r datblygu sydd wedi'i ganiatáu.
- Mae'r costau i awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â gwasanaethau cyn cyflwyno cais, adroddiadau am berfformiad a'r posibilrwydd y gallai ffioedd ostwng pe na bai awdurdod yn cael penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Ynghyd â'r mesur a phapur 'Cynllunio Cadarnhaol', mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ar ei gwefan ddata cychwynnol am yr hyn mae pob un o'r 25 awdurdod cynllunio lleol wedi'i gyflawni.

Cyfeirnod Ymgynghoriad: WG20088

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

# Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion i newid y system gynllunio yng Nghymru.  Bydd angen newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau.

***Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 26/02/2014.***

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:: planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch y switsfwrdd ar 0300 0603300 neu 08450103300.

| Diogelu Data |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n cael eu trafod yn yr ymgynghoriad.  Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn eu gweld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn.  Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb.  Bydd hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol.  Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod.  Byddwn yn cuddio'r manylion hyn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i wneud cais i weld gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.  Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi.  Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei hatal mewn rhai amgylchiadau.  Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio.  Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio cyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddwn yn ystyried y ffaith bwysig hon.  Fodd bynnag, efallai bod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio eu cyhoeddi.  Byddwn yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn eu barn cyn y byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

Cyfeirnod Ymgynghoriad: WG20088

| **Cynllunio Cadarnhaol – Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad cyfnod ymgynghori: 04/12/2013 – 26/02/2014** | | |
| **Enw** | | |
| **Sefydiad** | | |
| **Cyfeiriad** | | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | |
| **Math** *(dewiswch un o'r canlynol)* | Busnesau /Ymgynghorwyr | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☐ |
| | Asiantaeth y Llywodraeth / Sector Cyhoeddus Arall | ☐ |
| | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau, crefyddol, sefydliadau dielw) | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod) neu unigolyn | ☐ |

## Cefnogi newid mewn diwylliant

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C1** | A ydych yn cytuno y bydd cylch gwaith arfaethedig y Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio yn helpu awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid i wella perfformiad? | Ydw<br>☐ | Nac Ydw<br>☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C2** | A ydych yn cytuno y dylid adolygu trefniadau cymorth presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru? | Ydw<br>☐ | Nac Ydw<br>☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C3 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi fframweithiau cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr cynllunio a chynrychiolwyr etholedig i ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen er mwyn diwygio'r system gynllunio? | Ydw<br>☐ | Nac Ydw<br>☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

## Stiwardiaeth Weithredol

| | | | |
|---|---|---|---|
| C4 | A ydych yn cytuno y bydd yr Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer pennu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hwyluso'r broses o'u cyflawni? | Ydw ☐ | Nac Ydw ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C5 | A ydych yn cytuno y dylid integreiddio Polisi Cynllunio Cymru a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru i greu un dogfen? | Ydw ☐ | Nac Ydw ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C6 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi cyfres graidd o bolisïau rheoli datblygu i'w cymhwyso'n gyson gan bob awdurdod cynllunio lleol? | Ydw ☐ | Nac Ydw ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C7 | A ydych yn cytuno y bydd yr hierarchaeth datblygu arfaethedig yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur, gan ddibynnu ar eu manteision a'u heffeithiau tebygol? | Ydw ☐ | Nac Ydw ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C8 | A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd a nodir yn Atodiad B? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C9 | A ydych yn cytuno â'r categorïau a'r trothwyon arfaethedig ar gyfer Datblygiadau Sylweddol a nodir yn Atodiad B? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C10 | A ydych yn cytuno y dylai ceisiadau ar gyfer Datblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd fod yn ordodol yn destun hysbysiad ac ymgynghoriad cyn ymgeisio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C11 | A ydych yn cytuno y dylid codi ffi am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau arfaethedig am Ddatblygiadau Cenedlaethol eu Harwyddocâd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C12 | A ydych yn cytuno mai Arolygiaeth Gynllunio Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu cais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C13 | A ydych yn cytuno mai dim ond un cylch o ddiwygiadau y dylid ei ganiatáu i gais ar gyfer Datblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd ar ôl iddo gael ei gofrestru'n ffurfiol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C14 | A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin â chaniatadau cysylltiedig? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C15 | A ydych yn cytuno y dylai'r broses ar gyfer ystyried y cais ddilyn gweithdrefn debyg i'r weithdrefn a gynigir ar gyfer ceisiadau a gaiff eu galw i mewn ac apelau? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C16 | A ydych yn cytuno â'r modd y bwriedir rhannu cyfrifoldebau rhwng Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C17 | A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno datganiad achos a datganiad drafft o dir cyffredin wrth gyflwyno apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C18 | A ydych yn cytuno mai'r Arolygiaeth Gynllunio ddylai benderfynu sut i ystyried apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C19 | A ydych yn cytuno na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys cais unwaith y bydd apêl wedi'i chyflwyno? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C20 | A ydych yn cytuno â'r cynnig i Weinidogion Cymru roi proses dyfarnu costau ar waith? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C21 | A ddylid cyflwyno ffioedd i gwmpasu costau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag apêl? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C22 | A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno Gwasanaeth Apelau Masnachol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

## Gwella Cydweithrediad

| C23 | A ydych yn cytuno y dylid uno awdurdodau cynllunio lleol i greu unedau mwy? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C24 | A ydych o'r farn y dylai awdurdod parc cenedlaethol barhau'n gyfrifol am gynllunio yn ei ardal? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C25 | A ydych yn cytuno mai dim ond mewn rhai ardaloedd penodol y dylid paratoi cynlluniau datblygu strategol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C26 | A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu cwmpas Cynlluniau Datblygu Strategol i'r materion allweddol a nodir ym mharagraff 5.29? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C27 | A ydych yn cytuno y dylai partneriaeth rhwng awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oruchwylio'r broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol? | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C28 | A ydych yn cytuno y dylid paratoi Cynllun Datblygu Lleol llai manwl sy'n canolbwyntio ar faterion lleol eu harwyddocâd mewn ardaloedd lle ceir Cynlluniau Datblygu Strategol? | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

## Gwella'r Ddarpariaeth Leol

| C29 | A ydych yn cytuno â'r elfennau hanfodol a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cynllunio da yn Atodiad A? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C30 | A ydych yn cytuno y dylai pob awdurdod cynllunio lleol lunio a chyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol yn unol â safonau y cytunwyd arnynt? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C31 | Os ystyrir bod awdurdod cynllunio lleol yn perfformio'n wael, a ydych yn cytuno y dylai fod opsiwn i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol i Weinidogion Cymru? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C32 | A ydych yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C33 | A ydych yn cytuno y dylai Cynllun Datblygu Lleol gynllunio ar gyfer cyfnod o 15 mlynedd ymlaen llaw o leiaf, y dylent gynnwys dyddiad dod i ben penodol ac na fyddant yn gynlluniau datblygu gweithredol ar ôl y dyddiad hwnnw? | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C34 | A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda chynghorau tref a chymuned i lunio cynlluniau lleoedd y gellir eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio ategol? | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C35 | Os yw cynnig datblygu yn cyd-fynd â dyraniad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd, a ydych yn cytuno y dylid cyflwyno proses ceisiadau cynllunio newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond manylion megis dyluniad a chynllun y datblygiad a gaiff eu hystyried? | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| | | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| C36 | A ydych yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio lleol i beidio â chofrestru cais cynllunio? | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C37 | A ddylid dileu'r gofyniad am ddatganiadau dylunio a mynediad gorfodo? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C38 | A ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol mewn papur newydd lleol? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C39 | A ddylai fod unrhyw amrywiad lleol o fewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C40 | A ydych yn cytuno y dylid cyfyngu mân newid perthnasol i "newid y mae ei faint a'u natur yn arwain at ddatblygiad nad yw'n sylweddol wahanol i'r datblygiad a gymeradwywyd"? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |

Rhowch eich sylwadau:

| C41 | A ydych yn cytuno bod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i warchod tir a ddefnyddir fel Meysydd Tref a Phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C42 | A ydych yn cytuno y bydd y cynigion yn lleihau'r oedi o fewn y system gorfodi cynllunio? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

| C43 | A ydych yn cytuno â chyflwyno hysbysiadau atal dros dro fel rhan o'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru? | Ydw | Nac Ydw |
|---|---|---|---|
| | | ☐ | ☐ |
| Rhowch eich sylwadau: | | | |

Nid wyf am i fy enw / nghyfeiriad gael ei gyhoeddi gyda fy ymateb (ticiwch y blwch) ☐

## Sut i ymateb

**Cyflwynwch eich sylwadau mewn unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:**

| **E-bost** |
|---|
| Llenwch y ffurflen ymateb ymgynghori a'i hanfon at:<br>planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk<br><br>(Cynhwyswch 'Cynllunio Cadarnhaol – WG20088' yn y llinell pwnc os gwelwch yn dda). |
| **Post** |
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at:<br>**Tim y Bil Cynllunio**<br>**Is-adran Gynllunio**<br>**Llywodraeth Cymru**<br>**Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br>**CF10 3NQ** |
| **Gwybodaeth ychwanegol** |
| Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,<br>e-bostiwch: planconsultations-d@wales.gsi.gov.uk neu<br><br>Ffoniwch: 0300 0603300 neu 08450103300 |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 7 CHWEFROR 2014 |
| **TEITL** | PROJECT YMDRIN A GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU – AIL GYTUNDEB RHWNG Y PARTNERIAID |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Gareth Roberts |
| **PWRPAS** | I graffu bwriad i ofyn i'r cabinet dderbyn ail gytundeb rhwng awdurdodau i'n galluogi i barhau a'r project cydweithio. |
| | |

**CEFNDIR**

1. Mae rheolau ewropeaidd yn ymwneud ag anfon gwastraff i dirlenwi yn nodi na chaiff awdurdodau lleol anfon mwy na 10%o'i holl wastraff i dirlenwi erbyn 2020 a bydd y ffigwr yma yn dod i lawr i 5% erbyn 2025.

2. Mae'r rhain yn dargedau statudol mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gyrraedd neu wynebu dirwyon sylweddol iawn.

3. Gyda'r dreth tirlenwi yn codi'n sylweddol a chost rhedeg safleoedd tirlenwi yn cynyddu, wrth i reolau amgylcheddol yn ymwneud a rhedeg y fath safleoedd dynhau, mae hi hefyd yn gwneud synnwyr economaidd i ailgylchu mwy.

4. Yn y cyd-destun yma fe luniwyd strategaeth wastraff a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn Ionawr 2010 oedd yn anelu i wyro mwy o wastraff i'w ail-gylchu ac i sicrhau fod yna ffordd o ymdrin ag unrhyw wastraff gweddilliol na fyddai'n golygu mynd ag ef i dirlenwi.

5. Dau gongl faen i'r strategaeth yma oedd sefydlu cyfleustra trin bwyd GwyriAD a gweithredu ar y cyd gyda 4 cyngor arall yng Ngogledd Cymru i sefydlu cyfleuster i ymdrin a gwastraff gweddilliol hynny yw y gwastraff na ellir ei ailgylchu neu ei gompostio.

6. Bellach mae GwyriAD yn weithredol (yr un cyntaf i ddod yn weithredol drwy Gymru) ac mae yna gryn dipyn o waith wedi bod yn digwydd gan y 5 awdurdod sydd yn y Cynllun Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i dendro am ymgymerwr i ddatblygu ateb ar gyfer ymdrin a gwastraff gweddilliol.

7. Mae'r Bartneriaeth yma wedi bod yn gweithredu ers 2008 ar sail Cytundeb Rhwng Awdurdodau a gytunwyd gan y Cyngor yn ol ym mis Chwefror 2010 ac fe reolir y broses drwy Gyd Bwyllgor gyda minnau yn cynrychioli'r Cyngor ar y Cyd Bwyllgor hwnnw.

8. Bellach, daethpwyd i sefyllfa lle mae angen i awdurdodau'r bartneriaeth gytuno i benodiad y Cwmni fydd yn adeiladu a rhedeg y cyfleuster a chan mai dim ond mynd a ni at y pwynt yma oedd bwriad y cytundeb rhwng

awdurdodau cyntaf, bydd angen sefydlu cytundeb newydd i reoli'r berthynas rhyngom am y cyfnod y bydd y cytundeb gyda'r cwmni yn weithredol.

**Y Cytundeb Rhwng Awdurdodau**

9. Gan ein bod yn gosod cytundeb am 25 mlynedd bydd angen sicrhau fod yna gytundeb rhwng awdurdodau briodol am y cyfnod hwnnw, ac mae'r Ymgynghorwyr Cyfreithiol wedi cynorthwyo'r awdurdodau i lunio cytundeb o'r fath.

10. Mae'r gwaith o lunio'r gytundeb manwl yn parhau i fynd yn ei flaen ar hyn o bryd ond mae'r prif egwyddorion yn cael eu hamlygu mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyd Bwyllgor yn ddiweddar – adroddiad a atgynhyrchir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma.

11. Yn syml, fe fydd Cyngor Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol yn cytundebu gyda chwmni (i'w benodi – gweler yr adroddiad nesaf) i ymdrin a gwastraff gweddilliol y cynghorau ac yn sgil y cytundeb hwnnw fe fydd yna ymrwymiadau a goblygiadau yn disgyn ar Sir y Fflint ac mae'n bwysig fod pob cyngor arall yn y bartneriaeth yn rhannu rhain yn deg.

12. Mae'r atodiad yn nodi'r elfennau fydd yn y cytundeb newydd ac fe grynhoir y prif afterion isod -

- Bydd trefniadau llywodraethu'r ail gytundeb yma yn dilyn patrwm y gytundeb cyntaf – sef y bydd penderfyniadau allweddol ynglyn a rheolaeth y project yn cael eu cymryd gan Gyd Bwyllgor ar ran y 5 awdurdod, ac fe gefnogir y Cyd bwyllgor hwnnw gan Fwrdd Project o swyddogion o'r 5 awdurdod. Bydd angen cynrychiolydd o bob awdurdod i fod yn bresennol yn y Cyd Bwyllgor ar gyfer cael cworwm.

- Unwaith y byddwn yn rhan o'r bartneriaeth cyfyng iawn fydd hawliau penderfyniadau cynghorau unigol wedyn gyda'r rheolaeth gyffredinol o'r ddarpariaeth yn cael ei reoli gan y Cyd Bwyllgor. Yn gyffredinol, bydd hawl i'r Cyngor gytuno'r gyllideb flynyddol ar gyfer y Cyd Bwyllgor (uwchben hicyn benodol fydd yn fandadol iddo gytuno iddi) ac i dynnu'n ol o'r project (gyda goblygiadau ariannol eithaf sylweddol yn disgyn arno wrth gwrs pe byddai'n gwneud hynny). Fel arall y Cyd Bwyllgor fydd yn rhedeg y cynllun ar ran y cynghorau.

- Bydd costau'r cytundeb yn gyffredinol yn cael eu rhannu ar sail y tunelled fydd yn cael ei anfon at y cyfleuster ond hyd nes y bydd y cyfleuster yn weithredol rhennir hwynt yn gyfartal rhwng y 5 awdurdod.

- Bydd pob Cyngor yn gyfrifol am gwrdd a chostau rhedeg ei safle drosglwyddo ei hun (ond mae yna drafodaethau yn mynd ymlaen gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynglyn a hynny) ond bydd cost cludo'r gwastraff i'r cyfleuster yn rhan o'r ffi gyffredin y dunell a delir.

- Gan nad oes gan Conwy safle drosglwyddo fe fydd y project yn cwrdd a chost sefydlu'r safle (gyda Chonwy yn gyfrifol am gostau rhedeg y safle wedyn).

13. Mae'r gytundeb hefyd yn cyfeirio at Gronfa Budd Leol fydd yn darparu swm o arian blynyddol i'r gymuned leol am yr anghyfleustra o gael llosgydd o'r fath yn agos at eu cymuned. Bwriad y Cyd Bwyllgor yw gosod swm o £180,000 at y diben hwn gyda 25% ohono yn dod o grant Llywodraeth Cymru gan adael i'r awdurdodau ysgwyddo £135,000 o'r gost yn flynyddol i'w rhannu ar sail y tunelli a anfonir at y cyfleuster. Amcangyfrifir y bydd hyn yn ychwanegu cost o rhwng £1.17 a £1.50 y dunell i'r gost.

14. Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i graffu'r mater cyn i'r cabinet ei ystyried.

**ADRODDIAD AR YR**

**AIL GYTUNDEB DRAFFT RHWNG AWDURDODAU**

***Noder:*** *Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb lefel uchel o ffurf drafft cyfredol y Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion materion a drafodwyd ac a gytunwyd arnynt mewn egwyddor gan y Bwrdd Prosiect mewn cyfarfod ar 16 Ionawr 2014.*

*Dim ond ar ffurf drafft y ceir y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar hyn o bryd. Os bydd y Bartneriaeth yn dymuno newid unrhyw un o'r egwyddorion a nodir isod, neu'n dymuno ychwanegu unrhyw elfennau partneriaethau ychwanegol sy'n berthnasol i brosiectau, gellir cyflawni hyn.*

*Yn ogystal, dylai'r Bartneriaeth nodi mai diben yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb lefel uchel o gynnwys y Cytundeb Rhwng Awdurdodau ar ffurf drafft ac ni ddylid dibynnu arno yn lle'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ei hun.*

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar ddechrau'r broses caffael, cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn (a elwir ar y cyd yn "**Y Bartneriaeth"**), i gydweithio i gaffael cyfleuster trin gwastraff gweddilliol ar y cyd fel rhan o'r prosiect a elwir yn Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (y "**Prosiect**"). Arwyddodd y Bartneriaeth y Cytundeb Rhwng Awdurdodau cyntaf ar 24 Mehefin 2010, i reoleiddio trefniadau gweithio a gwneud penderfyniadau ymysg y Cynghorau yn ystod y cyfnod o gaffael y Prosiect hyd at ddirwyn y prosiect i ben yn ariannol.

1.2 Mae'r Bartneriaeth wedi cytuno y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel y 'Cyngor Arweiniol' ac yn arwyddo pob dogfen gyfreithiol sydd ynghlwm â'r Prosiect ar ran y Bartneriaeth; y brif ddogfen fydd y cytundeb gyda'r Contractwr ynglŷn â dyluniad, adeiladu, gosod, comisiynu, gweithredu a chynnal a chadw'r cyfleuster ar gyfer trin gwastraff gweddilliol (y "**Cytundeb Prosiect**"). Ar ôl i'r Cytundeb Prosiect gychwyn, bydd holl hawliau, rhwymedigaethau a goblygiadau pob Cyngor a nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau cyntaf yn cael eu disodli gan yr hawliau, y rhwymedigaethau a'r ymrwymiadau a nodir yn yr ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau (y "**CRhA**").

1.3 Gan y bydd y Cyngor Arweiniol yn cymryd cyfrifoldeb llwyr am y cytundeb ar ran y Bartneriaeth, mae angen sicrwydd y bydd pob Cyngor yn bodloni ei ymrwymiadau yn brydlon i sicrhau nad yw'r Cyngor Arweiniol yn gorfod wynebu rhwymedigaethau cytundebol afresymol ar unrhyw adeg. Yn ogystal, mae pob Cyngor angen sicrwydd y bydd yn derbyn yr holl fuddion cytundebol y mae ganddo hawl iddynt – er nad yw wedi arwyddo contract gyda'r Contractwr yn uniongyrchol. Dyma un o brif amcanion y CRhA.

## 2. PWRPAS YR AIL GYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU

2.1 Prif bwrpas y CRhA yw sicrhau bod y pum Cyngor yn gallu cydweithio'n effeithiol mewn gwir bartneriaeth a chyda'r Contractwr i gael y budd mwyaf bosib o'r Prosiect. Mae'r CRhA yn mynd ati i geisio cydbwyso'r gwrthdaro posib: nad yw'r Cyngor Arweiniol, fel gwrth barti Cytundeb y Prosiect, yn agored i ormodedd o risg a rhwymedigaethau, a bod y Cynghorau eraill yn cael cyfran deg o'r hawliau a'r buddion cytundebol. Mae'r CRhA yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a gweithio mewn partneriaeth a'i fwriad yw rheoli buddion yr holl Gynghorau yn deg.

2.2 Mae'r CRhA yn ceisio adlewyrchu'r Cytundeb Prosiect a wnaed rhwng y Bartneriaeth a'r Contractwr ble bo hynny'n briodol.

2.3 Mae'r CRhA wedi'i strwythuro i sicrhau nad yw'r Cyngor Arweiniol yn agored i rwymedigaethau afresymol a bod yr hawliau a'r ymrwymiadau cytundebol yn treiddio'n briodol i'r holl Gynghorau.

2.4 Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, wedi iddo arwyddo'r Cytundeb Prosiect, mae'r Cyngor Arweiniol wedi ymrwymo i ddanfon holl wastraff y Bartneriaeth a thalu'n llawn am ei drin. Bydd y Contractwr, o'i ran ef, yn rhwymedig i dderbyn a thrin y gwastraff hwnnw.

2.5 O ystyried yr ymrwymiad hwn, mae angen i'r CRhA sicrhau bod pob Cyngor wedi ymrwymo i ddanfon ei wastraff i'r Contractwr a thalu'r swm cywir i'r Cyngor Arweiniol cyn y bydd y Cyngor Arweiniol yn gorfod talu i'r Contractwr amdano.

2.6 Mae'r CRhA yn nodi dyletswyddau'r Cyngor Arweiniol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i);

2.6.1 Gweithredu ar ran y Cynghorau i reoli a goruchwylio'r Cytundeb Prosiect;

2.6.2 Gweithredu dan arweiniad y Cydbwyllgor;

2.6.3 Bod yn gyfrifol am gysylltu â'r Contractwr, ac

2.6.4 Ymrwymo i unrhyw gontractau allai fod yn angenrheidiol (er enghraifft, penodi ymgynghorwyr) a chysylltu â Llywodraeth Cymru.

2.7 Yn ogystal, mae'r CRhA yn rheoleiddio pethau megis:-

2.7.1 Gwneud penderfyniadau;

2.7.2 Terfynu'r CRhA a Thynnu'n ôl ohono;

2.7.3 Hyblygrwydd i Newid y Contract; a

2.7.4 Rhwymedigaethau'r Cynghorau

3. **GWNEUD PENDERFYNIADAU**

3.1 **Rheolwr y Contract**

3.1.1 Bydd y Bartneriaeth yn penodi Rheolwr Contract gyda chymwysterau priodol i reoli'r prosiect hwn o ddydd i ddydd. Bydd Rheolwr y Contract yn atebol i'r holl Gynghorau ond bydd yn cael ei gyflogi gan neu'n cael ei secondio i'r Cyngor Arweiniol ac yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect. Rheolwr y Contract fydd yn gweithredu fel Cynrychiolydd yr Awdurdod (yn unol â'r diffiniad yn y Cytundeb Prosiect).

3.1.2 Bydd gan Reolwr y Contract ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau dydd i ddydd a bydd yn cysylltu'n rheolaidd â staff allweddol ym mhob Cyngor, yn ogystal â'r Bwrdd Prosiect a'r Cydbwyllgor.

3.1.3 O ran penderfyniadau fydd yn effeithio ar y gyllideb, bydd gan Reolwr y Contract awdurdod hyd at feincnod ariannol blynyddol o [£ ], a byddai'n rhaid cyfeirio unrhyw benderfyniadau sy'n werth mwy na hynny at y Bwrdd Prosiect. Fodd bynnag, nodir y gall Rheolwr y Contract gyfeirio unrhyw fater at y Bwrdd Prosiect, waeth beth fo'r meincnod ariannol.

3.2 **Bwrdd Prosiect**

3.2.1 Y Cynghorau fydd yn ffurfio'r Bwrdd Prosiect er dibenion rheolaeth a gweithrediad dydd i ddydd ynghyd â'r prosesau monitro a

chwblhau'r Tasgau Prosiect penodol hynny fel y nodir yn Atodlen 1 (Tasgau Prosiect) y CRhA ac unrhyw faterion a gyfeirir at y Bwrdd Prosiect gan Reolwr y Contract.

3.2.2 Bydd gan y Bwrdd Prosiect yr awdurdod i wneud penderfyniad ar fater mewn cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect (os bydd cworwm) gan y rhai sy'n bresennol a bydd ganddynt hawl i bleidleisio ar fater fydd â meincnod ariannol blynyddol o hyd at [£ ], (neu bod disgwyliad rhesymol iddo fod â meincnod o'r fath), a byddai unrhyw fater sy'n fwy na hynny yn gorfod cael ei gyfeirio at y Cydbwyllgor, cyn belled fod gan y Bwrdd Prosiect hawl i gyfeirio unrhyw fater sydd ag iddo unrhyw werth ariannol at y Cydbwyllgor am benderfyniad.

3.2.3 Bydd yr holl Gynghorau wedi'u rhwymo i unrhyw benderfyniad o'r fath a wneir gan y Bwrdd Prosiect.

3.3 **Y Cydbwyllgor**

3.3.1 Y Cynghorau fydd yn ffurfio'r Cydbwyllgor (fydd yn disodli ac yn adleoli'r Cydbwyllgor a ffurfiwyd yng nghyswllt y Cytundeb Rhwng Awdurdodau cyntaf), i weithredu'r swyddogaethau a nodir yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor) y CRhA ac i wneud y Tasgau Prosiect fel y'u nodir yn Atodlen 1 (Tasgau Prosiect).

3.3.2 Y meincnod blynyddol arfaethedig ar gyfer materion y Cydbwyllgor yw hyd at [£ ]. Cyfeirir at unrhyw benderfyniad a wneir ar faterion sy'n fwy na'r paramedrau hyn fel 'Mater a Gedwir i'r Cynghorau' a byddai'n rhaid i bob Cyngor unigol wneud penderfyniad arno.

3.3.3 Gallai'r Cydbwyllgor bennu y dylid cyfeirio unrhyw Fater gan y Cydbwyllgor neu Fater gan y Bwrdd Prosiect i bob Cyngor am benderfyniad fel Mater a Gedwir i'r Cynghorau a/neu benderfynu dirprwyo unrhyw fater i'r Bwrdd Prosiect am benderfyniad.

3.4 Egwyddor gyffredinol a ddilynir wrth wneud penderfyniadau dan strwythurau'r Bwrdd Prosiect a'r Cydbwyllgor yw y dylid gwneud penderfyniadau drwy bleidlais fwyafrifol. O ran Materion a Gedwir i'r Cynghorau, ni weithredir penderfyniadau o'r fath oni bai bod yr holl Gynghorau yn eu cymeradwyo'n unfrydol.

3.5 Cytunir nad oes angen i Swyddogion Arweiniol Cynghorau gael eu cynnwys yn y CRhA, a'r Cydbwyllgor fydd yn penderfynu, yn ôl yr angen, p'un a fydd angen penodi Swyddogion Prosiect er dibenion y prosiect, ac yn mynd ati i'w penodi.

4. **TERFYNU, TYNNU'N ÔL AC YMESTYN Y CYTUNDEB**

Bydd y CRhA yn parhau yn gwbl weithredol o'r dyddiad y bydd y Bartneriaeth yn ymrwymo i'r CRhA, hyd y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:

(a) pan fo'r holl Gynghorau'n cytuno'n ysgrifenedig i derfynu'r cytundeb; neu

(b) pan mai dim ond un Cyngor sy'n weddill sydd heb dynnu'n ôl o'r CRhA; neu

(c) y dyddiad chwe (6) mis wedi i'r Cytundeb Prosiect ddirwyn i ben neu gael ei derfynu'n gynharach (yn amodol ar unrhyw gyfnod o amser a gytunir arno o ran dadgomisiynu'r Safle fel y nodir isod).

4.2 **Terfynu**

4.2.1 Mae darpariaethau yn y CRhA i derfynu cytundeb un o'r Cynghorau os fydd y Cyngor hwnnw'n torri ei rwymedigaethau dan y CRhA ac os nad oes modd datrys y sefyllfa honno. Ymdrinnir â'r penderfyniad i derfynu cyfranogiad Cyngor fel Mater a Gedwir i'r Cynghorau.

4.2.2 Byddai'r Cyngor sy'n diffygdalu yn atebol i'r Cynghorau eraill am unrhyw gost a cholledion cynyddol a geir o ganlyniad i'w diffygdalu ac fe gytunir arnynt yn unol ag Adroddiad Atebolrwydd (fel y'i diffinnir yn y CRhA), a ddarperir gan y Cyngor Arweiniol ac a gytunir gan y Cydbwyllgor.

4.3 **Tynnu'n Ôl**

4.3.1 Gall Cyngor dynnu'n ôl o'r Prosiect os yw'n dymuno gwneud hynny. Rhaid i unrhyw Gyngor sy'n dymuno tynnu'n ôl o'r Prosiect gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Cynghorau eraill.

4.3.2 Byddai'r Cyngor sy'n tynnu'n ôl yn atebol i'r Cynghorau eraill yn unol â'r Adroddiad Atebolrwydd a ddarperir gan y Cyngor Arweiniol ac a gytunir gan y Cydbwyllgor.

4.3.3 Os mai'r Cyngor Arweiniol sy'n tynnu'n ôl, yna bydd angen i'r Cyngor Arweiniol amnewid pob un o'r Dogfennau Contract (yn cynnwys y Cytundeb Prosiect, Penodiad Ardystiwr Annibynnol, Gwarant Rhiant-Gwmni a Les y Safle), i'r cyngor arweiniol newydd a ddewisir gan y Cynghorau sy'n weddill.

4.4 **Ymestyn**

4.4.1 Mae'r Cytundeb Prosiect yn cynnwys opsiwn i'r Cynghorau ymestyn Cyfnod y Contract am hyd at bum mlynedd. Cytunir mewn egwyddor y bydd hwn yn Fater a Gedwir i'r Cynghorau ac a benderfynir drwy benderfyniad unfrydol.

5. **HYBLYGRWYDD I NEWID**

5.1 Mae'r CRhA yn adlewyrchu'r hyblygrwydd sydd wedi'i gynnwys yn y prif Gytundeb Prosiect i gynnwys unrhyw amrywiaethau dan y Cytundeb Prosiect (p'un a oes angen yr amrywiad arfaethedig yn sgil newid yn y gyfraith neu oherwydd bod un neu fwy o'r Cynghorau neu'r Contractwr angen newid y contract neu yn sgil unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y Prosiect a allai gael effaith gyfwerth).

5.2 Cytuna'r Cynghorau i gael eu rhwymo i'r rhwymedigaethau ar y Cyngor Arweiniol a nodir yng Nghymal 43 (Newidiadau gan Awdurdod a Chontractwr) ac Atodlen 21 (Protocol Newid) y Cytundeb Prosiect.

5.3 Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda'r Contractwr i gyflawni'r datrysiad sy'n rhoi'r gwerth gorau i'r Prosiect.

5.4 Os bydd y Cynghorau'n penderfynu cefnogi amrywiad arfaethedig dan y Cytundeb Prosiect, bydd y Cyngor Arweiniol yn gwneud cais am Newid gan Awdurdod (fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Prosiect), gyda'r Contractwr yn y Cytundeb Prosiect, a ble y cytunir y bydd y Newid gan Awdurdod arfaethedig yn cael budd cilyddol i'r Prosiect, bydd costau'r Newid gan Awdurdod arfaethedig yn cael eu rhannu rhwng y Cynghorau. Ble nad yw'r Newid gan Awdurdod yn arwain at fudd cilyddol, y Cyngor sy'n gwneud cais am y newid i'r Cytundeb Prosiect fydd yn gyfrifol am dalu costau'r Newid gan Awdurdod.

5.5 Nodir o ran cyhoeddiad diweddar Adroddiad Comisiwn Williams ac o ddeall y bydd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sirol Wrecsam; Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Conwy; a Chyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn uno dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cynghorau'n cydnabod y bydd unrhyw "Gyngor olynol" a ddaw yn dilyn

uniad o'r fath yn olynu'r Cynghorau gwreiddiol yn awtomatig er dibenion y CRhA. Fodd bynnag, mae'r Cynghorau hefyd yn cydnabod na fydd unrhyw uniad yn newid yr Ardal Weinyddol (fel y'i diffinnir yn y Cytundeb Prosiect), yn awtomatig, ac mai'r unig ffordd y gall y Cynghorau addasu hyn (er mwyn adlewyrchu ardal ddaearyddol unrhyw "Gyngor olynol" er dibenion y Prosiect), fydd drwy weithredu amrywiad dan y Cytundeb Prosiect drwy wneud Newid gan Awdurdod fel y nodir uchod.

## 6. RHWYMEDIGAETHAU'R CYNGHORAU

6.1 **Indemniadau Cyffredinol**

6.1.1 Bydd y Cyngor Arweiniol yn indemnio'r holl Gynghorau yn erbyn unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithrediadau, galwadau, costau ac atebolrwydd a ddioddefir, i'r graddau a godir yn sgil unrhyw ddiffygdalu bwriadol, toriad bwriadol neu weithred esgeulus neu anwaith gan y Cyngor Arweiniol o ran ei rwymedigaethau dan y Dogfennau Contract (fel y'i diffinnir dan y CRhA, yn cynnwys y Cytundeb Prosiect a'r CRhA).

6.1.2 Bydd pob un o'r Cynghorau eraill (gan weithredu'n unigol), yn indemnio'r Cyngor Arweiniol yn erbyn unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithrediadau, galwadau, costau ac atebolrwydd a ddioddefir, i'r graddau a godir yn sgil unrhyw ddiffygdalu bwriadol, toriad bwriadol neu weithred esgeulus neu anwaith gan Gyngor o'i rwymedigaethau dan y CRhA.

6.1.3 Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd y swm sydd i'w dalu i'r Cyngor Arweiniol yn cael ei dalu gan bob un o'r Cynghorau i'r graddau yr oeddynt hwy yn gyfrifol amdano; fodd bynnag, os mai dau neu fwy o Gynghorau sy'n diffygdalu sy'n gyfrifol, yna bydd y swm sydd i'w dalu yn cael ei rannu rhwng y Cynghorau hynny sy'n gyfrifol ar raddfa y bydd y Cydbwyllgor yn penderfynu arni.

6.1.4 Bydd y Cynghorau'n sicrhau bod ganddynt sicrwydd yswiriant digonol a'u bod yn ei gynnal o ran unrhyw rwymedigaethau fydd arnynt yn sgil unrhyw esgeulustod neu ddiffygdalu ar eu rhan.

6.2 **Terfynu'n Gynnar**

6.2.1 Bydd rhwymedigaethau'r Cynghorau o ran terfynu'r Cytundeb Prosiect yn gynnar yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at rwymedigaeth y Cyngor Arweiniol i dalu iawndal i'r Contractwr am derfynu'n gynnar dan y Cytundeb Prosiect.

6.2.2 Bydd y Cynghorau'n atebol (ac yn indemnio ei gilydd) am gyfrannau cyfartal o'r swm terfynu sy'n daladwy i'r Contractwr yn dilyn terfynu'r Cytundeb Prosiect yn gynnar, os bydd y terfynu cynnar yn digwydd yn ystod cyfnod gwaith y Prosiect cyn y cwblheir y Cyfleuster. Os bydd y terfyniad yn digwydd pan fo'r Cyfleuster yn weithredol yna fe bennir y rhwymedigaeth ar sail pro rata o ran y tunelli a ddanfonir yno gan bob Cyngor unigol.

6.2.3 Os nad oes bai cyfartal ar y Cynghorau am derfynu'n gynnar, cytuna'r Cynghorau y bydd y Cyngor neu'r Cynghorau fu'n gyfrifol am y gweithrediadau neu'r anwaith a arweiniodd at y terfyniad yn atebol am gyfran fwy o'r swm terfynu neu am y swm terfynu yn ei gyfanrwydd.

6.2.4 Nodir na fydd gan y Cyngor Arweiniol hawl i gyflwyno rhybudd terfynu gwirfoddol o ran y Cytundeb Prosiect oni bai bod gweithrediad o'r fath wedi'i gymeradwyo gan yr holl Gynghorau fel Mater a Gedwir i'r Cynghorau.

## 7. Y SAFLE A DADGOMISIYNU

7.1 Pan fo'r Prosiect yn dirwyn i ben, Cyngor Sir y Fflint fydd yn cadw'r safle. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, os bydd y Cyngor Arweiniol yn terfynu neu'n tynnu'n ôl o'r CRhA, bydd y Safle yn trosglwyddo i'r Cyngor Arweiniol newydd (fel y'i dewisir gan y Cynghorau sy'n weddill), am hyd y Prosiect a phan fo'r Prosiect yn dirwyn i ben, bydd y Safle'n cael ei ddychwelyd i Gyngor Sir y Fflint.

7.2 Cytunir mewn egwyddor os bydd y Prosiect yn terfynu'n gynnar tra bo'r Cyfleuster yn weithredol yna dylai'r Bartneriaeth gytuno ar drefniadau priodol er mwyn parhau i ddefnyddio'r Cyfleuster am weddill y 25 mlynedd. Fodd bynnag, os nad yw'r Cyfleuster wedi'i adeiladu (yn sgil, e.e. methiant cynllunio/caniatâd), yna bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r safle ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth pellach i ddefnyddio'r Safle er dibenion y Prosiect. Os bydd y Cyfleuster wedi'i adeiladu'n rhannol ond nad ydyw'n weithredol hyd yma, bydd y Cynghorau'n cytuno i drafod a phenderfynu ar drefniadau priodol a bydd y Cynghorau'n rhannu'r rhwymedigaethau yn gyfartal o ran unrhyw gostau.

7.3 Pan fo'r Prosiect yn dirwyn i ben, bydd cost y dadgomisiynu'n cael ei rhannu'n gyfartal rhwng y pum Cyngor, oni bai bod Cyngor Sir y Fflint (gan ddefnyddio'i ddisgresiwn ei hun), yn dewis peidio â dadgomisiynu'r Safle, ac o dan y fath amgylchiadau, Cyngor Sir y Fflint fydd y gwbl atebol am unrhyw gostau dadgomisiynu yn y dyfodol.

7.4 Nodir y dylid cynnwys cost dadgomisiynu'r Safle yn yr Adroddiad Atebolrwydd fel taliad i'w wneud gan unrhyw Gyngor sy'n tynnu'n ôl neu'n terfynu.

## 8. CRONFA BUDDION CYMUNEDOL

8.1 Mae'r Cynghorau wedi cytuno mewn egwyddor i daliadau o ran Cronfa Buddion Cymunedol. Bydd pob Cyngor yn cyfrannu at y gronfa a bydd y taliadau'n cael eu pennu ar sail pro rata sy'n gyfrannol i'r tunelli a ddanfonir gan bob un o'r Cynghorau.

## 9. CYLLID LLYWODRAETH CYMRU

9.1 Cytunir mewn egwyddor pe bai cyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei dynnu'n ôl o'r Prosiect byddai angen i'r Cynghorau fedru ymdrin â'r ffaith bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i golli ar sail pro rata sy'n gyfrannol i'r tunelli a ddanfonir gan bob un o'r Cynghorau.

## 10. COSTAU RHEOLI CONTRACT

10.1 Yn ystod cyfnod gwaith y Prosiect hyd nes y bydd y Cyfleuster yn cael ei gwblhau ac yn weithredol, bydd y Costau Rheoli Contract sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Cynghorau. Yn ystod cyfnod gweithredol y Prosiect, bydd y Costau Rheoli Contract ar sail pro rata a bydd taliadau'n gyfrannol i'r tunelli a ddanfonir gan bob un o'r Cynghorau.

## 11. GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF NEWYDD

11.1 Cytunir mewn egwyddor y bydd y costau sydd ynghlwm ag adeiladu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn wariant cyfalaf sydd i'w rannu'n gyfartal rhwng y pum Cyngor.

11.2 Os deuir i benderfyniad bod yr Orsaf Drosglwyddo Gwastraff newydd yn cael ei hadeiladu ar safle a ddarperir gan Gyngor Sir Conwy, yna bydd y safle yn cael ei gadw gan Gyngor Sir Conwy pan fo'r Prosiect yn dirwyn i ben neu pan fo'n cael ei derfynu. Fodd bynnag, os bydd y Bartneriaeth yn cyllido ac yn darparu safle i adeiladu'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd arno ar y cyd, yna pan fo'r Prosiect yn dirwyn i ben neu'n cael ei derfynu'n gynnar, bydd y CRhA yn cynnwys darpariaethau fydd yn caniatáu i'r Cynghorau gytuno ar yr adeg honno sut i fynd ati i ymdrin â'r safle a'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd.